Arsyllfa Wledig Cymru
Wales Rural Observatory

# Marchnadoedd Llafur Cefn Gwlad: archwilio'r anghydweddu

## Adroddiad Ymchwil 7

Terry Marsden, Alex Franklin
a Lawrence Kitchen

Tachwedd 2005

*Cydnabyddiaeth*

Hoffai Arsyllfa Wledig Cymru ddiolch i'r holl berchenogion busnes a gymerodd ran yn y rhaglen ymchwil empirig, y mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig arno.

## Cynnwys


## Crynodeb Gweithredol

## Adran 1 – Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad i Ymchwil

1.2 Strwythur yr Adroddiad

## Adran 2 – Adolygiad o Ddynameg Marchnadoedd Llafur Cefn Gwlad

2.1 Cyflwyniad i farchnadoedd llafur cefn gwlad

*2.1.1 Cyflwyniad*
*2.1.2 Mabwysiadu Dull Integredig o Weithio*
*2.1.3 Cefnogaeth Sefydliadol*
*2.1.4 Crynodeb: Mynd i'r Afael â'r Bwlch mewn Gwybodaeth*

2.2 Deall sut y caiff marchnadoedd llafur lleol eu ffurfio

2.3 Cynllunio ar gyfer Economi Sgiliau a'r 'cydbwysedd sgiliau isel'

2.4 Anawsterau Recriwtio yng Nghefn Gwlad

2.5 Crynodeb

## Adran 3 – Cymru a Natur Achos-Benodol Marchnadoedd Llafur Cefn Gwlad

3.1 Cyflwyniad: amlinelliad o economi gyflogaeth cefn gwlad Cymru

*Map 1. Canran y boblogaeth o oedran gweithio sydd heb ddim cymwysterau*
*Map 2. Canran y boblogaeth o oedran gweithio sydd â chymwysterau Lefel 1*
*Map 3. Canran y boblogaeth o oedran gweithio sydd â chymwysterau Lefel 2*
*Map 4. Canran y boblogaeth o oedran gweithio sydd â chymwysterau Lefel 3*
*Map 5. Canran y boblogaeth o oedran gweithio sydd â chymwysterau Lefel 4/5*
*Map 6. Canran y boblogaeth o oedran gweithio sydd â chymwysterau eraill/anhysbys*
*Map 7. Canran y bobl economaidd actif sydd yn y boblogaeth oedran gweithio*
*Map 8. Canran y gwrywod economaidd actif sydd yn y boblogaeth oedran gweithio*
*Map 9. Canran y benywod economaidd actif sydd yn y boblogaeth oedran gweithio*
*Map 10. Incwm blynyddol cymedrig cartrefi*

3.2 Gwybodaeth gan Arolwg Busnes Arsyllfa Wledig Cymru

*3.2.1 Cydnawsedd y sylfaen o weithwyr*
*3.2.2 Tystiolaeth o ymgorffori a rhwydweithiau anffurfiol*
*3.2.3 Potensial i dyfu / busnesau dull byw*
*3.2.4 Sialensiau i fusnes a rôl systemau cefnogi*
*3.2.5 Defnyddio technoleg, ymchwil a datblygu*
*3.2.6 Arloesedd / mentergarwch ymysg perchenogion busnesau cefn gwlad*
*3.2.7 Crynodeb*

3.3 Gwybodaeth gan Arolwg Cartrefi Arsyllfa Wledig Cymru

*3.3.1 Sylfaen sgiliau ardaloedd gwledig ar draws Cymru*
*3.3.2 Cyflogaeth a diweithdra*
*3.3.3 Y sectorau cyflogaeth*

3.4 Crynodeb – Gosod yr Agenda Ymchwil

**Adran 4 - Cynllun Ymchwil Empirig**

4.1 Dewis Ardaloedd yr Astudiaethau Achos

*4.1.1 Methodoleg ar gyfer dewis Sir Ddinbych a Sir Benfro*
*4.1.2 Nodweddion marchnadoedd llafur Sir Ddinbych a Sir Benfro*
*4.1.3 Nodweddion busnes Sir Ddinbych a Sir Benfro*

4.2 Dewis Busnesau ar gyfer yr Astudiaethau Achos

*4.2.1 Categoreiddio busnesau yn Sir Ddinbych a Sir Benfro*

4.3 Cyflwyno a Dadansoddi'r Arolwg

*4.3.1 Techneg cyfweld dros y ffôn*
*4.3.2 Dewis a chyflwyno cwestiynau ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn*
*4.3.3 Themâu Dadansoddi*

**Adran 5 – Canlyniadau Sir Ddinbych a Sir Benfro**

5.1 Cyflwyniad

5.2 Canlyniadau – Sir Ddinbych a Sir Benfro

*5.2.1 Cyfansoddiad staffio*
*5.2.2 Recriwtio*
*5.2.3 Hyfforddiant*
*5.2.4 Cefnogaeth fusnes allanol*
*5.2.5 Effeithiau newid polisi: adnoddau i hyfforddi 'o fewn y cwmni?*

5.3 Crynodeb - Cynnal twf busnesau drwy farchnadoedd llafur Sir Ddinbych a Sir Benfro

**Adran 6 – Casgliad**

Casgliadau a llwybrau at ddadansoddi pellach

**Atodiad 1** Diffiniadau NOMIS

**Cyfeiriadau**

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## Cefndir

Fel prosiect sy'n gydran o raglen ymchwil Cam 2 a gynhelir gan Arsyllfa Wledig Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, amcanion y prosiect ymchwil hwn oedd archwilio marchnadoedd llafur yng nghefn gwlad Cymru, a datblygu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer datblygiadau yn y maes ymchwil a pholisi hwn yn y dyfodol. Wrth fynd i'r afael â'r amcanion hyn, defnyddiodd y prosiect ymchwil amrywiaeth o lenyddiaeth academaidd a pholisi, yn ogystal â data arolwg a gasglwyd yn ystod Cam 1 o raglen ymchwil Arsyllfa Wledig Cymru [AWC]. Galluogodd y dull hwn o weithio, sydd wedi'i ymgorffori yn astudiaethau ymchwil presennol AWC ac yn datblygu ohonynt, ddealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd economi cefn gwlad Cymru. Gan dynnu ar yr astudiaethau hyn a'r data gwrthrychol a oedd ar gael, rhoddwyd sylw penodol i ddatblygu pedair prif thema:

- cyfansoddiad staffio;
- materion yn ymwneud â recriwtio;
- materion yn ymwneud â hyfforddiant a sgiliau;
- cefnogaeth fusnes allanol.

## Dulliau Ymchwil

Yn yr adroddiad hwn, diffinnir cefn gwlad Cymru fel yr ardaloedd hynny y'u cynrychiolir gan yr awdurdodau lleol canlynol: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Fynwy, Sir Benfro, Powys ac Ynys Môn. Defnyddiodd y prosiect ymchwil ddull methodolegol haenedig o weithio, gan archwilio cymhlethdodau marchnad lafur cefn gwlad Cymru. Yn gyntaf, ac ar lefel trosfwaol, cynhaliwyd adolygiad o ddeunyddiau darllen academaidd a pholisi perthnasol. Cyfeiriodd yr adolygiad hwn at faterion allweddol yn ymwneud â marchnadoedd llafur cefn gwlad yn y Deyrnas Unedig, a llywiodd hyn yr ymchwil ar yr ail lefel. Ar yr ail lefel hon, defnyddiwyd data o ddau adroddiad gan AWC, *Arolwg Busnes Cefn Gwlad* (AWC 2004a) ac *Arolwg Cartrefi Cefn Gwlad* (AWC 2004b); y System Gweithlu Ar-lein Genedlaethol [NOMIS]; ac o adroddiad ar *System Dai Cefn Gwlad Cymru* (Milbourne et al., ar y gweill), i archwilio amrywiaeth o themâu allweddol. Roedd y themâu hyn yn cynnwys: ymgorffori lleol busnesau cefn gwlad; estyniad a dylanwad rhwydweithiau anffurfiol; effeithiau dulliau byw yng nghefn gwlad ar gyflogwyr a'u strategaethau busnes; cydnawsedd rhwng cyflogwyr a gweithwyr; graddfeydd o arloesedd a mentergarwch a ddangosir; a'r rhwystrau a'r cyfyngiadau sy'n wynebu busnesau cefn gwlad yng Nghymru. Ar y drydedd lefel, dewiswyd dwy ardal ar sail awdurdod lleol i'w dadansoddi: Sir Ddinbych a Sir Benfro. Gan ddefnyddio data gan NOMIS, archwiliodd y dadansoddiad hwn nodweddion marchnadoedd llafur yn y ddau awdurdod lleol hwn. Canolbwyntiodd ymchwil ar y bedwaredd microlefel, sef y lefel ddyfnaf, ar 40 o fusnesau unigol sydd wedi'u lleoli yn Sir Ddinbych a Sir Benfro, ac fe'i gynhaliwyd drwy gyfweliadau manwl gyda pherchenogion busnesau.

Aeth y dadansoddiad ar draws yr haenau hyn ac o'u mewn y tu hwnt i'r cysyniadau cyffredinol a bortreadwyd yn y llenyddiaeth gyfredol, er mwyn datblygu model cysyniadol cadarnach o arferion marchnadoedd llafur cefn gwlad a'r modd y maent yn gweithio. Felly, galluogodd y dull penodol hwn o weithio nodi canfyddiadau a dod i gasgliadau ar bob lefel. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau ymchwil hyn yn galluogi dirnadaeth o gymhlethdodau marchnadoedd llafur, o

gynaliadwyedd economi cefn gwlad Cymru, ac yn cynnig sylfaen o dystiolaeth ar gyfer ymchwil a pholisi yn y dyfodol.

## Prif Ganfyddiadau

*(a) Y cydbwysedd sgiliau isel, hyblygrwydd swyddogaethol a throell dirywiad*

Er y caiff y llenyddiaeth am farchnadoedd llafur cefn gwlad ei nodweddu gan dermau cyffredinol a llednais megis 'y cydbwysedd sgiliau isel' a 'hyblygrwydd swyddogaethol', y mae'n nodi set o amodau sydd â'r potensial i gyfrannu at barhad troell dirywiad mewn marchnadoedd llafur cefn gwlad yng Nghymru. Caiff yr amodau hyn eu dangos mewn diagram amlinellol ar d.18 yn y prif adroddiad. Hefyd, mae'r dadansoddiad dilynol, drwy archwilio'r ffynonellau data ystadegol ac eilaidd sydd ar gael am gefn gwlad Cymru (gan gynnwys arolygon cynharach gan AWC), ac wedyn drwy ymchwil ansoddol manwl â 40 o gwmnïau cefn gwlad yn awdurdodau lleol Sir Ddinbych a Sir Benfro, yn profi'r tueddiadau hyn yn fwy empeiraidd. Yn ogystal, fel y trafodwyd uchod, mae'r dadansoddiad hwn yn galluogi llunio model cysyniadol cadarnach ar gyfer arferion marchnadoedd llafur cefn gwlad yng Nghymru a'r modd y maent yn gweithio, sydd ar d.75.

Yn fras, tybir bod y gweithlu lleol, mewn ymateb i ofynion cynyddol cyflogwyr am sgiliau isel ond hyblyg (hyblygrwydd swyddogaethol) a gostyngiad yn y cyfleoedd am waith medrus, yn dueddol o ddatblygu llai o sgiliau. Mae bodolaeth y set hon o amodau yn achosi i'r droell dirywiad barhau, ac yn arwain at greu disgwyliadau isel ymysg cyflogwyr a gweithwyr.

*(b) Y Graddiant Dwyrain-Gorllewin*

O'r dystiolaeth arolwg ystadegol ac eilaidd, amlygir sawl tuedd barhaus. Mae yna raddiant cyffredinol o'r dwyrain i'r gorllewin yn lefelau actifedd economaidd, p'un a fesurir hyn drwy ddiweithdra cofrestredig, neu drwy ffigurau manylach y rhai sy'n economaidd anactif. Yn Sir Benfro, er enghraifft, roedd ymron i 20% o wrywod o oedran gweithio yn economaidd anactif (cyfanswm absoliwt o 7,000), ac roedd 5,000 o'r rhain wedi'u cofrestru fel 'ddim eisiau swydd' a 2,000 fel 'eisiau swydd'. Hyd yn oed yn Sir Ddinbych (sydd ar y cyfan yn sgorio'n uwch o ran actifedd economaidd) roedd 5,000 o wrywod wedi'u cofrestru'n economaidd anactif (18.4% o wrywod o oedran gweithio), ac roedd 4,000 o'r rhain 'ddim eisiau swydd'. Os ychwanegwn at hyn y nifer cynyddol o gartrefi wedi ymddeol, awgrymir bod colled sylweddol o adnoddau llafur ac, o'i gymharu â llawer o ranbarthau eraill y DU, bod 'swmp' cynyddol a pharhaus o actifedd economaidd isel.

Mae data arall yn awgrymu bod graddiant dwyrain-gorllewin sylweddol. Er enghraifft, mae dosbarthiad incwm blynyddol ar lefel ward yn dangos bod incwm blynyddol cartrefi ym mwyafrif wardiau cefn gwlad Cymru yn is na chymedr Cymru gyfan. Roedd hyn yn fwy amlwg yng ngorllewin, gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru. Awgrymodd yr arolwg busnes cyntaf fod tair problem gysylltiedig yng nghefn gwlad. Yn gyntaf, gwelwyd bod hygyrchedd cwsmeriaid a chyflenwyr yn broblem oherwydd bod gan fusnesau gysylltiadau cludiant gwael (36%). Yn ail, dywedodd 36% o fusnesau fod ganddynt sylfaen annigonol neu anaddas o gwsmeriaid. Yn drydydd, roedd problemau sylweddol o ran recriwtio a chadw llafur. Ar y cyfan, mae'r data eilaidd a'r dadansoddiad yn yr adroddiad yn ategu casgliadau'r llenyddiaeth sydd ar gael a model amodau marchnadoedd llafur cefn gwlad a gyflwynir yn ffigur 2.1 ar d.18.

Gyda'i gilydd, mae'r ffaith bod gwahaniaethau cynyddol yn yr amodau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn awgrymu bod y cyfresi hyn o amodau dynamig - bodolaeth cylchred o gwmnïau sy'n dod â gwerth isel, disgwyliadau isel gan gyflogwyr o ran hyfforddiant a sgiliau, cyflogau isel a sylfaen o sgiliau isel - yn gweithredu ar lefel ddyfnach a mwy difrifol yn yr ardaloedd gwledig yn y gorllewin. Felly, mae'r un broses i'w gweld ym mhob ardal wledig, ond mae'n fwy parhaus a difrifol yn bellach i'r gorllewin yng nghefn gwlad Cymru. Caiff y graddiant dwyrain-gorllewin a honnir yma ei ddangos yn glir mewn cyfres o fapiau, a luniwyd gyda data ar lefel awdurdodau lleol a wardiau (t.26 - t.35).

*(c) Symud oddi wrth amaethyddiaeth*

Mae'r llenyddiaeth yn nodi bod tuedd mewn cyflogaeth yng nghefn gwlad i symud oddi wrth alwedigaethau yn seiliedig ar amaethyddiaeth tuag at sylfaen fwy amrywiol o wasanaeth gweithgynhyrchu. Caiff y newid pwyslais hwn ei ategu gan y data arolwg eilaidd, a'i adlewyrchu yn y sampl o 40 o fusnesau cefn gwlad a gyfwelwyd ar y lefel ficro yn Sir Ddinbych a Sir Benfro. Nid oedd yr arolwg gwreiddiol yn cynnwys ffermydd, ond roedd busnesau sydd â chysylltiadau amaethyddol yn gymysg ag amrywiaeth o fathau o fusnesau, gan gynnwys adwerthu, cludiant, llety a chwmnïau gweithgynhyrchu bychain.

*(d) Caffael sgiliau staffio*

Mae strategaethau rheoli'n dueddol o adlewyrchu'r ethos 'hyblygrwydd swyddogaethol', ac mae'n well gan lawer o gyflogwyr staff rhan-amser a rhwydweithiau anffurfiol o deulu a ffrindiau ar gyfer eu rhestrau staffio. Caiff anghydweddu sylweddol ei nodi rhwng cyflogwyr a gweithwyr. Y prif ffactor sy'n cyfrannu at yr anghydweddu hwn yw'r diffyg cymwysterau academaidd priodol, sgiliau proffesiynol a hyfforddiant ar gyfer swyddi sydd ar gael a nodweddai lawer o weithwyr potensial. Caiff ffactorau eraill sy'n cyfrannu at hyn eu cysylltu â bywyd gwledig: dibyniaeth gweithwyr potensial ar gludiant cyhoeddus; diffyg ymddiried mewn cludiant cyhoeddus; a phrinder cyffredinol o ymgeiswyr.

*(e) Recriwtio*

Ar y cyfan, ystyrir bod recriwtio drwy Ganolfannau Gwaith yn drafferthus. Ystyriwyd y caiff ymgeiswyr o Ganolfannau Gwaith eu cyflwyno, yn aml, er mwyn cyrraedd targedau, a bod yr ymgeiswyr yn dod er mwyn bodloni'r gofynion i barhau i dderbyn budd-daliadau. Mae llawer o gyflogwyr yn nodi bod yn well ganddynt recriwtio drwy glywed sôn am rywun a thrwy rwydweithiau anffurfiol eraill.

*(f) Hyfforddiant*

Er nad yw cyflogwyr, yn realistig, yn disgwyl i ymgeiswyr fod â hyfforddiant llawn, caiff llawer eu siomi gan ansawdd ymgeiswyr: ffactor a drafodir uchod. Mae cyflogwyr yn tynnu sylw at gost ariannol uchel hyfforddi gweithwyr newydd a phresennol. Mae'r ffactorau hyn yn cyfuno i atgyfnerthu defnyddio rhwydweithiau anffurfiol a hyblygrwydd swyddogaethol yn y gweithlu.

*(g) Cefnogaeth fusnes allanol*

Nid yw'r problemau a brofwyd gan berchenogion busnes a astudiwyd yn rhai cwbl 'wledig' eu hanian o bell ffordd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr amodau gwledig yn aml yn ymestyn effaith yr anawsterau recriwtio mwy cyffredinol hynny, sy'n effeithio ar fusnesau, waeth lle y'u

lleolir. Ymhlith yr enghreifftiau da o sialensiau o'r fath mae effeithiau cyfarwyddebau oriau gwaith Ewrop, cyfnod mamolaeth a'r angen cynyddol i dalu am brofion y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer gweithwyr potensial. Mae'r holl faterion hyn, ar y cyd â chost tanwydd, yn effeithio ar fusnesau ar draws y DU - ond ar wahanol raddfeydd serch hynny, yn dibynnu ar y sector busnes unigol a'r lleoliad. Fodd bynnag, o'u cyfuno â materion penodol wledig megis hygyrchedd, bylchau yn y cyflenwad llafur a llai o gwsmeriaid, daw'r angen i deilwra cefnogaeth fusnes yn amlwg.

## Casgliad

Mae mwy o ffactorau strwythurol a chyd-destunol i'w hystyried os yw'r prosesau a nodwyd am gael eu lleddfu. Yn gyntaf, mae'r astudiaeth wedi canolbwyntio'n benodol ar fusnesau anamaethyddol; ond mae'n amlwg bod cyfran fawr ohonynt yn dal i fod, mewn gwahanol ffyrdd, yn ddibynnol ar eu cyd-destun amgylcheddol, un ai'n adnodd ar gyfer gweithgynhyrchu, neu fel gwasanaeth, fel llawer o fusnesau adwerthu a llety i dwristiaid. Mae bodolaeth lefelau isel o ychwanegu gwerth, mewn diwydiannau cynradd mewn gweithgynhyrchu ac mewn gwasanaethau, yn rhwystr o ran galw. Ac mae'n debygol y bydd hyn yn parhau i atal twf busnesau ac, yn ei dro, cyflogaeth ac actifedd economaidd, waeth pa mor anffurfiol neu hyblyg y daw marchnadoedd llafur cefn gwlad, neu waeth faint o ymddiriedaeth sydd ynddynt. Gall gweithio ar sail sectorau (megis drwy ddatblygu cyfleoedd twristiaeth mwy atyniadol, neu ddatblygu 'gweoedd bwyd' lleol) fod yn un ffordd ddefnyddiol ymlaen. Fodd bynnag, mae angen asesu, yn enwedig yng nghyd-destun y cynllun gofodol newydd (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004), potensial mewndarddol ardaloedd gwledig yn fwy systematig. Un ffordd o weithio yw denu datblygiadau twristaidd mewnol, ond yn fwy sylfaenol, bydd angen ystyried dichonolrwydd yr eco-economi wledig. Hynny yw, y gwahanol ffyrdd o wireddu llawer o'r uchelgeisiau a'r gweledigaethau a gynhwysir yn natganiadau is-ardaloedd y cynllun gofodol newydd, drwy feithrin gwerth ychwanegol amgylcheddol a chreu mwy o gwmnïau nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol.

I ddechrau gwireddu'r weledigaeth hon, bydd angen mynd i'r afael â'r anawsterau systemig sy'n wynebu busnesau bychain a'r rhai sy'n economaidd anactif. Bydd hyn yn gofyn ymdrin ag agweddau ar yr eco-economi potensial fel rhan o'n dadansoddiad o farchnadoedd llafur cefn gwlad. Hyd yn hyn, nid yw'r llenyddiaeth academaidd na pholisi wedi gwneud yr eco-economi yn rhan o'r drafodaeth o sut y gellid gwyrdroi 'troell dirywiad' cefn gwlad. Mae hyn yn adlewyrchu anallu hirdymor ym mholisi'r DU i gysylltu gwerth amgylcheddol yn greadigol â gwerth economaidd ychwanegol: hynny yw, i greu datblygiad economaidd cynaliadwy.

Gallai dyfodiad cynllunio gofodol i Gymru, a allai agor cil y drws i feddwl mwy arloesol am yr eco-economi, gynnig sylfaen i atal y rhwyg traddodiadol ac economaidd llesteiriol rhwng yr amgylchedd a chyflogaeth ar yr un llaw, a gwrth-droi, fel yr ydym wedi ei weld yma, dyfalbarhad anghydweddu cymhleth o ran busnes a llafur, ar y llaw arall. Bydd trydedd rhan y rhaglen marchnadoedd llafur cefn gwlad a busnesau cefn gwlad yn ystyried y materion hyn yn fwy manwl.

# Adran 1: Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad i Ymchwil

Mae'r prosiect ymchwil hwn yn cynnig sylfaen newydd o dystiolaeth am gymhlethdodau marchnadoedd llafur cefn gwlad yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn archwilio'r math o strategaethau ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer marchnadoedd llafur y mae cyflogwyr yn eu mabwysiadu un ai er mwyn dod dros yr hyn a ystyrir yn wendidau, neu i fanteisio i'r eithaf ar gryfderau a welwyd yn y llafurlu lleol. Telir sylw arbennig i:

- natur marchnadoedd llafur ffurfiol ac anffurfiol a chyfranogiad busnesau cefn gwlad ynddynt;
- rôl hyfforddiant a recriwtio mewn gwella ansawdd cyflenwad llafur lleol, ac;
- y rhyngweithio sy'n digwydd rhwng gweithwyr (potensial), cyflogwyr a darparwyr cefnogaeth fusnes yng nghyd-destun gwella cynaliadwyedd busnesau ac economi cefn gwlad

Mae'r data y seilir casgliadau'r ymchwil hwn arno yn rhan o astudiaeth hydredol ehangach i fusnesau cefn gwlad yng Nghymru. Drwy weithio mewn modd sy'n defnyddio amrediad o dechnegau sy'n gorgyffwrdd i gasglu data, bu modd seilio'r canfyddiadau sy'n ymwneud â marchnadoedd llafur cefn gwlad yng nghyd-destun dirnadaeth ehangach o gynaliadwyedd economi cefn gwlad yn gyffredinol.

## 1.2 Strwythur yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn adolygu'r trafodaethau cyfredol a'r materion allweddol sy'n ymwneud â marchnadoedd llafur cefn gwlad yn y Deyrnas Unedig.

- Mae Adran 3 wedyn yn cysylltu'r adolygiad blaenorol o'r llenyddiaeth sy'n bodoli â sefyllfa benodol cefn gwlad Cymru. O wneud hynny, telir sylw i sefyllfa'r gweithwyr ac i rôl y cyflogwr.

  Mae'r data wedi'i drefnu o amgylch nifer o themâu allweddol, ac yn ymestyn arnynt, sy'n deillio o'r Arolwg Busnes Cefn Gwlad (AWC 2004a)[1], sy'n galluogi deall rôl busnesau. Y canlynol yw'r themâu allweddol:

  - Tystiolaeth o ymgorffori busnesau a rhwydweithiau anffurfiol
  - Natur busnesau 'dull o fyw'
  - Perthnasoedd rhwng Gweithwyr a Chyflogwyr a'u cydnawsedd
  - Arloesedd/mentergarwch mewn Busnesau Cefn Gwlad
  - Rhwystrau a chyfyngiadau i fusnesau cefn gwlad

[1] Mae'r Arolwg Busnes Cefn Gwlad yn rhan allweddol o raglen waith 'economi a chyflogaeth cefn gwlad' Arsyllfa Wledig Cymru. Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod 'Cam 1' (Ionawr – Hydref 2004), ac mae'n cynnig meincnod cadarn ar gyfer holl waith yr Arsyllfa yn y dyfodol.

Mae data o Gronfa Ddata Arolwg Cartrefi Cefn Gwlad (AWC 2004b)[2] ac o NOMIS[3] yn darparu gwybodaeth am farchnadoedd llafur cefn gwlad yng nghyd-destun nodweddion a statws y 'gweithiwr'.

- Mae Adran 4 yn cynnig trafodaeth fanwl o'r technegau methodolegol a ddefnyddiwyd i ddewis yr astudiaethau achos ac i gyfweld yr ymatebwyr.

- Mae Adran 5 yn dadansoddi'r data sy'n deillio o'r ymchwil empirig, ac yn ystyried y canfyddiadau hyn yng ngoleuni'r wybodaeth bresennol am farchnadoedd llafur cefn gwlad a drafodwyd yn yr adolygiad o'r llenyddiaeth.

- Mae Adran 6 yn cynnig casgliadau a wnaed o faterion allweddol a thueddiadau sy'n deillio o ganfyddiadau'r ymchwil. Trafodir y goblygiadau ar gyfer cyflawni cynaliadwyedd cymdeithasol-economaidd yng nghefn gwlad Cymru, yn ogystal â llwybrau ar gyfer ymchwil pellach â ffocws ac sy'n ymwneud â pholisi a gynhelir gan Arsyllfa Wledig Cymru.

[2] Roedd Arolwg Cartrefi Cefn Gwlad yn cynnwys arolwg cynhwysfawr o 4,000 o drigolion yng nghefn gwlad Cymru. Ymgymerwyd gan NOP ar ran AWC, ac mae'n darparu ystod o ddata gwaelodlin ar fyw a gweithio yng nghefn gwlad Cymru.

[3] NOMIS – System Gweithlu Ar-lein Genedlaethol – cronfa ddata ar y we o ystadegau am farchnadoedd llafur, a gynhelir gan Brifysgol Durham ar ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

# Adran 2: Adolygiad o Ddynameg Marchnadoedd Llafur Cefn Gwlad

## 2.1 Cyflwyniad i Farchnadoedd Llafur Cefn Gwlad

### *2.1.1 Cyflwyniad*

> "… nid oes gan bolisïau nad ydynt, gyda'i gilydd o leiaf, yn diwallu anghenion cyflogwyr lleol ar yr un pryd ag anghenion grwpiau marchnad lafur lleol, hynny yw galw a chyflenwad y farchnad, fawr o siawns i lwyddo, waeth beth oedd y bwriad gwreiddiol" (Campbell 1992: 195)

Yn ei hanfod, gellir diffinio 'marchnad lafur' fel y man cyfarfod i ddwy gydran allweddol – 'prynwyr' a 'gwerthwyr' llafur (Green 2003). Fel yr awgryma Green (2003), nod polisi marchnad lafur yw hwyluso 'cydweddu galw a chyflenwad'. Fodd bynnag, yn ymarferol, caiff y dasg hon ei chymhlethu gan ystod eang o ffactorau – ac yn enwedig gan natur cyfnewidiau marchnadoedd llafur sy'n amrywio yn ôl cyd-destun. Yn wir, fel yr eglura Green (2003:9):

> "…mae'r farchnad lafur yn gyfuniad o is-farchnadoedd sydd wedi'u diffinio yn ôl diwydiant, galwedigaeth ac ardal ddaearyddol; felly, i ryw raddau, mae marchnadoedd llafur yn cael eu 'balcaneiddio'".

Un o sgileffeithiau uniongyrchol y 'balcaneiddio' hwn yw'r angen i gynnig cefnogaeth i farchnadoedd llafur mewn modd sy'n hwyluso daearyddiaethau lleol, yn hytrach na chyfyngu arnynt. Wrth gwrs, dim ond drwy gydnabod bod marchnadoedd llafur – yn enwedig y rhai sydd mewn cyd-destun gwledig –yn amrywio'n eang, y gellir diwallu anghenion pob un ohonynt.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfres o newidiadau strwythurol wedi ail-bwysleisio rôl busnesau anamaethyddol wrth gynnal y gymdeithas wledig ac economi cefn gwlad. Er y bu 'datganoli poblogaeth a chyflogaeth o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig' (Green 2003:6-7) yn raddol ar y naill law, ar yr un pryd â hyn bu tuedd amlwg i symud oddi wrth sectorau cynradd fel amaethyddiaeth, pysgodfeydd a mwynau. Yn hytrach, telir mwy o sylw i bwysigrwydd potensial 'menter cefn gwlad' wrth gyfrannu at 'economïau cefn gwlad llewyrchus a chynaliadwy' (Raley a Moxey 2000:2). Yn wir, fel y dadleua North a Smallbone (2000a:90):

> "Ystyrir fwyfwy bod SMEau yn chwarae rhan ganolog yn natblygiad economaidd ardaloedd gwledig yn y dyfodol. Wrth i gyflogaeth mewn amaethyddiaeth a diwydiannau traddodiadol eraill cefn gwlad ddirywio, mae adnabod ac annog ffynonellau swyddi newydd i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig wedi dod yn brif flaenoriaeth mewn datblygu cefn gwlad, sydd wedi dod yn fater o fyrder o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth mewn llawer o ardaloedd gwledig."

Er mwyn cydamseru cydweddu cyflenwad llafur a galw am lafur yng nghyd-destun newidiadau cymdeithasol-economaidd mor sylweddol, mae angen gweithio'n integredig. Mae'n rhaid i waith o'r fath allu ystyried yr amrywiaeth mewn marchnadoedd llafur cefn gwlad unigol yn eu cyd-destunau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol ehangach.

### *2.1.2 Mabwysiadu Dull Integredig o Weithio*

Drwy feithrin dull integredig o weithio i ddelio â chymhlethdodau marchnadoedd llafur cefn gwlad, cydnabyddir yn awtomatig y ffaith 'y caiff gwasgeddau, gweithrediadau ac atebion gwledig eu hymgorffori yn y rhwydwaith ehangach o sectorau, gweithredwyr a gofodau', ac felly bod angen yn aml 'i weithio ar draws yr hyn a allai fod yn ffiniau sectorol a swyddogaethol mympwyol' (AWC 2004b: 53). Oherwydd hyn y mae angen i unrhyw adolygiad o bolisïau cyfredol a gwybodaeth am gymhlethdodau marchnadoedd llafur cefn gwlad gychwyn gyda dull o weithio sy'n 'gorgyffwrdd'. Er enghraifft, fel y noda Green (2003:1), er mwyn deall marchnadoedd llafur cefn gwlad, mae angen deall materion sy'n cynnwys:

- allgau cymdeithasol
- economïau cefn gwlad
- rôl SMEau mewn ardaloedd gwledig
- demograffeg

Gellir ychwanegu at y rhestr hon, ac mae hynny'n cynnwys rôl:

- cyfalaf cymdeithasol a rhwydweithio
- yr eco-economi
- ymgorffori yng nghefn gwlad
- tai
- cludiant
- addysg

Elfen bwysig o'r amrywiaeth mewn marchnadoedd llafur cefn gwlad yw y cânt oll eu nodweddu gan wahaniaethau o ran cyfraddau cyflogaeth, diweithdra ac anactifedd, a strwythurau diwydiannol a galwedigaethol (Green 2003:14-15). Ar yr un pryd, o fewn unrhyw farchnad lafur unigol, gellir dod o hyd i wahaniaethau yn faint o bwyslais y mae cwmnïau unigol yn ei roi ar ddulliau recriwtio/cyflogi ffurfiol ac anffurfiol, ac arferion gwaith hyblyg ac anhyblyg. Mae'r materion hyn, o'u hystyried ochr yn ochr â dewisiadau o ran ffordd o fyw, megis dymunoldeb twf busnesau, yn dylanwadu ar ddynameg marchnad lafur. Er enghraifft, ystyrier cyflogaeth 'hyblyg'. Mae'n astudiaeth ddiweddar o farchnadoedd llafur canolbarth Cymru, sylwa Huggins (2001: 21-2):

> "Er bod 'swyddi hyblyg' wedi cadw cyfraddau diweithdra yng nghanolbarth Cymru'n gymharol isel, nid ydynt yn aml wedi arwain at waith amser llawn parhaol, ac effaith hynny yw bod incwm teuluoedd wedi dioddef. Mae problemau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith hyblyg yn cynnwys diffyg cyfleoedd i symud tuag i fyny mewn swyddi, yn enwedig ymysg y rhai sydd wedi cymryd swyddi sydd islaw eu lefelau sgiliau blaenorol."

Mewn cyferbyniad â hyn, mae achos penodol cwmnïau teuluol bychain yn cyflwyno sialensiau ychydig yn wahanol o ran galw a chyflenwad. Mae nodau datblygu busnes yn dueddol o fod yn gysylltiedig â chylched bywyd y teulu yn yr achos hwn (er enghraifft, ehangu'r busnes i gyflogi aelod arall o'r teulu), ond serch hynny:

> "Gall cwmnïau teuluoedd, drwy barodrwydd aelodau o'r teulu i dderbyn enillion is na'r hyn sy'n fasnachol am eu cyfalaf a'u llafur, ac oherwydd eu bod yn weithlu hyblyg, fod mewn sefyllfa well i feddu ar fath penodol o fantais gystadleuol." (Raley a Moxey 2000: 4)

Fodd bynnag, mae Raley a Moxey (2000:4) yn dadlau ymhellach y gall:

> "… cysylltiadau teuluol lesteirio datblygiad masnachol y busnes hefyd, os bydd ystyriaethau teuluol yn dylanwadu ar benderfyniadau busnes".

### *2.1.3 Cefnogaeth Sefydliadol*

Mae'r ffactorau amrywiol sy'n gyfrwng i gyfnewid llafur o fewn unrhyw gymdogaeth wledig unigol yn cynnwys mecanweithiau cysylltiedig niferus cefnogaeth sefydliadol. Er bod Haughton (1992:29) yn nodi mai hyfforddiant y tu allan i'r gwaith 'yw'r dimensiwn pwysicaf yn ddi-os', mae ffynonellau cefnogaeth eraill yn cynnwys canolfannau gwaith, awdurdodau lleol, asiantaethau datblygu, canolfannau cynghori'r di-waith, siambrau masnach, asiantaethau cefnogi cwmnïau bychain, sefydliadau sectoraidd lleol a grwpiau cymunedol. O ystyried y symudiad diweddar tuag at gysylltu mentrau cefnogi busnesau ag agendâu allgau cymdeithasol a datblygu cynaliadwy (Lowe a Talbot 2000), nid oes rheswm i awgrymu na fydd y casgliad hwn o sefydliadau'n parhau i ehangu yn y dyfodol. Er y gallai pob un ohonynt ddefnyddio dull gwahanol o gefnogi anghenion naill ai'r gweithiwr (potensial) neu'r cyflogwr, yn y pen draw maent i gyd yn gweithio tuag at yr un nod - cydweddu galw a chyflenwad. Er gwaethaf y tebygrwydd hwn o ran diben, cyfeiria Haughton (1992:29) at rai pryderon:

> "Yn fwyfwy, mae pryderon wedi codi am y ffordd mae'r gwahanol elfennau'n berthnasol i'w gilydd, sut mae eu gweithgareddau'n ategu'i gilydd, lle maent yn gorgyffwrdd, a sut mae asiantaethau'n rhwydweithio cleientiaid".

### *2.1.4 Crynodeb: Mynd i'r Afael â'r Bwlch mewn Gwybodaeth*

Mae'r drafodaeth flaenorol yn awgrymu:

> "Yn hytrach nag un farchnad, mae'n cynnwys set gymhleth o is-farchnadoedd sy'n gorgyffwrdd ac yn rhyngberthynol, lle mae pob un is-farchnad yn gwahaniaethu cyflogaeth yn ôl galwedigaeth, rhyw, grwp ethnig, oedran a nodweddion personol eraill, ac yn ôl cymdogaeth." (Hasluck a Duffy 2004: 4)

Oherwydd y rhaniadau a'r amrywiadau mewnol hyn o fewn unrhyw farchnad lafur unigol, mae hefyd yn wir na fydd y ffiniau rhwng marchnadoedd llafur o anghenraid yn aros yn gyson i bob grwp o weithredwyr. Yn wir, fel y dyweda Hasluck a Duffy (2004: 4):

> "nid yw'r ffiniau [hyn] yn unigryw am byth nac ychwaith i bawb".

Yn amlwg, mae sefyllfa o'r fath yn codi toreth o gwestiynau ar gyfer y rhaglen ymchwil, wrth geisio deall dynameg marchnadoedd llafur yng nghefn gwlad Cymru. Efallai mai'r man cychwyn amlycaf o ran cynllun yr ymchwil yw'r angen i ganolbwyntio ar farchnadoedd llafur gyda'i gilydd ar yr un pryd ag ar eu helfennau unigol. Wrth geisio cyrraedd y nod hwn, mae gweddill yr Adran hon yn cynnig trosolwg o'r farn gyfredol am y prosesau a'r arferion sydd ar waith mewn marchnadoedd llafur ffurfiol ac anffurfiol yng nghefn gwlad, a'u heffeithiau cymdeithasol-economaidd ehangach ar y gymdeithas wledig. Mae rôl sefydliadau cefnogi ac effeithiau polisi cyhoeddus ar farchnadoedd llafur yn ffactorau pwysig a ystyrir yma.

## 2.2 Deall sut y caiff marchnadoedd llafur lleol eu ffurfio

Un o wendidau ymchwil i farchnadoedd llafur cefn gwlad ar hyn o bryd, yw'r diffyg gwybodaeth am elfennau mwy anffurfiol llif ac arferion marchnadoedd llafur (gweler Green 2003). Natur leol ac anffurfiol yn aml llawer o'r cyfathrebiadau o fewn marchnadoedd llafur (er enghraifft, strategaethau chwilio am waith a/neu recriwtio gweithwyr) sy'n chwarae rôl allweddol mewn pennu pa mor unigryw yw cyfluniadau marchnadoedd llafur lleol, 'a dynameg dyraniad marchnadoedd llafur' (Haughton 1992). Yn ogystal, yn yr un modd ag y mae strategaethau anffurfiol yn gweithio i ail-gadarnhau natur marchnadoedd llafur lleol sy'n amrywio yn ôl cyd-destun, mae'r gwahanol fodelau o'r hyn y mae marchnad lafur ei hun yn ei gynnwys hefyd yn gwneud hynny:

> "… mae gwahanol fodelau o'r farchnad lafur leol a ddefnyddir gan unigolion, cyflogwyr ac amryw sefydliadau marchnadoedd llafur yn ganolbwynt gynradd i waith ymchwil o'u hanfod." (Haughton 1992: 39)

Mae deall nodweddion cyflogaeth cefn gwlad, a'r cyfleoedd y mae'n eu creu, yn dueddol o ddibynnu ar fylchau mewn gwybodaeth wrth bennu lefelau anffurfioldeb, ac ar ganfyddiadau goddrychol o ffiniau marchnadoedd llafur. Er enghraifft, ar ôl darganfod cryn dipyn o 'economi ddu' a gweithgaredd gwirfoddol wedi'i ymgorffori yng nghanolbarth Cymru, awgrymodd Huggins (2001:31):

> "…er yr ystyrir gweithwyr gwirfoddol ac economi ddu yn 'anweithgar' yn swyddogol, maent mewn gwirionedd yn gwneud cyfraniad sylweddol, ond hefyd anweledig i economi canolbarth Cymru."

Felly, er y gellir dadlau bod yr agweddau hyn ar farchnad lafur cefn gwlad yn allweddol i gynaliadwyedd cymdeithasol-economaidd ehangach cymunedau gwledig, cânt eu tangynrychioli yn aml mewn rhaglenni ymchwil safonol, yn bennaf oherwydd eu bod yn anodd eu mesur yn wrthrychol.

Mae tanysgrifennu sectorau anffurfiol o gyflogaeth yn set o ddulliau recriwtio sydd yr un mor 'achlysurol'. Ond, yn arwyddocaol yng nghyd-destun marchnadoedd llafur cefn gwlad, yw'r duedd i arferion recriwtio anffurfiol gael eu defnyddio yn yr un modd ar gyfer swyddi ffurfiol ac anffurfiol. O safbwynt y gweithiwr (potensial), yn enwedig yn achos pobl ifanc, er enghraifft:

> "Gall meddwl cyfyngedig am gyfleoedd am swyddi fod yn un o'r ffactorau sy'n cyfyngu ar ddewis o ran swyddi i bobl ifanc pan fyddant yn cychwyn yn y farchnad lafur am y tro cyntaf; mae eu profiad personol o weithio yn gyfyng ac mae'n ddigon posibl bod eu gwybodaeth am y farchnad lafur yn dibynnu'n fawr ar brofiad eu rhieni, eu hathrawon a'u ffrindiau. Yn yr un modd, mae'n bosibl fod cyfyngiadau daearyddol i faint o wybodaeth am y farchnad lafur y gellir ei dysgu." (Hasluck a Duffy 1992:5)

Yn ogystal, awgryma Hasluck a Duffy (1992:5) mai:

> "Y ffynhonnell wybodaeth fwyaf cyffredin am swyddi a chyflogwyr yw perthnasau a ffrindiau a ffynonellau gwybodaeth tebyg".

Wrth sôn am wybod lle i chwilio am weithwyr priodol, gellir priodoli'r defnydd hwn o ffynonellau gwybodaeth rhwydweithiau 'cyffredin' i gronfa wybodaeth cyflogwyr gyda'r un faint o

sicrwydd. Ond yr hyn a gaiff ei daflu i'r pair yma hefyd yw derbynioldeb tybiedig o gefndir gweithiwr potensial. Yn aml, mae gwybodaeth o'r fath yn fwyaf hygyrch i'r cyflogwyr hynny sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn eu cymdogaethau gwledig. Gan droi eto at Hasluck a Duffy (1992:5):

> "… mae rhai rhwystrau mewn marchnadoedd llafur sy'n benodol yn lleol eu cyfansoddiad, er enghraifft gwahaniaethu ar sail cyfeiriad, drwy gyflogwyr yn osgoi recriwtio o rai cymdogaethau 'trafferthus' neu drwy ddarparwyr gwasanaeth yn cynnig eu gwasanaeth mewn rhai ardaloedd yn unig…"

O ystyried y gall recriwtio staff sydd â'r sgiliau priodol yn ddigon posibl fod yn anhawster mewn marchnadoedd llafur cefn gwlad, fel y dadleua Raley a Moxey (2000), daw manteision gwybodaeth leol yn eglur. Daw'n amlwg yma hefyd y manteision a all gronni i weithwyr ac i gyflogwyr yr un fath, os ydynt eisoes wedi'u hymgorffori yn eu rhwydweithiau cymunedol lleol. Yn ddiddorol ddigon, yn achos cwmnïau bychain cefn gwlad, mae gan recriwtio personél lleol y potensial hefyd i gyflawni cylchred twf buddiol mewn modd a all oresgyn yr agweddau negyddol traddodiadol a gysylltir â lleoliadau yng nghefn gwlad. Er enghraifft, fel y dadleua Lowe a Talbot (2000), drwy recriwtio'n lleol, gall busnesau cefn gwlad ddefnyddio gwybodaeth leol, ac felly gallant (ail)ehangu ar eu hymgorffori yn y gymuned.

> "Mae rhwydweithiau cymdeithasol sy'n hybu ymddiriedaeth o'r naill ochr a'r llall ac yn hwyluso cydweithredu ymysg pobl fusnes a rheolwyr yn bwysig er mwyn i farchnadoedd weithredu'n effeithlon (Porter 1990; Shaw 1997; Woolcock 1998). Mae cwmnïau bychain yn dueddol o fod wedi'u hymgorffori yn llawer mwy yn gymdeithasol na chwmnïau mwy. Mae llawer yn defnyddio adnoddau lleol i ddiwallu anghenion lleol. Gall hyn achosi i'r gymuned uniaethu â pherfformiad y busnes a meithrin ymlyniad y busnes â'r ardal leol (Segal Quince Wicksteed 1998)." (Lowe a Talbot 2000: 480)

## 2.3 Cynllunio ar gyfer Economi Sgiliau a'r 'cydbwysedd sgiliau isel'

Mae Raley a Moxey (2000) yn nodi bod 'mwy o hyblygrwydd swyddogaethol (darnodiad is) wrth ddefnyddio gweithwyr' yn nodwedd fanteisiol ar weithluoedd cefn gwlad. Serch hynny, er bod manteision clir yn gysylltiedig â sgiliau amrywiol, yn achos ardaloedd gwledig, mae'n amlwg y gellir cysylltu'r nodwedd hon yr un mor rhwydd â 'chyflogaeth achlysurol a chyflogau isel' (Green 2003). Mae'n bosibl i'r agwedd hon ar amrywiaeth mewn sgiliau lesteirio cyfleoedd am droell twf economaidd fuddiol; mae'n dangos ei hun mewn ardaloedd gwledig drwy gynnydd yn y galw am weithwyr â sgiliau isel:

> "…gall ardaloedd gwledig fod mewn perygl penodol oherwydd dyfodiad 'cydbwysedd sgiliau isel'… ar y cyfan, mae cyflogwyr yn cystadlu mewn marchnadoedd sy'n ychwanegu gwerth isel, ac o'r herwydd yn gofyn lefelau sgiliau cymharol isel gan eu gweithwyr, a gaiff ei adlewyrchu yng nghyflenwad sgiliau yn y pen draw" (Green 2003:7)

Y drafferth yma yw, wrth i lai a llai o swyddi â sgiliau uchel fod ar gael ym marchnadoedd llafur cefn gwlad, felly hefyd mae cyflenwad potensial gweithlu medrus yn gostwng. Fel yr awgryma Green (2003:8):

> “Mae llawer o’r rhai sy’n gymwys iawn yn dewis dilyn eu gyrfaoedd mewn ardaloedd trefol mawr, lle mae’r cyfleoedd dyrchafu’n dueddol o fod yn well.”

Yn ogystal, mae Green yn dadlau, yn absenoldeb cyfleoedd am waith â sgiliau uchel, mae ardaloedd gwledig yn debygol o fod hyd yn oed yn llai deniadol i gartrefi ‘dwy yrfa’. Felly, mae dwy effaith dybiedig mewn economïau cefn gwlad y mae potensial iddynt adweithio’n negyddol. Yn gyntaf, mae troell ar i lawr sy’n gysylltiedig â’r ‘cydbwysedd sgiliau isel’. Yn ail, mae effaith draenio mewn ardaloedd gwledig lle mae’r galw’n isel.

Diffyg arall sy’n gysylltiedig â ffenomen y ‘cydbwysedd sgiliau isel’ yw’r sefyllfa lle bydd cyflogwyr un ai ddim yn gallu, neu ddim yn fodlon cyfiawnhau cost gwella’r ddarpariaeth hyfforddiant i’w gweithwyr cyfredol. Er y gellid dadlau yn y byrdymor nad oes angen unrhyw hyfforddiant ychwanegol er mwyn i gwmni barhau i weithredu’n effeithlon, mae’n annhebygol y bydd y safbwynt hwn yn parhau’n ymarferol yn y tymor hwy. Er enghraifft, mewn astudiaeth o’r berthynas rhwng yr economi sgiliau a chynhyrchiant cwmnïau yng nghanolbarth Cymru, mae Huggins (2001:24) yn dadlau bod ffactorau megis cyflogaeth ran-amser helaeth, buddsoddi cyfalaf isel a phrinder hyfforddiant gan gyflogwyr oll yn arwain at gynnal troell dirywiad negyddol. Yn ei dro, roedd cynhyrchiant isel cwmnïau a oedd yn ganlyniad i hyn yn gymhelliant yn erbyn arloesedd, mentergarwch ac uwchraddio technolegol yn y dyfodol. Gyda’i gilydd, mae’r effeithiau negyddol a drafodir yma yn tueddu tuag at ddatblygu economi sgiliau isel, hyfforddiant isel a chyflogau isel sy’n seiliedig ar hyblygrwydd swyddogaethol.

I wrthwneud y tueddiadau economaidd negyddol hyn, mae Huggins yn ategu pwysigrwydd defnyddio dull o weithio llawer mwy blaengar yn seiliedig ar yr ‘ymagwedd economi sgiliau’:

> “Mae gweithio ar sail yr economi sgiliau yn ymgorffori’r modd y mae disgwyliadau cyflogwyr, gweithwyr a’r sawl sydd y tu allan i’r gweithlu yn dylanwadu ar y sylfaen sgiliau bresennol a photensial rhanbarth. Mae ffordd o weithio o’r fath yn wahanol i astudiaethau traddodiadol i’r farchnad lafur, oherwydd ei fod yn canolbwyntio’n fwy ar agweddau hirdymor ac yn seiliedig ar ddiffygion a bylchau mewn sgiliau, yn hytrach nag ar brinderau yn unig.” (Huggins 2001: 19)

Fodd bynnag, er mwyn i ddull o weithio ar sail economi sgiliau fod yn ymarferol, mae’n rhaid i’r ddwy ochr o’r farchnad lafur fod yn barod i wneud newidiadau hanfodol. Er enghraifft, ar yr un pryd ag annog mwy o fuddsoddiad mewn hyfforddiant sgiliau, mae’n rhaid cydnabod hefyd nad ar gyflogwyr yn unig y mae’r bai o anghenraid am y duedd gyfredol i niferoedd bychain gymryd hyfforddiant. Yn wir, yn aml iawn y gweithwyr hynny y mae angen portffolio sgiliau ehangach arnynt fwyaf sydd leiaf parod i dderbyn yr her.

Yn yr un modd, hyd yn oed yn achos yr unigolion hynny sydd mewn cyflogaeth eisoes:

> “Mae’r rhai sydd heb unrhyw gymwysterau ffurfiol yn llai tebygol o fod eisiau cymryd rhan mewn hyfforddiant, o’u cymharu â’r rhai a chanddynt gymwysterau gwell” (Huggins 2001: 29)

Gan dderbyn y safbwynt hirdymor sy’n rhan o ddull o weithio ar sail economi sgiliau, mae Huggins (2001) yn ategu rôl y system addysg yn llif y farchnad lafur i fynd i’r afael â, ac i rwystro’r problemau sy’n gysylltiedig â chydbwyseddau sgiliau isel:

> “… mae’n glir y dylai’r rhan fwyaf o’r cyfrifoldeb am ddatblygu sgiliau sylfaenol a chyffredinol fod ar y system addysg ar lefel yr ysgol… …dylai gofyniad sylweddol o

ran polisi'r DU yn y dyfodol gynnwys datblygu'r sgiliau hyn fel rhan o'r cwricwlwm cyffredin, ochr yn ochr â chymwysterau academaidd traddodiadol, a dylid eu hasesu ar yr un lefel ag a ddefnyddir ar gyfer cyflawniad mewn pynciau traddodiadol". (Huggins 2001: 33)

Mae sylwadau Huggins am rôl addysg mewn marchnadoedd llafur yn debyg i sylwadau Green (2003:5), sydd, wrth ymdrin â phroblemau 'anghydweddu' rhwng galw a chyflenwad, yn cyfeirio at bwysigrwydd sicrhau y cedwir cydbwysedd effeithiol o fewn y cwricwlwm rhwng datblygu sgiliau addysgol 'academaidd' a 'galwedigaethol'. Yn ogystal, mae Green yn ategu'r angen am 'roi mwy o bwyslais i'r ail o'r ddau fath hwn o sgiliau'.

Mae North a Smallbone (2000a) yn nodi symbyliad arall, mwy cadarnhaol, i oresgyn anghydweddu rhwng galw a chyflenwad, ac maent yn cyfeirio at y 'cysylltiadau sy'n atgyfnerthu ei gilydd' rhwng cyfleoedd i greu gwaith a lefel y gweithgarwch arloesol mewn Busnesau Bach a Chanolig eu Maint [SME]. Fodd bynnag, mae North a Smallbone yn dadlau bod cynaliadwyedd economaidd yn parhau i fod yn ddibynnol ar gyflogwyr arloesol a hefyd ar bolisi a strategaethau busnes a arweinir gan arloesedd:

> "O ystyried y berthynas amlwg y mae'r astudiaeth wedi'i hamlygu rhwng lefel y gweithgarwch arloesol mewn SMEau a'u tuedd i dyfu a chreu swyddi, gall cryfder economïau cefn gwlad yn y dyfodol ddibynnu i raddau ar allu symbylu gweithgarwch busnesau bychain yn y sectorau mwy arloesol hyn. Fodd bynnag, ar yr un pryd, oherwydd anawsterau denu cwmnïau yn y sectorau hyn i leoliadau gwledig anghysbell, mae hefyd yn cyfiawnhau strategaeth a arweinir gan arloesedd i gefnogi busnesau ac ar gyfer datblygiad economaidd, a roddir ar waith ym mhob sector o fewn ardaloedd gwledig anghysbell a rhanbarthau araf deg yn gyffredinol." (North a Smallbone 2000b: 155)

Yn gryno, er mwyn i lif galw a chyflenwad llafur barhau i gyfrannu at dwf ehangach yr economi, ymddengys yn hanfodol bod yn rhaid rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i rôl - byrdymor a hirdymor - datblygu sgiliau. Serch hynny, yr anhawster go iawn yw nad dim ond marchnadoedd llafur cefn gwlad yn profi prinder, gormodedd neu anghydweddu mewn sgiliau allweddol ymysg gweithwyr yw'r broblem, ond yn hytrach, cyfuniad o'r tri.

## 2.4 Anawsterau Recriwtio yng Nghefn Gwlad

Fel y gwelwyd eisoes, gall gallu cyflogwyr i dreiddio i adnoddau lleol o wybodaeth ymgorffori chwarae rhan bwysig mewn dylanwadu ar strategaeth recriwtio busnesau. Fodd bynnag, mae cyd-destun gwledig penodol y farchnad lafur yn golygu bod amryw drafferthion eraill o ran recriwtio yn aml y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, gall rhwystrau eraill o'r 'ochr gyflenwi' gynnwys hygyrchedd cludiant (gyhoeddus neu breifat) a / neu wasanaethau gofal plant (Campbell 1992). Mae'n debygol y gallai cyfleoedd am swyddi i bobl broffesiynol medrus iawn wrthbwyso unrhyw aberth angenrheidiol sy'n gysylltiedig â chymudo, ond ni fydd hyn mor wir wrth geisio denu ymgeiswyr am swyddi rhan-amser, â chyflogau isel a / neu sgiliau isel. Mae agwedd negyddol aml cyflogwyr tuag at gymudo yng nghefn gwlad yn gwaethygu'r sefyllfa hon o safbwynt y gweithiwr. Fel y mae Green (2003:10) yn dadlau, o fewn marchnadoedd llafur cefn gwlad mae 'problemau anghydweddu gofodol' yn debygol o fod yn arbennig o ddifrifol i'r rhai sydd heb fynediad da at gludiant'.

Mae pwynt pwysig yma, sef mai'r mathau hyn o rwystrau ychwanegol o ochr cyflenwad sydd, yn eu tro, yn cael effaith negyddol ar ffyniant yr economi sgiliau cefn gwlad. Mae potensial iddynt gaethiwo canran uchel o'r gweithlu i farchnadoedd llafur bychain a distadl: ac ar yr un pryd, maent yn gorfodi'r unigolion hynny nad ydynt yn barod i dderbyn cyfleoedd am waith gwael neu gyfyngedig i ystyried ail-leoli y tu allan i gefn gwlad Cymru. Nid yw senario o'r fath yn fanteisiol i'r gweithiwr nac i'r cyflogwr yng nghefn gwlad.

Er enghraifft, mae Green (2003:10) yn dadlau:

> "Er y gall fod yn gymharol rhwydd dod o hyd i waith a chychwyn gwaith mewn llawer o ardaloedd gwledig, efallai bod y cyfleoedd dyrchafu/gyrfa yn gymharol wael."

O safbwynt cyflogwr, darganfu Raley a Moxey (2000:83) fod:

> "Problemau marchnad lafur gyfyngedig yn effeithio ar 12 % o gwmnïau sy'n anelu at dwf, a gwynodd am brinder llafur addas".

Yn y tymor byr, bydd y problemau hyn rhwng galw a chyflenwad yn arwain at sefyllfa niweidiol y bydd y gweithiwr a'r cyflogwr yn anfodlon â hi. Ond, o safbwynt hirdymor, daw'r traweffaith llawn ar yr economi wledig yn gwbl amlwg; mae Campbell (1992:187-8) yn dadlau, wrth i'r sylfaen sgiliau leol gael ei diraddio, bydd lefelau incwm lleol yn cwympo hefyd:

> "… efallai y caiff buddsoddwyr mewnol potensial eu hatal; efallai y cyfyngir ar gyflogwyr lleol presennol yn eu cynlluniau i ehangu, neu'n waeth, efallai y cânt eu hannog i adael yr ardal hyd yn oed; efallai y cyflogir llafur nad yw'n lleol; bydd y bwlch rhwng grwpiau cymdeithasol ac ardaloedd daearyddol o fewn cymdogaeth yn ehangu; ac efallai y cyfyngir ar wasanaethau cyhoeddus wrth i broblemau cymdeithasol a gysylltir â diweithdra, megis trosedd, ynysu cymdeithasol, iechyd gwael a thlodi yn tyfu." (Campbell 1992:187-8)

Yn wir, y traweffeithiau ehangach a achosir gan wendidau ac aneffeithlonrwydd yn llif ac arferion y farchnad lafur sy'n gwneud yr angen i hyrwyddo troell twf sy'n atgyfnerthu'i hun rhwng gweithwyr, cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau cefnogol, yn hanfodol. Er mwyn hwyluso hyn, y man cychwyn amlwg yw gwybodaeth ymarferol gadarn o'r modd y mae'r holl ffactorau a drafodwyd hyd yma yn dylanwadu ar (a/neu'n cyfyngu ar) batrymau penderfyniadau gwahanol weithredwyr yng nghyd-destun penodol eu marchnadoedd llafur eu hunain: yn yr achos hwn, marchnadoedd llafur cefn gwlad Cymru.

## 2.5 Crynodeb

Yr hyn a ddaw'n amlwg o'r drafodaeth uchod yw'r angen i gydnabod ar yr un pryd y rôl a chwaraeir gan yr holl setiau potensial o weithredwyr wrth strwythuro'r farchnad lafur cefn gwlad. Felly, er bod yr ymchwil hwn yn parhau i ganolbwyntio ar effaith adweithiau'r farchnad lafur ar gynaliadwyedd busnesau, mae'n bwysig i farn a phrofiadau perchenogion busnesau barhau i gael eu hystyried o ran patrymau cymdeithasol-economaidd ehangach newid yn y llafurlu.


Mae'r adolygiad uchod o'r llenyddiaeth yn awgrymu bod modd gwahaniaethu rhwng y problemau hynny sy'n ymwneud â gweithwyr (ochr cyflenwi) a'r problemau sy'n fwy cysylltiedig naill ai â'r cyflogwr neu â darparwyr cefnogaeth fusnes allanol (ochr galw). Fodd bynnag, y gwir her yw deall y ffordd y mae'r problemau hyn yn adweithio mewn modd sy'n achosi iddynt barhau eu hunain,

ac yn y pen draw datblygu sylfaen o bolisïau a lywir gan dystiolaeth i fynd i'r afael â'r droell dirywiad potensial hon.

Mae Ffigur 2.1 ar y dudalen nesaf yn crynhoi llawer o'r consensws yn y llenyddiaeth academaidd, sy'n awgrymu perthnasoedd rhwng busnesau sy'n ychwanegu gwerth isel (ac a arweinir gan alw), sgiliau a chyflogau isel , a 'hyblygrwydd swyddogaethol' gweithwyr.

Ffigur 2.1

Troell dirywaid a'r cydbwysedd sgiliau isel' yng nghefn gwlad Cymru



## Adran 3: Cymru a Natur Achos-Benodol Marchnadoedd Llafur Cefn Gwlad

### 3.1 Cyflwyniad: amlinelliad o economi gyflogaeth cefn gwlad Cymru

Mae'r cyflwyniad hwn yn gosod cyd-destun yr astudiaeth o farchnadoedd llafur cefn gwlad yng Nghymru drwy amlinellu nodweddion ehangach economi cyflogaeth cefn gwlad Cymru. Yn gyntaf, trafodir y strwythur galwedigaethol. Yn ail, trafodir nodweddion y cyflenwad llafur. Yn drydydd, darperir trosolwg o incwm cartrefi yn ôl awdurdod lleol. Yn bedwerydd, gwneir rhai sylwadau am iechyd y sector busnes yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r dadansoddiad hwn yn tynnu'n bennaf ar adroddiad ar gyfer Is-adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru (Milbourne et al., 2005).

Cyflwynir data ar gyfer strwythur galwedigaethol yng nghefn gwlad Cymru yn Nhabl 3.1.1 ar y dudalen nesaf. Mae'r data hwn yn cynnig cipolwg sy'n awgrymu economi sy'n trawsnewid ar y cyfan o fod yn ddibynnol ar amaethyddiaeth a diwydiannau cynradd fel mwyngloddio a chwareli, i'r diwydiant gwasanaeth. Er enghraifft, roedd amaethyddiaeth yn cyfrif am 5.8% o swyddi yn unig. Mae'r sector gwasanaeth bellach yn dominyddu'r strwythur galwedigaethol, ac roedd yn cyfrif am 68.8% o swyddi, gan gynnwys y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a gymharai â ffigur o 65% ar gyfer Cymru gyfan. Gweithgynhyrchu oedd yr ail sector cyflogaeth mwyaf sylweddol gyda 12.3%, ac roedd adeiladu'n drydydd gyda 7.9% o swyddi. Yn y sector gwasanaeth, y cyflogwyr pwysicaf o ran cyfran oedd adwerthu (16.7%) a'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol (13.7%). Gyda'i gilydd, roedd y galwedigaethau yn y sector cyhoeddus, sef y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, gweinyddiaeth gyhoeddus ac addysg, yn cyfrif am 28.9% o'r holl gyflogaeth. Roedd dosbarthiad y sectorau galwedigaethol ar draws cefn gwlad Cymru yn debyg i'r ffigurau cenedlaethol, ac eithrio amaethyddiaeth (lle'r oedd cefn gwlad Cymru'n uwch) a gweithgynhyrchu (lle'r oedd cefn gwlad Cymru'n is). O ran gofod, roedd gwahaniaethau sylweddol. Er enghraifft, roedd amaethyddiaeth yn uwch ym Mhowys (10.7%) nag yng Nghonwy (3.2%); roedd gweithgynhyrchu'n uwch yn ardaloedd dwyreiniol Sir Fynwy (15.6%), Powys (14.4%) a Sir Ddinbych (14.0%) nag yng Ngwynedd (9.5%) a Cheredigion (7.8%); ac yng Ngheredigion roedd y gyfran uchaf yn y sector addysg (12.4%). Roedd cyfrannau dosbarthiad galwedigaethol y sector cyhoeddus (y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, gweinyddiaeth gyhoeddus ac addysg), a fesurwyd ar draws yr awdurdodau lleol, mewn amrediad cymharol fach: roedd Sir Gaerfyrddin (31.6%), Ceredigion (30.4%) ac Ynys Môn (30.2%) ar y pen uchaf; Conwy (29.3%), Sir Ddinbych (29.9%) a Gwynedd (29.6%) yn y canol; a Sir Fynwy (26.7%), Sir Benfro (27.1%) a Phowys (25.7%) â'r gyfran isaf o weithwyr yn y sector cyhoeddus.

**Tabl 4.11: Canran y boblogaeth mewn mathau o alwedigaethau yn 2001 yn ôl preswyliad arferol mewn awdurdod unedol**

| Awdurdod unedol | Categori | Amaeth | Pysgota | Mwyn | Gwei | Cyfleus | Adeil | Ad-werth | Gwestai & Arlwyo | Logist | Cyllid | Tir a thai | Gwein Gyh | Add | Gwas Iechyd a Chymd | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | **Gwledig** | 5.4 | 0.0 | 0.5 | 13.6 | 0.7 | 7.5 | 17.3 | 4.8 | 5.3 | 2.3 | 6.5 | 8.4 | 8.5 | 14.7 | 4.4 |
| Ceredigion | | 8.5 | 0.1 | 0.4 | 7.8 | 0.5 | 7.9 | 16.8 | 7.9 | 4.3 | 1.5 | 8.0 | 6.2 | 12.4 | 11.8 | 6.0 |
| Conwy | | 3.2 | 0.0 | 0.4 | 9.8 | 0.8 | 8.0 | 18.5 | 9.5 | 4.9 | 2.3 | 8.1 | 5.6 | 7.9 | 15.8 | 5.0 |
| Sir Ddinbych | | 3.5 | 0.1 | 0.2 | 14.0 | 0.9 | 7.8 | 16.4 | 6.5 | 4.8 | 2.2 | 8.2 | 5.2 | 7.6 | 17.1 | 5.5 |
| Gwynedd | | 4.7 | 0.1 | 0.6 | 9.5 | 1.6 | 8.5 | 16.0 | 9.3 | 4.9 | 1.6 | 6.8 | 6.0 | 10.1 | 13.5 | 6.8 |
| Ynys Môn | | 4.0 | 0.2 | 0.5 | 13.7 | 2.7 | 8.4 | 14.9 | 5.9 | 6.3 | 1.7 | 7.2 | 7.6 | 9.4 | 13.2 | 4.4 |
| Sir Fynwy | | 3.9 | 0.0 | 0.2 | 15.6 | 0.4 | 6.1 | 16.9 | 5.2 | 6.6 | 3.2 | 10.6 | 5.6 | 8.5 | 12.6 | 4.5 |
| Sir Benfro | | 6.6 | 0.2 | 0.4 | 10.8 | 0.7 | 8.9 | 17.4 | 7.5 | 6.0 | 1.6 | 7.0 | 7.2 | 7.9 | 12.0 | 5.7 |
| Powys | | 10.7 | 0.0 | 0.4 | 14.4 | 0.7 | 8.0 | 15.7 | 5.7 | 4.3 | 1.5 | 8.3 | 5.9 | 7.9 | 11.9 | 4.6 |
| **Arall** [4] | | 1.5 | 0.0 | 0.3 | 21.7 | 1.2 | 6.4 | 16.2 | 4.7 | 5.6 | 4.0 | 9.2 | 6.1 | 7.2 | 11.5 | 4.3 |
| **Gwledig** | | 5.8 | 0.1 | 0.4 | 12.3 | 0.9 | 7.9 | 16.7 | 6.8 | 5.2 | 2.0 | 7.8 | 6.5 | 8.7 | 13.7 | 5.2 |
| **Trefol** | | 0.5 | 0.0 | 0.1 | 12.9 | 1.2 | 5.7 | 16.8 | 5.5 | 6.4 | 5.1 | 10.3 | 7.6 | 9.0 | 13.4 | 5.5 |
| **Cymoedd** | | 0.6 | 0.0 | 0.4 | 24.5 | 0.9 | 7.6 | 15.5 | 4.0 | 5.0 | 3.0 | 7.6 | 6.9 | 7.2 | 12.7 | 4.2 |
| **Cymru** | | 2.4 | 0.0 | 0.3 | 17.4 | 1.0 | 7.1 | 16.3 | 5.4 | 5.5 | 3.3 | 8.5 | 6.8 | 8.1 | 13.0 | 4.8 |

**Ffynonellau:** ***The role of the housing system in rural Wales: Final research report to the social justice and regeneration division of the Welsh Assembly Government*. (Milbourne et al., 2005)**
**Cyfrifiad Poblogaeth 2001**

[4] Awdurdodau eraill: Sir y Fflint, Bro Morgannwg, Wrecsam.
Trefol: Caerdydd, Casnewydd, Abertawe.
Cymoedd: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Torfaen.

**Tabl 3.1. 2: Canran y dosbarthiadau cymdeithasol-economaidd yn 2001 yn ôl lleoliad gwaith mewn awdurdod unedol**

| Awdurdod unedol | Categori | Cyfl mawr | Elw uchel | Rheol / pob broff is | Canolr | Cyfl bach | Goruch is | Lled reol | Rheol | Byth wedi gweith | Di-waith hirdym or | Myfyr | DD [5] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | **Gwledig** | 2 | 3 | 15 | 8 | 10 | 7 | 12 | 9 | 3 | 1 | 6 | 24 |
| Ceredigion | | 1 | 5 | 14 | 6 | 13 | 5 | 9 | 7 | 2 | 1 | 16 | 20 |
| Conwy | | 2 | 3 | 16 | 7 | 10 | 7 | 13 | 9 | 2 | 1 | 6 | 24 |
| Sir Ddinbych | | 2 | 3 | 16 | 8 | 9 | 8 | 13 | 10 | 2 | 1 | 5 | 23 |
| Gwynedd | | 1 | 3 | 15 | 6 | 11 | 7 | 12 | 9 | 2 | 2 | 9 | 22 |
| Ynys Môn | | 2 | 4 | 15 | 7 | 9 | 8 | 13 | 10 | 3 | 2 | 5 | 24 |
| Sir Fynwy | | 4 | 6 | 20 | 8 | 9 | 7 | 10 | 8 | 2 | 1 | 6 | 20 |
| Sir Benfro | | 1 | 3 | 15 | 7 | 12 | 8 | 12 | 9 | 3 | 1 | 5 | 24 |
| Powys | | 2 | 4 | 16 | 7 | 16 | 7 | 12 | 9 | 2 | 1 | 5 | 20 |
| **Arall** | | 3 | 4 | 18 | 9 | 6 | 9 | 13 | 10 | 2 | 1 | 6 | 19 |
| **Gwledig** | | 2 | 4 | 16 | 7 | 11 | 7 | 12 | 9 | 2 | 1 | 7 | 22 |
| **Trefol** | | 3 | 5 | 18 | 9 | 5 | 7 | 11 | 8 | 3 | 1 | 11 | 19 |
| **Cymoedd** | | 2 | 3 | 14 | 8 | 5 | 9 | 13 | 12 | 3 | 1 | 6 | 25 |
| **Cymru** | | 2 | 4 | 16 | 8 | 7 | 8 | 12 | 10 | 3 | 1 | 7 | 22 |

**Ffynonellau:** ***The role of the housing system in rural Wales: Final research report to the social justice and regeneration division of the Welsh Assembly Government*. (Milbourne et al., 2005)**

**Cyfrifiad Poblogaeth 2001**

[5] DD – Dosbarthiad cymdeithasol-economaidd Ystadegau Gwladol: 'Diddosbarth'.

Mae'r data ar gyfer dosbarthiadau cymdeithasol-economaidd yn Nhabl 3.1.2 yn awgrymu bod y cyfraddau ar gyfer cefn gwlad Cymru yn debyg i rai Cymru gyfan, ac eithrio ar gyfer categori'r cyflogwyr bychain, lle'r oedd 11% o bobl economaidd actif yng nghefn gwlad Cymru wedi'u nodi fel cyflogwyr bychain, o'i gymharu â 7% ar gyfer Cymru, a 7% ar gyfer y DU gyfan. Yng nghefn gwlad Cymru, ym Mhowys (16%), Ceredigion (13%), Sir Benfro (12%) a Gwynedd (11%) roedd y canrannau uchaf o gyflogwyr bychain. Roedd pobl a gyflogid mewn galwedigaethau goruchwylio is (5%-8%), lled reolaidd (9%-13%) a rheolaidd (7%-10%) yn dueddol o fod wedi'u dosbarthu'n gymharol gyfartal ar draws cefn gwlad Cymru, fel yr oedd y rhai nad oeddent erioed wedi gweithio (2%-3%) neu a oedd yn ddi-waith yn hir-dymor (1%-2%). Roedd canrannau'r categorïau hyn yng Nghymru a'r DU gyfan o fewn yr amrediadau hyn. Fodd bynnag, mae Milbourne et al. (2005) yn awgrymu bod canrannau uwch yn y categorïau hyn yng ngorllewin Cymru, yn enwedig yn rhai ardaloedd yng Ngwynedd, Ynys Môn a Sir Benfro. Yn ogystal, dylid nodi dwy nodwedd arall sydd i economi cyflogaeth cefn gwlad Cymru. Yn gyntaf, ar y cyfan roedd cyfrannau uchel o waith rhan-amser (19%); mwy nag un swydd (11%); a hunangyflogaeth (18%) o'i gymharu â'r rhif ar gyfer y DU, sef 14% (AWC, 2005). Yn ail, ac yn fwy penodol, mae Milbourne et al. yn cyfeirio at grynodiad (30%) o gyflogwyr mawr, pobl broffesiynol uwch, a rheolwyr a phobl broffesiynol is yn Sir Fynwy. Mae'r ffigur olaf hwn yn cymharu â 22% ar gyfer Cymru a 27% ar gyfer y DU gyfan.

Mae'r symudiad tuag at economi gwasanaeth yn cynnig cyfle ac yn fygythiad i gefn gwlad Cymru, ac mae rhai problemau'n amlwg yng ngallu'r gweithlu o ran sgiliau. Mae llawer o swyddi o fewn y sector gwasanaeth, yn enwedig mewn meysydd fel cyllid, TG, cyfathrebu, gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg, ac iechyd a gwaith cymdeithasol, yn gofyn safonau uchel o gymwysterau addysgol a phroffesiynol, ond mae gweithlu cefn gwlad Cymru yn dueddol o gael ei nodweddu gan gyflawniad academaidd cymharol isel. Mae data arolwg o 'Adroddiad ar Fyw a Gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru' (AWC, 2004) yn awgrymu bod 17% o'r sawl a astudiwyd yng nghefn gwlad Cymru heb unrhyw gymwysterau academaidd ac mai cymhwyster uchaf 32% oedd TGAU, TAG neu Dystysgrif Gadael yr Ysgol. Mae data NOMIS yn awgrymu bod 17.8% yng Nghymru gyfan heb unrhyw gymwysterau academaidd. O ganlyniad, profodd llawer o boblogaeth economaidd actif cefn gwlad Cymru drafferthion wrth ddod o hyd i gyflogaeth, yn enwedig y rhai yn y grwp oedran 16-24. Felly, mae yna botensial ar gyfer anghydweddu rhwng galw a chyflenwad yn y farchnad lafur. Caiff y lefelau canran hyn o gymwysterau a ddelir gan boblogaeth Cymru gyfan yn ôl ward, ac a seilir ar ddata NOMIS, eu cyflwyno'n ofodol ar Fapiau 1-6 ar ddiwedd Adran 3. [6]

Mewn cyferbyniad â gofynion addysgol pen uchaf y sector gwasanaeth, mae gwaith arall yn y sector gwasanaeth, fel dosbarthu, gwestai a thai bwyta yn tueddu tuag at gyflog isel, a gwaith rhan-amser a thymhorol; nodweddion sydd hefyd yn amlwg yn y sector twristiaeth. O'u hystyried gyda thystiolaeth arolwg o fusnesau teuluol wedi'u hymgorffori yn yr economi leol, y defnydd eang o rwydweithiau lleol ac anffurfiol i recriwtio, cyflenwi deunyddiau a gwerthu, a'r potensial ar gyfer anghydweddu rhwng llafur a'r farchnad fel y trafodwyd uchod, mae perygl i 'gydbwysedd sgiliau isel' ddatblygu. Mewn ymateb i alw cynyddol gan gyflogwyr am sgiliau isel, ond hyblyg serch hynny, a dirywiad mewn cyfleoedd am waith medrus, mae'r farchnad lafur leol yn dueddol o ddatblygu llai o sgiliau (Green, 2003).

[6] NOMIS – System Gweithlu Ar-lein Genedlaethol – cronfa ddata ar y we o ystadegau am farchnadoedd llafur, a gynhelir gan Brifysgol Durham ar ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

At ddibenion y cyfrifiad ac arolygon economaidd, caiff y boblogaeth o oedran gwaith ei chategoreiddio naill ai fel economaidd actif neu economaidd anactif.[7] Mae data o arolwg a seiliwyd ar Gyfrifiad 2001 (Milbourne et al., 2005) yn awgrymu bod 67% o gartrefi yng nghefn gwlad Cymru yn economaidd actif, o'i gymharu â 66% yng Nghymru gyfan. Yng nghefn gwlad Cymru roedd actifedd economaidd ar ei uchaf ym Mhowys a Sir Fynwy ar 71% a 72% yn ôl eu trefn, ac ar ei isaf yn Sir Gaerfyrddin ar 63%. Mae data ar lefel ward yn awgrymu canrannau isel o actifedd economaidd ar arfordir gogledd Cymru; yn Ynys Môn; yng ngorllewin Gwynedd; ac ar arfordir Sir Benfro. Ymhlith enghreifftiau o actifedd economaidd ar lefel ward mae Llanbadarn Fawr-Sulien yng Ngheredigion (36%); Menai yng Ngwynedd (37%); Abergele Pensarn yng Nghonwy (46%); Llanbedrgoch yn Ynys Môn (50%); a Doc Penfro: Llanion (51%). Dangosir y patrwm gofodol hwn o actifedd economaidd ar Fapiau 7, 8 a 9.

Caiff pobl a gofrestrwyd yn ddi-waith eu categoreiddio'n economaidd actif ac mae data diweithdra'n adlewyrchu'r patrwm gofodol y sylwyd arno ar gyfer actifedd economaidd, lle'r oedd ardaloedd gorllewinol yng nghefn gwlad Cymru yn dangos tuedd tuag at gyfraddau actifedd economaidd isel a chyfraddau diweithdra uchel. Ar lefel awdurdod unedol, nid oedd llawer o wahaniaeth o'i gymharu â chymedr diweithdra cenedlaethol Cymru, sef 4% - roedd cyfradd cefn gwlad Cymru yn 5%; Gwynedd ac Ynys Môn oedd yr uchaf ar 6%; a Sir Fynwy a Phowys oedd yr isaf ar 3%. Dangoswyd y gwahaniaethau rhwng y gorllewin a'r dwyrain o fewn cefn gwlad Cymru yn fwy clir ar lefel ward; mewn rhai wardiau yng ngorllewin cefn gwlad Cymru roedd 9% - 17% o gartrefi'n ddi-waith.

Yn yr arolwg o gartrefi cefn gwlad Cymru, roedd 33% o gartrefi'n economaidd anactif (AWC, 2005).[8] Mae cyfrifiad 2001 yn cynnwys pob person sydd dros 16 a than 75 yn y data ar actifedd ac anactifedd economaidd. O ganlyniad, yn ôl data'r cyfrifiad, ymddeol oedd y prif reswm dros anactifedd economaidd, a chyda canran o 21% ar gyfer cefn gwlad Cymru yn ei grynswth, roedd y canrannau'n gyson â chyfartaledd cenedlaethol Cymru, sef 19% ar gyfer cartrefi wedi ymddeol. Roedd y cyfraddau uchaf o gartrefi wedi ymddeol yng Nghonwy ac Ynys Môn ar 23% a 22% yn ôl eu trefn, ac roedd y gyfradd isaf yn Sir Fynwy ar 19%. Roedd y cyfraddau uchel o gartrefi wedi ymddeol yn ardaloedd arfordirol Gwynedd, Ynys Môn, Sir Benfro, a hefyd de-orllewin Ceredigion, yn adlewyrchu'r cyfraddau isel o actifedd economaidd a welwyd uchod yn yr ardaloedd hyn.

Roedd salwch parhaol hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at anactifedd economaidd, ac roedd 7% o gartrefi o'r fath ar draws across cefn gwlad Cymru. Nodwyd crynodiadau arbennig o gartrefi â salwch parhaol yn Ynys Môn, rhannau o Wynedd (yn arbennig Pen Llyn), de-orllewin Wales ac arfordir gogledd Cymru. Roedd y gyfran o gartrefi myfyrwyr yng nghefn gwlad Cymru yn adlewyrchu'r ffigur cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef 1%. Nid oedd yn syndod mai yng Ngheredigion (5%) a Gwynedd (2%) oedd y lefelau uchaf o gartrefi myfyrwyr yng nghefn gwlad Cymru (Milbourne et al., 2005).

Mae'r ffaith y cynhelir y Cyfrifiad bob deng mlynedd yn caniatáu gweld newid dros amser, ac wrth gymharu data ar gyfer y cyfnodau 1981-1991 ac 1991-2001 gwelir y bu cynnydd yn nifer y cartrefi economaidd anactif yng nghefn gwlad Cymru. Ymddeol cyn 65 oed oedd y prif ffactor, ac roedd cynnydd yn niferoedd y cartrefi wedi ymddeol ym mhob rhan. Wrth gwrs, roedd amrywiadau o fewn y darlun cyffredinol. Er enghraifft, cynyddodd lefelau anactifedd economaidd dros 20 mlynedd yng ngorllewin Cymru, ond bu cwymp bychan yng ngogledd ddwyrain Cymru ac ym Mhowys. Ar draws cefn gwlad Cymru yn yr 1980au, roedd cynnydd yn y gyfran o gartrefi â salwch parhaol, cyn gostyngiad yn hyn yn yr 1990au. I orffen, cwympodd lefelau diweithdra ar

[7] Oedran gweithio'r Cyfrifiad: 16 – 74. Oedran gweithio NOMIS: 16-64 i wrywid ac 16-59 i fenywod.
[8] Gweler ddiffiniad o economaidd anactif yn Atodiad 1.

draws cefn gwlad Cymru yn ystod y ddau gyfnod, ond roedd y gyfradd cwympo ychydig yn is yn yr 1990au (-3%) nag oedd ar gyfer Cymru gyfan (-4%) (Milbourne et al., 2005).

Fel yr awgrymwyd uchod, mae'r cyfrifiad yn cynnwys pob person mewn cartrefi sydd dros 16 a than 75 yn y data ar actifedd ac anactifedd economaidd, ac mae'n cyfrif pobl sydd wedi ymddeol a'r sawl sydd â salwch hir-dymor yn economaidd anactif. Mae Ystadegau Marchnad Lafur NOMIS, sy'n diffinio oedran gweithio fel 16-64 i wrywod ac 16-59 i fenywod, ac sydd wedi'u seilio ar unigolion, yn darparu ffocws mwy craff ar actifedd ac anactifedd economaidd y sawl sydd yn yr hyn y gellir ei alw'n amrediad oedran gweithio 'normal'. Ar gyfer y cyfnod rhwng Mawrth 2003 a Chwefror 2004, roedd cyfraddau actifedd economaidd yng nghefn gwlad Cymru ar eu huchaf yn Sir Fynwy (79.4%) ac ym Mhowys (79.3%); ac yn eu trefn ddisgynnol, Sir Ddinbych (78.1%), Gwynedd (76.1%), Conwy (74.9%), Sir Benfro (74.4%), Ynys Môn (74.3%), Ceredigion (72.9%) a Sir Gaerfyrddin (69.4%). Mae'r data hwn yn cymharu â chyfradd actifedd economaidd o 74.2% i Gymru gyfan a chyfradd o 78.2% i Brydain Fawr. Felly, mae data NOMIS yn adlewyrchu'r data arolwg a seiliwyd ar y Cyfrifiad yn fras, a'r patrymau gofodol actifedd ac anactifedd economaidd a drafodwyd uchod: roedd tuedd tuag at gyfraddau actifedd economaidd is yng ngorllewin cefn gwlad Cymru.

Wrth gwrs, mae incwm cartrefi'n benderfynydd pwysig i'r economi, ac yma, roedd cymedr incwm blynyddol cartrefi ar gyfer cefn gwlad Cymru yn ei grynswth (£24,065) yn is nag oedd i Gymru gyfan (£25,102), awdurdodau 'trefol' (£27,012), ac awdurdodau 'eraill' (£27,902), ond ychydig yn uwch nag awdurdodau'r 'cymoedd' (23,631). Nodwedd amlwg yn y data ar incwm oedd cymedr incwm blynyddol cartrefi Sir Fynwy o £30,510, sef yr uchaf a gofnodwyd ar gyfer unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Mae data incwm blynyddol Sir Fynwy yn adlewyrchu cyfran y galwedigaethau y gallant gynnig incwm uchel yn yr ardal, a nodwyd uchod. Roedd cymedr incwm blynyddol cartrefi ar gyfer awdurdodau lleol cefn gwlad eraill Cymru ar amrediad o Sir Ddinbych (£24,268) i Wynedd (£22,345). Dylid nodi bod cymedr incwm blynyddol uchel Sir Fynwy yn dueddol o sgiwio'r ffigurau cefn gwlad: mewn pedair ardal wledig – Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn, Sir Benfro a Gwynedd – roedd cymedrau incwm cartrefi'n is na chymedr awdurdodau'r 'cymoedd' (Milbourne et al., 2005).

Yn wir, mae data ar lefel ward yn dangos bod incwm blynyddol cartrefi ym mwyafrif y wardiau yng nghefn gwlad Cymru yn is na chymedr Cymru gyfan. Roedd wardiau yn y gorllewin, y gogledd-orllewin ac yng nghanolbarth Cymru lle'r oedd incymau blynyddol arbennig o isel. Mewn cyferbyniad â hyn, roedd pocedi o wardiau incwm uchel yng ngogledd-ddwyrain Cymru, o amgylch Penfro, yng Ngwyr ac ar hyd y ffin â Lloegr, ac roedd mwyafrif sylweddol o wardiau Sir Fynwy yn y dosbarth uchaf o incwm blynyddol (Milbourne et al., 2005). Dangosir patrwm gofodol lefelau incwm Cymru gyfan ar Fap 10.


I raddau helaeth, bydd iechyd economi cefn gwlad Cymru yn dibynnu ar fusnesau, arloesedd busnesau a mentergarwch. Mae data NOMIS yn awgrymu, fodd bynnag, bod y gyfradd flynyddol o gofrestru am TAW yn 2003 ar gyfer Cymru (8.7%) yn is na'r gyfradd ar gyfer Prydain Fawr (10.6%) yn ei chrynswth, er bod cyfradd dadgofrestru TAW yng Nghymru (8.8%) hefyd yn is na'r oedd ym Mhrydain Fawr (9.7%) yn ei chrynswth. Un o ganfyddiadau pwysig Arolwg Busnes Arsyllfa Wledig Cymru oedd bod 48.7% o ymatebwyr yn ystyried bod gallu technolegol yn bwysig/yn bwysig iawn ar gyfer perfformiad busnes, ond mai dim ond 7.6% oedd yn neilltuo 'cyllid sylweddol' blynyddol i TGCh, a dim ond 5% o ymatebwyr a oedd yn neilltuo 'cyllid sylweddol' i ymchwil a datblygiad. Yn yr un modd, er i 74.3% nodi bod gwybodaeth yn bwysig/yn bwysig iawn ar gyfer perfformiad busnes, roedd y gweithgarwch a gofnodwyd yn gymharol, isel. Mae data arolwg yn awgrymu bod 28.8% wedi cynyddu ystod eu cynhyrchion; roedd 19.9% wedi creu gwefan neu wedi symud i farchnata gyda'r rhyngrwyd; roedd 19.9% wedi

cynyddu'r defnydd o gyfrifiaduron yn y gweithle; roedd 16.4% naill ai wedi cynyddu buddsoddiad yn y busnes neu wedi gwella safle’r busnes; ac roedd 9.4% wedi gwneud ymchwil i ddefnyddio cyfarpar newydd. Roedd lefelau gweithgarwch yn y meysydd hyn yn dueddol o gynyddu gyda maint y busnes.

Roedd busnesau yng nghefn gwlad Cymru yn tueddu tuag at optimistiaeth. Er enghraifft, mae data o Arolwg Busnes Arsyllfa Wledig Cymru yn awgrymu, er bod 53% yn darogan dim newid yn sylfaen eu gweithwyr am y 5 mlynedd nesaf, roedd 41% yn disgwyl cynnydd, a dim ond 6% a ddisgwyliai ostyngiad. Yn yr un modd, roedd 69% yn darogan cynnydd mewn trosiant blynyddol yn y 5 mlynedd nesaf, roedd 21% yn disgwyl dim newid, a dim ond 10% oedd yn darogan gostyngiad. Yn fras, cawsai’r drefn hon ei hailadrodd mewn mesurau eraill o dwf busnesau, megis elw, maint y farchnad ac ystod y cynhyrchion.


Cynigiodd y cyflwyniad amlinelliad o economi marchnad lafur cefn gwlad Cymru. Mae’n dangos bod economi cyflogaeth cefn gwlad Cymru mewn cyflwr o drawsnewid, yn symud oddi wrth ddominyddiaeth amaethyddiaeth a diwydiannau cynradd eraill, tuag at economi fwy tameidiog a nodweddir gan ddiwydiannau gwasanaeth, y sector cyhoeddus a thwristiaeth. Mae’r sefyllfa hon yn dod â phroblemau a chyfleoedd i fusnesau ac i lafur. Mae amrediad cymhleth o ffactorau ar waith yn economi wledig Cymru, yn benodol, yr anghydweddu yn y farchnad lafur a’r cydbwysedd sgiliau isel potensial a nodwyd yn yr adroddiad hwn (gweler Ffigur 2.1). Ffactor llai amlwg yw’r dystiolaeth o raddiant sy’n fythol gynyddu o’r dwyrain i’r gorllewin o ran iechyd economaidd, â’r fantais yn y gorllewin. Mae'r graddiant hwn fwyaf amlwg mewn data sy’n dangos cyfraddau’r rhai nad ydynt erioed wedi gweithio neu sy’n ddi-waith yn hir-dymor, ac yn enwedig mewn data o gyfraddau actifedd economaidd ac anactifedd economaidd yn y sawl sydd o oedran gweithio. Bydd gweddill yr adroddiad hwn yn archwilio’r agweddau pwysig a diddorol hyn ar fywyd gwledig yng Nghymru ymhellach. Yn gyntaf, bydd yr adroddiad yn trafod gwybodaeth o ddau arolwg a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru (AWC): yr Arolwg Busnes a’r Arolwg Cartrefi.

**Map 1**




Marchnad Lafur Wledig -Ward 2001
% y Boblogaeth o Oedran Gwaith heb Gymwysterau
Allwedd
% Heb Gymwysterau
38.45 - 58.38
32.14 - 38.44
26.87 - 32.13
5.33 - 26.86
Ffynhonnell: Nomis
Arsyllfa Wledig Cymru
Wales Rural Observatory

**Map 2**



Marchnad Lafur Wledig - Ward 2001
% y Boblogaeth o Oedran Gwaith a Chymwysterau Lefel 1
Allwedd
% Cymwysterau Lefel 1
17.12 - 25.26
15.58 - 17.11
14.04 - 15.57
3.01 - 14.03
Ffynhonnell: Nomis
Arsyllfa Wledig Cymru
Wales Rural Observatory

**Map 3**


Marchnad Lafur Wledig -Ward 2001
% y Boblogaeth o Oedran Gwaith a Chymwysterau Lefel 2
Allwedd
% Cymwysterau Lefel 2
22.16 - 26.92
20.71 - 22.15
18.65 - 20.70
8.58 - 18.64
Ffynhonnell: Nomis
Arsyllfa Wledig Cymru
Wales Rural Observatory


**Map 4**

Marchnad Lafur Wledig -Ward 2001




**Map 5**

Marchnad Lafur Wledig -Ward 2001




**Map 6**


Marchnad Lafur Wledig -Ward 2001
% y Boblogaeth o Oedran Gwaith a Chymwysterau Eraill/Anhysbys
Allwedd
% Cymwysterau Eraill/Anhysbys
8.02 - 10.93
7.37 - 8.01
6.59 - 7.36
1.31 - 6.58
Ffynhonnell: Nomis
Arsyllfa Wledig Cymru
Wales Rural Observatory


**Map 7**

Marchnad Lafur Wledig -Ward 2001




**Map 8**

Marchnad Lafur Wledig -Ward 2001




**Map 9**

Marchnad Lafur Wledig -Ward 2001



**Map 10**

Marchnad Lafur Wledig - Ward 2003



## 3.2 Gwybodaeth gan Arolwg Busnes Arsyllfa Wledig Cymru

Mae'r Arolwg Busnes Cefn Gwlad (AWC, 2004) yn un o'r dogfennau creiddiol o waith Arsyllfa Wledig Cymru. Mae'n cyflwyno canfyddiadau dadansoddiad o arolwg masnachol o 1,008 o fusnesau yng nghefn gwlad Cymru, ac yn darparu data am broffiliau busnesau, proffiliau perchenogion, lleoliadau, strategaethau busnes, nodweddion gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr, cyfryngau hysbysebu a ddefnyddir, strategaethau a dulliau recriwtio, a chynaliadwyedd busnesau yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r dadansoddiadau ystadegol hyn mewn dau gategori yn yr adroddiad. Yn gyntaf, mae dadansoddiad ar draws y set ddata gyfan. Yn ail, mae dadansoddiad is-grwp: yn ôl lleoliad, maint y busnes a'r math o fusnes.

Mae'r arolwg yn awgrymu bod amrediad o wahanol fathau o fusnesau yng nghefn gwlad Cymru, ac mae'r adroddiad yn enwi 11 categori bras. Dylid nodi na chynhwyswyd ffermydd yn y dadansoddiad.

**Table 3.2.1 Categorïau Busnes Arolwg Busnes Arsyllfa Wledig Cymru**

| Categori | Canran y sampl cyfan |
|---|---|
| Gwasanaethau amaethyddol | 4.6% |
| Adeiladu | 10.1% |
| Llety, bwyd a diod | 18.1% |
| Gweithgynhyrchu | 7.7% |
| Adwerthu | 31.8% |
| Tir ac adeiladau | 2.3% |
| Cyfanwerthu | 6.7% |
| Iechyd a harddwch | 9.2% |
| Cludiant | 3.0% |
| Gwaith elusennol a chymdeithasol | 3.2% |
| Gwasanaethau | 3.0% |

Mae amlinelliad yn dilyn o ganfyddiadau'r Arolwg Busnes Cefn Gwlad. Roedd y canfyddiadau hyn yn allweddol i gynllunio'r cyfweliadau ar gyfer yr ymchwil hwn i'r farchnad lafur.

### *3.2.1 Cydnawsedd y sylfaen o weithwyr*

Nododd 12.4% o'r ymatebwyr yn Arolwg Busnes AWC bod prinder staff (addas) yn broblem benodol sy'n gysylltiedig â bod yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru. Yn wir, ymddengys fod canlyniadau'r arolwg yn awgrymu bod anghydweddu rhwng argaeledd a/neu addasrwydd gweithwyr potensial, o'i gymharu â'r swyddi gwag a oedd ar gael mewn busnesau cefn gwlad. Er enghraifft, er y dywedwyd bod dros bum gwaith cymaint o weithwyr (61.8%) wedi'u cyflogi o 'gefn gwlad Cymru' nag a gyflogwyd o leoedd eraill, serch hynny, dim ond 30.4% o'r ymatebwyr a nododd bod hygyrchedd/agosrwydd at weithlu cymwysedig/medrus yn dda/da iawn - a nododd 23.7% arall ei fod yn wael/gwael iawn. Roedd y rhwystrau sy'n gysylltiedig â byw yng nghefn gwlad yn cymhlethu'r anawsterau hyn ymhellach. Er enghraifft, o'r 56.4% o ymatebwyr a nododd y profwyd trafferthion wrth recriwtio gweithwyr, i'r mwyafrif, gellid cysylltu hyn â phrinder ymgeiswyr (62.3%) ac ymgeiswyr heb brofiad gwaith priodol (65.7%). Fodd bynnag, roedd lleiafrif sylweddol (31.5%) hefyd wedi profi anawsterau oherwydd 'ymgeiswyr yn methu gyrru/yn ddibynnol ar gludiant cyhoeddus'.

Ffactor arall a nodwyd yn aml o ran anawsterau recriwtio oedd bod 'ymgeiswyr heb hyfforddiant academaidd/proffesiynol priodol' (problem i 47.7% o'r ymatebwyr). O ystyried bod 81.4% o berchenogion busnes yn ystyried bod lefel sgiliau/gwybodaeth rheolwyr a'r gweithlu yn bwysig/pwysig iawn wrth ddylanwadu ar berfformiad cyffredinol y busnes, roedd y problemau potensial sy'n gysylltiedig â'r ffynhonnell hon o fethu recriwtio yn amlwg. Cawsant eu cymhlethu ymhellach hefyd oherwydd bod dros un rhan o dair o fusnesau (37.9%) yn nodi 'dim digon o amser/colli amser yn ystod hyfforddiant' yn rhwystr i hyfforddi gweithwyr, ac roedd cyfran debyg (31.9%) yn ystyried bod 'cost' yn broblem benodol.

### *3.2.2 Tystiolaeth o ymgorffori a rhwydweithiau anffurfiol*

Mae'r data a gynhyrchwyd yn yr Arolwg Busnes Cefn Gwlad yn awgrymu bod ffactorau ymgorffori a rhwydweithio anffurfiol yn ffurfio elfen graidd o strategaeth fusnes. Cawsai hyn ei adlewyrchu mewn tystiolaeth bod syniadau am ymddiried, cyfathrebu wyneb-yn-wyneb a materion yn ymwneud â ffordd o fyw i gyd yn rhan o fanteision tybiedig bod wedi lleoli yng nghefn gwlad Cymru. Yn gryno, canfuwyd:

- nad oedd 90% o'r ymatebwyr erioed wedi ystyried ail-leoli y tu allan i gefn gwlad Cymru
- bod 65% yn pwysleisio bod cyswllt cymdeithasol â ffrindiau, teulu a/neu gysylltiadau busnes a ffordd o fyw yn bwysig i berfformiad busnes
- bod 80% yn ystyried bod eu busnesau'n 'fusnes teuluol'
- bod 76% -100% o gwsmeriaid 42% o'r ymatebwyr wedi'u lleoli o fewn 30km
- bod 75% yn dibynnu ar sôn ar lafar ar gyfer marchnata a hysbysebu
- bod 55% wedi gwneud ymweliadau proffesiynol i gynnal rhwydweithiau a chysylltiadau â chwsmeriaid

### *3.2.3 Potensial i dyfu/busnesau dull byw*

Roedd twf busnes yn uchelgais i fwyafrif y perchenogion yng nghefn gwlad Cymru. Roedd 70% am i'w busnes dyfu o ran gweithwyr, trosiant a chyfran o'r farchnad, ac roedd busnesau mwy yn fwy tebygol o ddarogan y cynyddiadau hyn. Roedd rhesymau gwreiddiol busnesau dros benderfynu lleoli yng nghefn gwlad Cymru yn dueddol o gael eu dylanwadu gan faterion mwy 'mwyn' fel ffordd o fyw/ymrwymiadau teuluol (87.8%), ansawdd yr amgylchedd (84.8%), a chartref presennol yr ymatebwr yng nghefn gwlad Cymru (81.3%). Serch hynny, nododd 40.5% o'r ymatebwyr bod lefelau da mewn masnach (cefn gwlad) yn fantais benodol o fod wedi'u lleoli yng nghefn gwlad Cymru, ac roedd 87.8% o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'u busnesau'n parhau'n gynaliadwy ar ei wedd bresennol dros y pum mlynedd nesaf.

### *3.2.4 Sialensiau i fusnes a rôl systemau cefnogi*

Ar sail canlyniadau'r arolwg, nid oes modd dod i gasgliad clir naill ai am ansawdd cefnogaeth fusnes yng nghefn gwlad Cymru nac am y niferoedd sy'n ei cheisio. Yn ogystal, nododd 7.7% o'r ymatebwyr fod trafferth gyda rheoliadau a/neu ddiffyg cefnogaeth fusnes wedi gwneud iddynt ystyried ail-leoli'u busnesau y tu allan i gefn gwlad Cymru. O ystyried yr amrediad o sialensiau a enwyd gan berchenogion busnesau o ganlyniad i'w lleoliad yng nghefn gwlad Cymru (er

enghraifft, y trafferthion a drafodwyd uchod sy'n gysylltiedig â'r sylfaen o weithwyr), ochr yn ochr â gwendidau sy'n deillio o broblemau o ran hygyrchedd i gwsmeriaid a chyflenwyr; cysylltiadau cludiant gwael (yr ystyrir ei fod yn anfantais o fod wedi lleoli yng nghefn gwlad Cymru gan 36.1% o'r ymatebwyr); a sylfaen annigonol/anaddas o gwsmeriaid (yr ystyrir ei fod yn anfantais o fod wedi lleoli yng nghefn gwlad Cymru gan 35.6% o'r ymatebwyr), roedd pwysigrwydd hwyluso lefel well o gefnogaeth fusnes yn glir.

### *3.2.5 Defnyddio technoleg, ymchwil a datblygu*

Er yr oedd yn ymddangos bod maint busnes a math o fusnes yn chwarae rhan yn y defnydd a wneir ar 'dechnoleg' gan fusnesau cefn gwlad, ar y cyfan mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu ei fod yn agwedd ar fusnes sydd heb ei defnyddio i'r eithaf gan y mwyafrif o berchenogion busnes. Er enghraifft, er bod 48.7% o'r ymatebwyr yn ystyried bod gallu technolegol yn ddylanwad pwysig/pwysig iawn ar berfformiad busnes, dim ond 7.6% o'r ymatebwyr a neilltuodd 'gyllid sylweddol' o'u trosiant blynyddol i TGCh, tra roedd 20.6% ddim hyd yn oed yn ystyried bod gallu technolegol yn berthnasol i'w busnes. Ar ben hyn, dim ond 5% o'r ymatebwyr a neilltuai 'gyllid sylweddol' o'u trosiant blynyddol i ymchwil a datblygu.

### *3.2.6 Arloesedd/mentergarwch ymysg perchenogion busnesau gwledig*

Nododd 74.3% o'r ymatebwyr i gyd bod gwybodaeth yn ddylanwad pwysig/pwysig iawn ar berfformiad busnes. Yn ogystal, dim ond 5.6% o'r ymatebwyr a nododd bod 'dim' gweithgareddau arloesol wedi'u cynnal yn y 5 mlynedd diwethaf. Er bod ymatebwyr unigol yn amrywio'n fawr o ran eu barn am yr hyn sy'n cyfrif fel gweithgaredd arloesol, daeth pedair thema i'r amlwg: cynyddu amrediad/ansawdd cynhyrchion (28.8%); creu gwefan/marchnata ar y rhyngrwyd a/neu fwy o ddefnydd ar gyfrifiaduron yn y gweithle (19.9%); buddsoddi yn y busnes/yn nhir ac adeiladau'r busnes (16.4%); ac ymchwil a datblygu/defnyddio cyfarpar newydd (9.4%).

### *3.2.7 Crynodeb*

Felly, mae Arolwg Busnes AWC yn cyfeirio at lawer o fanteision a chryfderau sy'n gysylltiedig â pherchen ar a rhedeg busnes yng nghefn gwlad Cymru. Ymysg y dangosyddion cadarnhaol roedd bod 41.5% o'r perchenogion busnes a ymatebodd i arolwg 2004 yn darogan cynnydd yn nifer eu gweithwyr yn y 5 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, roedd arwyddion o rwystrau a chyfyngiadau amrywiol iawn. Roedd y rhain yn cynnwys problemau o ran hygyrchedd, cludiant a sylfaen y cwsmeriaid. Ar ben hynny, a dyma'r pryder mwyaf, cyfeiriodd busnesau at broblemau o ran recriwtio llafur.

## 3.3 Gwybodaeth gan Arolwg Cartrefi Arsyllfa Wledig Cymru

Nawr, bydd yr adroddiad hwn yn trafod gwybodaeth o Arolwg Cartrefi Arsyllfa Wledig Cymru, a astudiodd 4,023 o gartrefi ar draws cefn gwlad Cymru. Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad i Adran 3, mae economi cefn gwlad Cymru mewn cyfnod o drawsnewid o sylfaen mewn amaethyddiaeth i'r sector gwasanaeth. Mae Arolwg Cartrefi Arsyllfa Wledig Cymru yn archwilio gwahanol agweddau ar y farchnad lafur yng nghefn gwlad Cymru, a grynhoir isod.

### *3.3.1 Sylfaen sgiliau ardaloedd gwledig ar draws Cymru*

Fel y trafodwyd uchod, tueddir i nodweddu cyflenwad llafur yng nghefn gwlad Cymru gan gymwysterau academaidd cymharol isel. Mae data arolwg yn awgrymu bod ymron i 50% o'r ymatebwyr un ai wedi gadael yr ysgol yn 16 oed neu heb ennill unrhyw gymwysterau academaidd pellach - sy'n gadael 50% o drigolion cefn gwlad wedi mynd ymlaen mewn addysg. Allan o'r holl ymatebwyr, roedd 14% wedi cyrraedd lefel Safon Uwch o leiaf; roedd gan 17% radd prifysgol; ac roedd gan 6% gymhwyster ôl-raddedig. Fodd bynnag, roedd 32% o'r ymatebwyr heb gymwysterau academaidd ôl-16, ac roedd 17% heb gymwysterau academaidd o unrhyw fath.

Roedd rhai siroedd yn gyfoethocach o ran cymwysterau nag eraill. Er enghraifft, yn Sir Fôn, Sir Gaerfyrddin, Conwy a Sir Ddinbych roedd rhwng 19% ac 21% o'r ymatebwyr heb gymwysterau. Mewn cyferbyniad â hyn, adroddodd ymatebwyr yn Sir Fynwy a Bro Morgannwg mai dim ond 11% oedd heb gymwysterau. Ar lefel addysg uwch, yn Sir Fôn a Sir Ddinbych roedd y canrannau lleiaf o ddeiliaid gradd, y ddwy sir â 12%. Roedd y siroedd eraill yng nghefn gwlad yn amrywio rhwng 17% ac 20%, gyda Cheredigion a Bro Morgannwg ar y brig gyda 20%. O ran cymwysterau ôl-raddedig, roedd Sir Fynwy ar y brig gyda 11% o'r ymatebwyr, Sir Ddinbych oedd yr isaf gyda 3%, ac roedd y siroedd eraill yng nghefn gwlad yn amrywio rhwng 4% ac 8%.

### *3.3.2 Cyflogaeth a diweithdra*

Roedd y cyfraddau diweithdra'n amrywio yn ôl y ddaearyddiaeth: roedd cyfradd ddiweithdra hunanddiffiniedig (yn ddi-waith ac yn chwilio am waith) o 3% ymysg ymatebwyr, ac roedd y gyfradd uchaf ym Mro Morgannwg (5%) a'r isaf yn Sir Fynwy (1%). Ac eithrio pobl oedd wedi ymddeol, roedd 80% o'r ymatebwyr yn diffinio'u hunain mewn gwaith â thâl; roedd 14% yn ddi-waith a ddim yn chwilio am waith; ac roedd 6% yn diffinio'u hunain yn sâl neu'n anabl yn hirdymor. Nododd lleiafrif sylweddol (25%) o'r ymatebwyr eu bod wedi cael anawsterau dod o hyd i waith addas yn eu hardaloedd lleol, tra bo 30% o'r farn bod 'y rhan fwyaf o bobl' yn eu hardal leol yn cael trafferth dod o hyd i waith. O'r ymatebwyr hynny a oedd mewn gwaith, roedd mwyafrif (71%) yn gweithio llai na deng milltir o'u cartrefi, ac roedd 50% yn gweithio llai na pum milltir o'u cartrefi. Dim ond 4% o'r ymatebwyr a oedd yn teithio i'r gwaith ar gludiant cyhoeddus.

### *3.3.3 Y sectorau cyflogaeth*

Mae data'r Arolwg Cartrefi'n adlewyrchu data NOMIS a'r Cyfrifiad a drafodwyd yn 3.1 uchod. Er enghraifft, roedd 6% o'r ymatebwyr yn gweithio mewn amaethyddiaeth, hela neu goedwigaeth. Roedd y prif sectorau cyflogaeth ar gyfer ymatebwyr yr arolwg yn y sector cyhoeddus: gweinyddiaeth, addysg, ac iechyd a gwaith cymdeithasol, a oedd, gyda'i gilydd, yn cyfrif am 44% o waith yr ymatebwyr. Un canfyddiad pwysig oedd y cyfraddau uchel o waith rhan-amser (19%), mwy nag un swydd (11%), a hunangyflogaeth (18%) ymysg ymatebwyr sydd ar hyn o bryd mewn cyflogaeth â thâl, ac roedd hunangyflogaeth ar ei uchaf yng Ngheredigion, ym Mhowys ac yn Sir Benfro, ac isaf yng Nghonwy a Sir Gaerfyrddin.

## 3.4 Crynodeb – Gosod yr Agenda Ymchwil

Mae'r amlinelliadau, trafodaethau a dadansoddiadau blaenorol, ar y cyd â'r wybodaeth o'r Arolwg Busnes Cefn Gwlad a chanfyddiadau [economaidd berthnasol] yr Arolwg Cartrefi, yn cyfeirio at fodel o farchnad lafur cefn gwlad Cymru sy'n dangos cryn dipyn o gymhlethdod. Yn fras, mae'r ffactorau amlwg yn cynnwys:

- Tueddiad tuag at gyfraddau uchel o anactifedd economaidd yn y boblogaeth o oedran gwaith
- Gweithlu a nodweddir gan gymwysterau addysgol isel
- Gwariant isel gan gyflogwyr ar hyfforddiant
- Hygyrchedd gwael at leoliadau gwaith i weithwyr
- Anghydweddu yn y farchnad lafur.

Mae'r ffactorau y gellir eu hystyried eu bod yn fwy cadarnhaol yn cynnwys:

- Optimistiaeth cyflogwyr
- Ymgorffori busnesau mewn diwylliannau lleol a hunaniaeth lleoedd
- Tuedd tuag at sylfaeni lleol o gwsmeriaid
- Defnyddio rhwydweithiau ar gyfer recriwtio a chyflenwad.

Gyda'i gilydd, mae'r nodweddion a nodwyd yma o economi cefn gwlad Cymru yn awgrymu bod elfennau yn y farchnad lafur yn dangos yr angen am hyblygrwydd lleol. Fodd bynnag, mae gan yr anghenion hyn, ac ymddengys bod rhai ohonynt yn cynnig rhywfaint o fantais gystadleuol i fusnesau cefn gwlad, y potensial i atgyfnerthu'r 'cydbwysedd sgiliau isel' a throell dirywiad, y trafodwyd uchod. Felly, un cwestiwn pwysig i ymchwilio iddo yw sut y gellid gwyrdroi'r amodau hyn er mwyn creu troell fuddiol.

Mae'r adran nesaf yn yr adroddiad hwn yn archwilio nodweddion y farchnad lafur yng nghefn gwlad Cymru ymhellach drwy dyrchu i lefel y rhanbarthau unigol, drwy ddwy astudiaeth achos a leolir, am resymau a esbonnir yn yr Adran nesaf, yn Sir Ddinbych a Sir Benfro.

# Adran 4: Cynllun Ymchwil Empirig

## 4.1 Dewis Ardaloedd yr Astudiaethau Achos

### *4.1.1 Methodoleg ar gyfer dewis Sir Ddinbych a Sir Benfro*

Er mwyn dysgu mwy am gyfleoedd a rhwystrau i'r farchnad lafur yn yr ardaloedd hynny lle mae'r sector preifat yn gwneud yn dda, a'r ardaloedd hynny lle ymddengys bod y sector yn llai effeithiol, dewiswyd dau awdurdod unedol yn lleoliadau astudiaethau achos i'w hastudio. Roedd y lleoliadau hyn yn Sir Ddinbych a Sir Benfro.

Fel canllaw wrth ddewis ar gyfer yr astudiaethau achos, graddiwyd y naw awdurdod unedol sydd, yn ôl diffiniad AWC, yn cwmpasu cefn gwlad Cymru yn ôl amrediad o feini prawf, y'u dewiswyd oherwydd eu bod yn dangos cyflenwad llafur. Y canlynol oedd y meini prawf hyn, sy'n seiliedig ar ddata NOMIS ar gyfer y flwyddyn 2003 - 2004:

- Canran uchaf o actifedd economaidd
- Canran uchaf heb gymwysterau
- Canran uchaf o ddiweithdra
- Canran uchaf o hawlwyr lwfans ceisio gwaith
- Canran isaf yn derbyn hyfforddiant perthnasol i'r gwaith
- Canran isaf cyflogaeth (ymysg y boblogaeth o oedran gwaith)
- Canran isaf yn gweithio mewn cyflogaeth amser llawn

I drefnu'r rhestr, yn gyntaf graddiwyd y 9 awdurdod ym mhob maen prawf. Dyfarnwyd pwyntiau rhwng 1 a 9 a'r awdurdod mwyaf 'difreintiedig' yn derbyn y sgôr uchaf. Yn Nhabl 4.1.1.1 isod, cyfraddau canran o ddata NOMIS yw'r rhifau heb gromfachau, a'r rhifau mewn cromfachau yw'r pwyntiau a ddyfarnwyd i'r awdurdodau unedol ym mhob maen prawf. Cyfrifwyd y drefn derfynol drwy adio pwyntiau pob awdurdod ar draws yr ystod o feini prawf, a'r cyfanswm uchaf yn cynrychioli'r awdurdod mwyaf 'difreintiedig'. Yn y tabl, mae'r awdurdodau unedol wedi'u rhoi yn ôl y drefn derfynol, a dangosir y cyfanswm pwyntiau heb gromfachau yn y golofn Sgôr.

**Tabl 4.1.1.1 Safleoedd Awdurdodau Unedol yn ôl meini prawf cyflenwad llafur**

| | Anactif Econ Uchaf | Dim Cymhwyst Uchaf | Diwei Uchaf | Hawlwyr LCG Uchaf | Hyffor Gwaith Isaf | Cyfradd Cyfl Isaf | Cyfl Ams-Ll Isaf | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 28.8 (9) | 18.7 (9) | 5.0 (6) | 2.1 (5) | 9.5 (9) | 67.6 (9) | 76.9 (1) | 48 |
| Sir Benfro | 25.6 (7) | 14.7 (3) | 5.4 (8) | 2.9 (8) | 10.5 (6) | 70.3 (7) | 68.6 (9) | 48 |
| Sir Fôn | 24.6 (6) | 17.2 (7.5) | 5.5 (9) | 3.0 (9) | 10.8 (5) | 71.3 (6) | 74.7 (4) | 46.5 |
| Ceredigion | 27.7 (8) | 13.0 (2) | 5.1 (7) | 1.3 (1) | 10.9 (4) | 68.6 (8) | 70.7 (7.5) | 37.5 |
| Conwy | 23.8 (4) | 17.2 (7.5) | 3.1 (3) | 2.1 (5) | 12.0 (3) | 73.8 (4) | 70.7 (7.5) | 34 |
| Gwynedd | 24.0 (5) | 14.8 (5) | 4.2 (5) | 2.3 (7) | 13.5 (1) | 72.9 (5) | 74.0 (5) | 33 |
| Sir Ddinbych | 21.9 (3) | 15.2 (4) | 3.7 (4) | 2.1 (5) | 13.2 (2) | 75.2 (3) | 76.5 (3) | 24 |
| Sir Fynwy | 21.6 (2) | 12.7 (1) | 2.6 (1) | 1.6 (2.5) | 9.6 (8) | 76.4 (2) | 71.4 (6) | 22.5 |
| Powys | 21.3 (1) | 17.0 (6) | 2.7 (2) | 1.6 (2.5) | 10.2 (7) | 76.5 (1) | 76.8 (2) | 21.5 |

Ar ben uchaf, 'difreintiedig' y rhestr, roedd Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn gyfartal gyda 48 points. Tybiwyd bod data NOMIS ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi'i ddylanwadu'n sylweddol drwy gynnwys ffigurau a ddeilliodd o nodweddion de-ddwyrain etholaeth Llanelli. Oherwydd y caiff yr ardal hon o Lanelli ei heithrio o ddiffiniad gweithio AWC o gefn gwlad Cymru yn aml, penderfynwyd dewis Sir Benfro ar gyfer yr astudiaeth achos mewn ardal 'difreintiedig'.

Ar gyfer awdurdodau a sgoriodd yn is, rhai llai 'difreintiedig', nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng Sir Ddinbych, Sir Fynwy a Phowys, a ffurfiai grwp amlwg o ardaloedd llai 'difreintiedig'. Ar ôl ystyried, dewiswyd Sir Ddinbych fel ardal ar gyfer yr ail astudiaeth achos. Cafodd y dewis hwn ei ddylanwadu gan bellter daearyddol Sir Ddinbych o Sir Benfro, ar echel gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin, a'i hygyrchedd cymharol o fewn cefn gwlad Cymru [gweler Mapiau t. 23 - 24].

### *4.1.2 Nodweddion Marchnadoedd Llafur Sir Ddinbych a Sir Benfro*

Mae'r dadansoddiad canlynol wedi'i seilio ar ddata NOMIS data ar gyfer 2003 -2004. Caiff y data a ddewiswyd ar gyfer Sir Ddinbych a Sir Benfro eu cymharu â data ar gyfer Cymru gyfan mewn cyfres o dablau ar y tudalennau nesaf. Mae NOMIS yn defnyddio sawl diffiniad sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Dangosir y rhain yn Atodiad 1, sydd hefyd yn cynnwys esboniad cryno o wallau a bylchau y daethpwyd o hyd iddynt yn nata NOMIS.

**Tabl 4.1.2.1 Cyfanswm y Boblogaeth, Oedran Gweithio, Economaidd Actif a Diweithdra**

| Categori | Nifer Dinbych (000oedd) | Canran Dinbych | Nifer Penfro (000oedd) | Canran Penfro | Canran Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Boblogaeth** | 94.9 | | 116.3 | | |
| Gwrywod | 45.5 | 48.0% | 56.2 | 48.3% | 48.5% |
| Benywod | 49.4 | 52.0% | 60.1 | 51.7% | 51.5% |
| **Pob Oedran Gweithio** [9] | 54.6 | 57.5% | 66.5 | 57.2% | 59.6% |
| Gwrywod | 28.3 | 62.1% | 34.2 | 60.9% | 62.8% |
| Benywod | 26.3 | 53.4% | 32.3 | 53.7% | 56.5% |
| **Economaidd actif** [10] | 43.0 | 78.1% | 49.0 | 74.4% | 74.2% |
| Gwrywod | 23.0 | 81.6% | 27.0 | 80.3% | 78.6% |
| Benywod | 20.0 | 74.3% | 22.0 | 68.2% | 69.6% |
| **Mewn gwaith** | 41.0 | 75.2% | 46.0 | 70.3% | 71.2% |
| Gwrywod | 22.0 | 77.3% | 25.0 | 75.3% | 74.8% |
| Benywod | 19.0 | 72.9% | 21.0 | 65.1% | 67.4% |
| **Gweithwyr** | 35.0 | 64.5% | 36.0 | 55.1% | 62.1% |
| Gwrywod | 17.0 | 62.1% | 19.0 | 55.2% | 61.8% |
| Benywod | 18.0 | 67.0% | 18.0 | 54.9% | 62.4% |
| **Hunangyflogedig** | 6.0 | 10.2% | 9.0 | 14.3% | 8.6% |
| Gwrywod | 4.0 | 14.8% | 6.0 | 19.0% | 12.5% |
| Benywod | 1.0 | 5.4% | 3.0 | 9.4% | 4.4% |
| **Di-waith** [11] | 2.0 | 4.7% | 3.0 | 5.4% | 4.9% |
| Gwrywod | 1.0 | 4.3% | 2.0 | 6.2% | 5.3% |
| Benywod | 1.0 | 5.0% | 1.0 | 4.4% | 4.4% |
| **Hawlwyr LCG** [12] | 1.2 | 2.1% | 1.9 | 2.9% | 2.4% |
| Gwrywod | 0.9 | 3.1% | 1.4 | 4.1% | 3.4% |
| Benywod | 0.3 | 1.1% | 0.5 | 1.6% | 1.2% |

[9] Poblogaeth o oedran gwaith – canranau'n seiliedig ar gyfanswm y boblogaeth
[10] Economaidd actif - canranau'n seiliedig ar y boblogaeth o oedran gweithio
[11] Diwaith - canranau'n seiliedig ar y boblogaeth economaidd actif
[12] Hawlwyr LCG - canranau'n seiliedig ar y boblogaeth o oedran gweithio

**Tabl 4.1.2.2** **Economaidd anactif** [13]

| Categori | Nifer Dinbych (000oedd) | Canran Dinbych | Nifer Penfro (000oedd) | Canran Penfro | Canran Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb** | 12.0 | 21.9% | 17.0 | 25.6% | 25.1% |
| Gwrywod | 5.0 | 18.4% | 7.0 | 19.7% | 21.0% |
| Benywod | 7.0 | 25.7% | 10.0 | 31.8% | 29.5% |
| **Eisiau swydd** | 3.0 | 4.7% | 3.0 | 5.0% | 5.6% |
| Gwrywod | 1.0 | 3.5% | 2.0 | 4.7% | 4.9% |
| Benywod | 1.0 | 4.9% | 1.0 | 5.2% | 6.3% |
| **Ddim eisiau swydd** | 9.0 | 17.2% | 14.0 | 20.7% | 19.6% |
| Gwrywod | 4.0 | 13.7% | 5.0 | 15.0% | 16.1% |
| Benywod | 5.0 | 20.8% | 9.0 | 26.7% | 23.1% |

**Tabl 4.1.2.3** **Cyflogaeth yn ôl Galwedigaeth**

Mae NOMIS yn defnyddio prif grwpiau Soc 2000 o fathau o alwedigaethau, a esbonnir yn Atodiad 1.[14]

| | Nifer Dinbych (000oedd) | Canran Dinbych | Nifer Penfro (000oedd) | Canran Penfro | Canran Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif grwp 1-3 | 17.0 | 39.4% | 16.0 | 33.2% | 36.1% |
| 1 Rheolwyr | 6.0 | 14.7% | 6.0 | 11.5% | 11.5% |
| 2 Pobl broffesiynol | 5.0 | 11.3% | 5.0 | 10.6% | 10.6% |
| 3 Proffesiynol gysylltiedig | 6.0 | 13.3% | 5.0 | 11.0% | 11.0% |
| Prif grwp 4 – 5 | 10.0 | 22.5% | 13.0 | 26.5% | 25.3% |
| 4 Gwein ac ysgrifenyddol | 4.0 | 9.7% | 5.0 | 10.1% | 12.2% |
| 5 Crefftau medrus | 5.0 | 12.2% | 8.0 | 16.3% | 13.0% |
| Prif grwp 6 – 7 | 8.0 | 18.1% | 8.0 | 16.8% | 16.2% |
| 6 Gwasanaeth personol | 4.0 | 9.8% | 5.0 | 9.6% | 7.9% |
| 7 Gwerthu/Gwasanaethau Cwsmeriaid | 4.0 | 8.3% | 3.0 | 7.1% | 8.3% |
| Prif grwp 8-9 | 8.0 | 20.0% | 11.0 | 23.5% | 22.3% |
| 8 Gweithrediadau prosesu, ffatrïoedd a pheiriannau | 4.0 | 8.9% | 4.0 | 8.1% | 9.7% |
| 9 Galwedigaethau elfennol | 5.0 | 11.1% | 7.0 | 15.3% | 12.6% |

[13] Economaidd anactif – Canrannau'n seiliedig ar y boblogaeth o oedran gweithio
[14] Mathau o alwedigaethau – Canrannau'n seiliedig ar bawb mewn cyflogaeth

**Tabl 4.1.2.4 Cymwysterau**

Mae'r holl ffigurau yn y tabl hwn yn seiliedig ar gyfanswm y boblogaeth o oedran gweithio. Gweler Atodiad 1 am esboniad o lefelau'r cymwysterau.

| | Nifer Dinbych (000oedd) | Canran Dinbych | Nifer Penfro (000oedd) | Canran Penfro | Canran Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| CGC4 ac uwch | 13.0 | 23.7% | 14.0 | 21.8% | 22.5% |
| CGC3 ac uwch | 22.0 | 40.5% | 27.0 | 40.9% | 40.2% |
| CGC2 ac uwch | 35.0 | 64.6% | 42.0 | 63.6% | 60.3% |
| CGC1 ac uwch | 42.0 | 76.6% | 52.0 | 78.3% | 74.2% |
| Cymwysterau eraill | 4.0 | 8.1% | 5.0 | 6.9% | 8.0% |
| Dim cymwysterau | 8.0 | 15.2% | 10.0 | 14.7% | 17.8% |

**Tabl 4.1.2.5 Swyddi gweithwyr**

Mae'r canrannau yn y tabl hwn yn seiliedig ar gyfanswm swyddi gweithwyr

| | Swyddi Gweith Dinbych | Dinbych % | Swyddi Gweith Penfro | Penfro % | Cymru % |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm swyddi gweithwyr | 33,716 | | 34,057 | | |
| Amser llawn | 21,324 | 63.2% | 19,713 | 57.9% | 68.1% |
| Rhan-amser | 12,392 | 36.8% | 14,344 | 42.1% | 33.8% |
| Gweithgynhyrchu | 4,456 | 13.2% | 2,981 | 8.8% | 16.1% |
| Adeiladu | 2,057 | 6.1% | 1,530 | 4.5% | 4.2% |
| Gwasanaethau | 27,014 | 80.1% | 29,329 | 86.1% | 77.9% |
| Dosbarthu, gwestai ayb | 7,931 | 23.5% | 10,923 | 32.1% | 23.5% |
| Cludiant a chyfathrebu | 1,560 | 4.6% | 1,614 | 4.7% | 4.6% |
| Cyllid, TG, busnes | 2,291 | 6.8% | 2,630 | 7.7% | 11.9% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd | 13,596 | 40.3% | 12,264 | 36.0% | 32.8% |
| Gwasanaethau eraill | 1,636 | 4.9% | 1,899 | 5.6% | 5.0% |
| Cysylltiedig â thwristiaeth [15] | 3,628 | 10.8% | 4,444 | 13.0% | 8.1% |

**Tabl 4.1.2.6 Dwysedd swyddi**

Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cymhareb cyfanswm y swyddi yn erbyn y boblogaeth o oedran gweithio

| | Swyddi Dinbych | Dwysedd Dinbych | Swyddi Penfro | Dwysedd Penfro | Dwysedd Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Dwysedd Swyddi | 42,000 | 0.8 | 45,000 | 0.7 | 0.7 |

[15] Gellir cynnwys swyddi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth mewn amryw gategori o swyddi Gwasanaeth. Yn ogystal, lle bo hyn yn glir, dangosir swyddi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ar wahân.

**Tabl 4.1.2.7 Busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW**

Mae cofrestriadau a dadgofrestriadau TAW, oherwydd eu bod yn adlewyrchu patrwm busnesau sy'n cychwyn ac yn cau, yn arwydd da o lefel mentergarwch ac iechyd y boblogaeth fusnes.

Noder y cyfrifwyd y ffigurau ar gyfer cefn gwlad Cymru, fel y'i diffinnir yn yr adroddiad hwn.

Mae'r canrannau wedi'u seilio ar stoc (ar ddiwedd blwyddyn 2003).

| | **Nifer Dinbych** | **Dinbych %** | **Nifer Penfro** | **Penfro %** | **Nifer Cefn gwlad Cymru** | **Cefn gwlad Cymru %** | **Cymru %** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cofrestriadau Newydd | 235 | 8.1% | 355 | 7.4% | 2,800 | 7.0% | 8.7% |
| Dadgofrestriadau | 255 | 8.8% | 350 | 7.3% | 3,135 | 7.9% | 8.8% |
| Stoc (diwedd blwyddyn) | 2,910 | | 4,790 | | 39,800 | | |

Mae'r dadansoddiad blaenorol yn pennu'r cyd-destun ar gyfer nodweddion penodol y farchnad lafur yn Sir Ddinbych a Sir Benfro. Gellir casglu nifer o bwyntiau amlwg o'r dadansoddiad hwn.

O ran y cyflenwad llafur, roedd gan Sir Benfro (66,500) ar 57.2% a Sir Ddinbych (54,600) ar 57.5% ganran is o boblogaethau o oed gweithio na Chymru gyfan ar 59.6%. Roedd cyfraddau diweithdra yn uwch yn Sir Benfro ar 5.4%, ac roedd Sir Ddinbych ar 4.7%, a 5.1% oedd cyfradd ddiweithdra Cymru. Roedd poblogaeth economaidd actif Sir Ddinbych ar 78.1% o'r boblogaeth o oed gweithio yn uwch na Sir Benfro ar 74.4%, a Chymru gyfan ar 74.2%. Yn gyfatebol, roedd gan Sir Ddinbych gyfraddau is o anactifedd economaidd (21.9%). Yn ôl rhyw, roedd gan Sir Ddinbych gyfradd o 18.4% o anactifedd economaidd ymhlith dynion, a chyfradd o 25.7% ymhlith merched. Roedd gan Sir Benfro gyfradd gyffredinol o anactifedd economaidd o 25.6%, gyda chyfradd o 19.7% ymhlith dynion, ond cyfradd uchel o 31.8% ymhlith merched. Y cyfraddau yn seiliedig ar ryw ar gyfer Cymru gyfan oedd (dynion) 21.4% a (merched) 30.4%. Mae cyfradd uchel anactifedd economaidd Sir Benfro ymhlith merched, ynghyd â'r 26.7% o ferched yn Sir Benfro sy'n anactif yn economaidd ac nad ydynt eisiau swydd (cyfradd Cymru 23.3%), yn awgrymu bod cyfran sylweddol o'r boblogaeth sy'n ferched yn Sir Benfro yn dewis peidio â gweithio. Hefyd, mae'r cyfraddau cymharol uchel o anactifedd economaidd a gofnodwyd ar gyfer Sir Benfro yn adlewyrchu'n fras y patrymau gofodol actifedd ac anactifedd economaidd a drafodwyd yn gynharach dan 3.1, gyda thuedd tuag at gyfraddau is actifedd economaidd yng ngorllewin cefn gwlad Cymru.

Mae data NOMIS yn dangos bod gan Sir Ddinbych (39.4%) ganran uwch o reolwyr a gweithwyr proffesiynol na Sir Benfro (33.2%) neu Gymru gyfan (36.1%). Roedd canran uchel Sir Ddinbych o reolwyr a gweithwyr proffesiynol yn awgrymu bod cyfatebiaeth â'i chanran o bobl o oed gweithio â chymwysterau CGC4 (DCU, gradd neu radd uwch) neu uwch - roedd gan Sir Ddinbych ganran o 23.7% o gymharu â 21.8% ar gyfer Sir Benfro a 22.5% ar gyfer Cymru.

Cymaint oedd y galw am lafur roedd gan Sir Ddinbych (63.2%) ganran uwch o bobl mewn swyddi amser llawn na Sir Benfro (57.9%), ac roedd y ddwy sir yn is na Chymru (66.2%). Roedd Sir Ddinbych yn gryfach yn y sector gweithgynhyrchu ar 13.2% o gymharu â Sir Benfro ar 8.8%, er bod y ddwy sir yn is na Chymru ar 16.1%. Mewn swyddi adeiladu, fodd bynnag, roedd Sir Ddinbych (6.1%) yn gryfach na Sir Benfro (4.5%) a Chymru (4.2%). Gwasanaethau oedd sectorau cryf Sir Benfro ar 86.1%, o gymharu â Sir Ddinbych (80.1%) a Chymru (77.9%), a swyddi'n gysylltiedig â thwristiaeth, gyda Sir Benfro ar 13.0% o gymharu â Sir Ddinbych (10.8%) a Chymru (8.1%).

### *4.1.3 Nodweddion busnes Sir Ddinbych a Sir Benfro*

Yn y sector busnes roedd gan Sir Benfro (4,790) fwy o stoc busnes na Sir Ddinbych (2,910). Hefyd, roedd gan Sir Benfro mwy o gofrestriadau ar gyfer TAW (355) y flwyddyn na Sir Ddinbych (235), ond roedd ganddi gyfradd is o gofrestriad TAW (7.4%) fel canran o'r stoc na Sir Ddinbych (8.1%) neu Gymru (8.7%). Yn yr un modd, roedd nifer blynyddol Sir Benfro o ddadgofrestriadau TAW (350) yn uwch nag yn Sir Ddinbych (255), ond roedd cyfradd dadgofrestriadau TAW Sir Benfro yn is na Sir Ddinbych (8.8%) neu Gymru (8.8%). Roedd cyfraddau isel Sir Benfro o gofrestriadau TAW blynyddol, ynghyd â'i chyfraddau cymharol uchel o hunangyflogaeth (14.3%) a nodwyd yn gynharach, yn awgrymu bod nifer sylweddol o gwmnïau bach neu 'fandiau un dyn' yn yr ardal. Mae'r mathau o fusnesau a fu'n destun arolwg yn Sir Ddinbych a Sir Benfro yn cael eu dangos yn Nhabl 4.2.1 nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, ac mae dadansoddiad sy'n dangos eu gweithgareddau busnes yn cael ei roi yn Nhabl 4.2.1.1

Mae angen amgylchedd sy'n ffafriol i fasnach ac entrepreneuriaeth ar fusnesau er mwyn iddynt allu ffynnu, ac agwedd bwysig ar yr amgylchedd busnes yw ansawdd y cymorth a'r cyngor sydd ar gael. Fel y nodwyd yn gynharach dan 3.2.4, mae data o Arolwg Busnes AWC yn dangos barn busnesau yng nghefn gwlad Cymru am ansawdd y cyngor busnes. Mae data ar gyfer Sir Ddinbych a Sir Benfro yn cael ei gymharu â data cyfun ar gyfer cefn gwlad Cymru. Sylwer bod Arolwg Busnes AWC wedi diffinio cefn gwlad Cymru fel Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fynwy, Sir Benfro, Powys, gyda Sir y Fflint, Bro Morgannwg a Wrecsam fel ychwanegiadau.

Yn gyntaf, gofynnwyd i fusnesau raddio ansawdd y cymorth a'r cyngor yn cael ei gynnig gan gyrff cyhoeddus cenedlaethol. Ar draws cefn gwlad Cymru, fe wnaeth 14.4% o fusnesau y gwnaethpwyd arolwg ohonynt raddio'r cymorth hwn fel cymorth da neu dda iawn; roedd 23.8% o'r farn ei fod yn foddhaol; a 21.2% o'r farn ei fod yn wael neu'n wael iawn; ac nid oedd y segment mwyaf, ar 40.6%, erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau cymorth busnes hyn. Y canlyniadau ar gyfer Sir Ddinbych oedd da 12.2%; boddhaol 25.7%; gwael 28.4%; ac nid oedd 33.7% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau – roedd mwy o fusnesau yn Sir Ddinbych o'r farn bod y gwasanaethau cymorth hyn yn wael neu'n wael iawn. Roedd gan Sir Benfro fwy o fusnesau a oedd o'r farn bod y gwasanaethau'n dda, ac roedd ychydig o gynnydd dros gefn gwlad Cymru mewn canfyddiadau gwael – y canlyniadau oedd da 18.5%; boddhaol 25.9%; gwael 23.7%; ac nid oedd 31.9% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau.

Gofynnwyd am raddau tebyg gan fusnesau cefn gwlad yng Nghymru mewn perthynas â darparwyr eraill cymorth a chyngor busnes. Awdurdodau lleol a gafodd eu defnyddio fwyaf fel darparwyr cymorth. Ar gyfer cefn gwlad Cymru y canlyniadau oedd da 14.9%; boddhaol 30.4%; gwael 27.3%; ac nid oedd 27.4% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau. Roedd y canlyniadau ar gyfer Sir Benfro gerllaw'r rheiny ar gyfer cefn gwlad Cymru. Dangosodd Sir Ddinbych leihad nodedig yn y canfyddiadau 'da neu dda iawn' ar 10.1% ond, i ryw raddau, roedd y ffigur uchel o

34.8% ar gyfer 'boddhaol' yn gwneud iawn am hyn. Y canlyniadau oedd - Sir Ddinbych: da 10.1%; boddhaol 34.8%; gwael 29.0%; ac nid oedd 26.1% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn – Sir Benfro: da 15.6%; boddhaol 29.6%; gwael 28.9%; ac nid oedd 25.9% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Ni chafodd defnydd da ei wneud o asiantaethau menter fel darparwr cyngor a chymorth busnes - y canlyniadau ar draws cefn gwlad Cymru oedd da 12.5%; boddhaol 21.5%; gwael 21.3%; ac nid oedd 44.7% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau. Dangosodd Sir Ddinbych a Sir Benfro gryn amrywio o gefn gwlad Cymru yn gyffredinol. Ar gyfer Sir Ddinbych y canlyniadau oedd da 10.1%; boddhaol 24.7%; gwael 33.3%; ac nid oedd 31.9% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau. Fe wnaeth busnesau Sir Benfro roi gradd uwch i asiantaethau menter - y canlyniadau oedd da 16.7%; boddhaol 19.7%; gwael 28.0%; er nad oedd 41.6% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau.

Ni chafodd defnydd da ei wneud o undebau a siambrau masnach, ac nid oedd busnesau o'r farn eu bod yn ddarparwyr da cymorth a chyngor busnes. Y canlyniadau ar draws cefn gwlad Cymru oedd da 7.1%; boddhaol 22.3%; gwael 17.2%; ond nid oedd 53.4% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau. Rhoddodd Sir Ddinbych radd isel ar gyfer canfyddiadau 'da' o'r gwasanaethau hyn – da 4.3%; boddhaol 24.3%; gwael 20.0%; ac nid oedd 51.4% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau. Roedd y canlyniadau ar gyfer Sir Benfro yn uwch ar gyfer 'da' ond roedd llai o fusnesau wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn – da 8.3%; boddhaol 15.8%; gwael 21.8%; ac nid oedd 54.1% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Yn olaf cafodd sefydliadau masnach eu hystyried ar gyfer yr arolwg hwn o gymorth a chyngor busnes. Unwaith eto, ni wnaethpwyd defnydd mawr iawn ohonynt. Y canlyniadau ar gyfer cefn gwlad Cymru oedd da 24.2%; boddhaol 23.0%; gwael 12.5%; ac nid oedd 40.3% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn. Roedd graddau Sir Ddinbych a Sir Benfro ar gyfer 'da' a 'boddhaol' gerllaw'r rheiny ar gyfer cefn gwlad Cymru. Yn fwyaf amlwg yn y fan hon oedd gradd 'wael' Sir Ddinbych ar 20.0%. Y canlyniadau yma oedd - Sir Ddinbych: da 24.3%; boddhaol 22.9%; gwael 22.0%; ac nid oedd 32.8% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn - Sir Benfro: da 22.6%; boddhaol 26.3%; gwael 13.6%; ac nid oedd 37.5% erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Mae data o Arolwg Busnes AWC yn dynodi proffwydoliaethau busnesau am eu maint yn y dyfodol o ran nifer y gweithwyr. Y canlyniadau ar gyfer cefn gwlad Cymru oedd bod 41.3% o fusnesau wedi rhagweld cynnydd yn nifer eu gweithwyr; roedd 6.2% wedi rhagweld gostyngiad; ac roedd 52.5% wedi rhagweld dim newid. Roedd busnesau Sir Ddinbych yn fwy optimistaidd, gyda 44.6% o fusnesau'n rhagweld cynnydd yn niferoedd y gweithwyr; i'r gwrthwyneb, rhagwelwyd gostyngiad gan 8.1%; a rhagwelodd 47.3% dim newid. Roedd busnesau Sir Benfro yn gyson fwy pesimistaidd, gyda chanlyniadau o 38.2% yn rhagweld cynnydd; 11.8% yn rhagweld gostyngiad; a 50.0% yn rhagweld dim newid.

Nid yw marchnadoedd llafur yn berffaith wrth reswm, ac mae graddfa o anghydweddu o hyd rhwng y galw am lafur a chyflenwad llafur. Mae'n ddefnyddiol archwilio'r rhesymau am yr anghydweddu o safbwyntiau busnesau a gweithwyr. O'r safbwynt busnes mae'r data canlynol, sy'n adlewyrchu ystod o agweddau sy'n effeithio ar y modd y mae busnesau'n denu gweithlu addas, wedi'i dynnu o Arolwg Busnes AWC. Mae'r canlyniadau'n cael eu cymharu â'r canlyniadau ar gyfer cefn gwlad Cymru gyfan.

Gofynnwyd i fusnesau raddio'u mynediad a'u hagosrwydd at weithlu cymwys a medrus. Ar gyfer cefn gwlad Cymru, roedd 30.4% o fusnesau'n ystyried bod mynediad yn dda neu'n dda iawn; roedd 28.8% o'r farn bod mynediad yn foddhaol; roedd y mater yn amherthnasol i 17.0%; ac

roedd 23.7% o’r farn bod mynediad yn wael neu’n wael iawn. Sir Ddinbych a roddodd y raddfa uchaf am fynediad da neu dda iawn, ar 40.0%, tra’r oedd Sir Benfro ychydig uwchlaw’r ffigur ar gyfer cefn gwlad Cymru (30.4%) ar 31.8%. Roedd y canlyniadau ar gyfer ‘boddhaol’ ar gyfer Sir Ddinbych a Sir Benfro yn is nag ar gyfer cefn gwlad Cymru (28.8%) ar 24.3% a 25.8% yn y drefn honno. Y canlyniadau ar gyfer busnesau a oedd o’r farn bod mynediad yn wael neu’n wael iawn oedd Sir Ddinbych (24.3%) a Sir Benfro (23.5%), ac mae’r ddwy ganran gerllaw’r ffigur ar gyfer cefn gwlad Cymru, sef 23.7%.

Gofynnwyd i fusnesau hefyd a oedd y diffyg gweithlu addas yn cael ei weld fel cyfyngiad ar fusnes. Yn Sir Ddinbych roedd 42.9% yn cytuno; roedd 47.6% yn anghytuno; ac nid oedd 9.5% yn gwybod. Ar gyfer Sir Benfro roedd 37.1% yn cytuno; roedd 56.5% yn anghytuno; ac nid oedd 6.4% yn gwybod. Roedd y canlyniadau hyn yn weddol debyg i’r rheiny ar gyfer cefn gwlad Cymru, lle’r oedd 39.2% yn cytuno ei fod yn gyfyngiad; roedd 54.8% yn anghytuno; ac nid oedd 6.0% yn gwybod.

Mae recriwtio gweithlu yn golygu cost i fusnesau, a gofynnwyd i’r busnesau hynny y gwnaethpwyd arolwg ohonynt i gategoreiddio faint o’u trosiant blynyddol a wariwyd ar recriwtio yn ystod 2003. Ar draws cefn gwlad Cymru gyfan, y canlyniadau oedd: gwariant mawr 12.2%; gwariant bach 36.2%; nid oedd 49.9% wedi gwario dim ar recriwtio; ac nid oedd 1.7% yn gwybod beth oedd eu gwariant. Roedd gan Sir Ddinbych fwy o fusnesau â gwariant mawr ar 13.7%; roedd ganddi lai o fusnesau â gwariant bach ar 34.2%; a mwy o fusnesau na wariodd o gwbl ar 52.1%. Roedd gan Sir Benfro lai o fusnesau â gwariant mawr ar 9.0%; mwy o fusnesau â gwariant bach ar 40.6%; a llai o fusnesau na wariodd dim ar recriwtio ar 48.9%. O’r data hwn, nid oedd recriwtio i weld yn ystyriaeth gyllidol fawr i fusnesau yng nghefn gwlad Cymru.

Defnyddiodd busnesau yng nghefn gwlad Cymru ystod o gyfryngau i hysbysebu am recriwtiaid potensial i’w cyflogi. Dangosir y data hwn ar gyfer Sir Ddinbych a Sir Benfro o’u cymharu â chefn gwlad Cymru, yn y tabl isod. Yn gyffredinol, mae’r cymariaethau hyn yn ategu’r data ar gyfer gwariant ar recriwtio, gyda chanrannau mawr o fusnesau’n dibynnu ar rwydweithiau lleol ac argymhellion ar lafar i gysylltu â gweithwyr potensial.

Tabl 4.1.3.1: Casglwyd o Arolwg Busnes AWC

| **Cyfryngau a dulliau recriwtio** | **Busnesau cefn gwlad Cymru gyfan** | **Busnesau Sir Ddinbych** | **Busnesau Sir Benfro** |
|---|---|---|---|
| Papur newydd lleol | 34.1% | 45.5% | 32.1% |
| Papur newydd cenedlaethol | 2.8% | 1.3% | 4.3% |
| Radio / teledu lleol | 2.7% | 1.3% | 4.3% |
| Rhyngrwyd | 4.9% | 3.9% | 2.9% |
| Ar lafar/Teulu a ffrindiau | 40.6% | 41.6% | 35.7% |
| Dulliau eraill | 8.2% | 5.2% | 4.3% |
| Dim | 13.1% | 18.2% | 17.1% |

Papurau newydd lleol, felly, oedd y cyfrwng ‘confensiynol’ a ddefnyddiwyd fwyaf i recriwtio, er mai dull ‘llafar’ yn gyffredinol oedd y dull mwyaf poblogaidd. Gellid cysylltu hyn ag

ymddiriedaeth a llai o ofyniad i sgrinio recriwtiaid. Dylid nodi'r canrannau cymharol uchel o fusnesau nad oeddent yn hysbysebu am recriwtiaid, yn enwedig yn Sir Ddinbych a Sir Benfro.

Nodwyd amrywiaeth o resymau gan fusnesau i gyfrif am anawsterau recriwtio gweithwyr. Mae'r data hwn ar gyfer Sir Ddinbych a Sir Benfro, o'i gymharu â chefn gwlad Cymru gyfan, yn cael ei ddangos yn y tabl isod.

Tabl 4.1.3.2: Casglwyd o Arolwg Busnes AWC

| **Problem recriwtio** | **Busnesau cefn gwlad Cymru gyfan** | **Busnesau Sir Ddinbych** | **Busnesau Sir Benfro** |
|---|---|---|---|
| Anhawster cyffredinol i recriwtio | 56.4% | 63.1% | 47.9% |
| Diffyg ymgeiswyr | 62.3% | 48.8% | 62.5% |
| Diffyg hyfforddiant academaidd / proffesiynol ymhlith ymgeiswyr | 47.7% | 41.5% | 48.2% |
| Diffyg profiad gwaith ymhlith ymgeiswyr | 65.7% | 68.3% | 53.6% |
| Diffyg medrau Saesneg ymhlith ymgeiswyr | 15.8% | 12.2% | 8.9% |
| Diffyg medrau Cymraeg ymhlith ymgeiswyr | 9.5% | 12.2% | 5.4% |
| Ymgeiswyr ddim yn gyrru/yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus | 31.5% | 31.7% | 28.6% |
| Problemau eraill | 10.0% | 0.0% | 14.3% |

Ar ôl eu recriwtio, mae hyfforddi gweithwyr yn gost i fusnesau. Gofynnwyd i fusnesau yng nghefn gwlad Cymru i gategoreiddio'u gwariant ar hyfforddiant fel cyfran o'u trosiant blynyddol. Ar draws cefn gwlad Cymru gyfan, y canlyniadau oedd: gwariant mawr 13.6%; gwariant bach 41.5%; nid oedd 43.7% wedi gwario dim; ac nid oedd 1.3% yn gwybod. Y canlyniadau ar gyfer Sir Ddinbych oedd: gwariant mawr 11.0%; gwariant bach 49.3%; dim gwariant 39.7%; ac nid oedd 0.0% yn gwybod. Ar gyfer Sir Benfro, y canlyniadau oedd: gwariant mawr 14.1%; gwariant bach 39.3%; dim gwariant 44.4%; ac nid oedd 2.2% yn gwybod.

Mae'r data hwn ar gyfer Sir Ddinbych a Sir Benfro o ran gwariant ar hyfforddi gweithwyr yn dangos tueddiadau tebyg i'r data ar gyfer cefn gwlad Cymru gyfan. Un pwynt pwysig yw'r canrannau cymharol uchel o fusnesau nad ydynt yn gwario ar hyfforddiant, yn Sir Ddinbych, Sir Benfro a chefn gwlad Cymru: gydag oddeutu 40% ddim yn gwario ar hyfforddiant.

Hefyd, nododd busnesau amrywiaeth o rwystrau rhag hyfforddi gweithwyr. Mae’r data hwn ar gyfer cefn gwlad Cymru, Sir Ddinbych a Sir Benfro yn cael ei ddangos yn y tabl isod.

Tabl 4.1.3.3: Casglwyd o Arolwg Busnes AWC

| **Rhwystr rhag hyfforddi gweithwyr** | **Busnesau cefn gwlad Cymru gyfan** | **Busnesau Sir Ddinbych** | **Busnesau Sir Benfro** |
|---|---|---|---|
| Cost | 31.9% | 35.1% | 39.3% |
| Dim digon o amser / amser yn cael ei golli i hyfforddiant | 37.9% | 49.4% | 38.6% |
| Darpariaeth hyfforddiant anaddas | 14.3% | 16.9% | 14.3% |
| Darpariaeth hyfforddiant anhygyrch | 15.4% | 19.5% | 19.3% |
| Diffyg penodoldeb yn y cyrsiau hyfforddi sy’n cael eu cynnig | 17.8% | 23.4% | 22.1% |
| Ffactorau eraill | 4.4% | 4.7% | 4.3% |

Roedd rhyw elfen o gydrywiaeth yn y data hwn. Ar draws cefn gwlad Cymru, Sir Ddinbych a Sir Benfro, roedd cost yn cael ei weld fel rhwystr mawr rhag hyfforddi. Y canfyddiad oedd, fodd bynnag, mai dim digon o amser i hyfforddi neu amser yn cael ei golli i hyfforddiant oedd y rhwystr mwyaf. Gan gymryd y tair ardal unigol, gan Sir Ddinbych oedd y ganran uchaf o fusnesau’n nodi rhwystrau rhag hyfforddi ar gyfer pob math o rwystr ac eithrio cost, lle’r oedd Sir Ddinbych yn dal yn uchel. Yn wir, o’r busnesau hynny a nododd ‘Dim digon o amser / amser yn cael ei golli i hyfforddiant’ fel rhwystr, roedd gan Sir Ddinbych (49.4%) 10.8% yn fwy na Sir Benfro (38.6%) ac 11.5% yn fwy na chefn gwlad Cymru (37.9%).

## 4.2 Dewis Busnesau'r Astudiaeth Achos

At ddiben yr ymchwil hon, cafodd busnesau’r astudiaeth achos eu dewis o’r gronfa ddata o fusnesau cefn gwlad a oedd eisoes yn bod, ac a gasglwyd yn ystod Cyfnod 1 rhaglen ymchwil AWC.

O’r cyfanswm o 77 o fusnesau ar gyfer Sir Ddinbych a ymatebodd i’r arolwg busnes gwreiddiol, roedd 27 wedi nodi eu bod yn barod i ni ailgysylltu â nhw. Yn Sir Benfro, ymatebodd gyfanswm o 140 o fusnesau, gyda 63 o’r rhain yn nodi eu bod yn hapus i ni ailgysylltu â nhw.

Wrth amcanu i ddewis sampl o ymatebwyr o’r garfan botensial o fusnesau ym mhob un o’r awdurdodau unedol, rhoddwyd blaenoriaeth i sicrhau safbwyntiau perchenogion o ystod o fusnesau gwahanol gan ystyried maint (nifer y gweithwyr), math (sector busnes) a lleoliad (o fewn yr Awdurdod unigol). O fewn y nodau hyn, cafodd cyfanswm o 20 o fusnesau eu cyfweld o bob awdurdod unedol. Mae Tabl 4.2.1, ar y dudalen ganlynol, yn dangos yr ystod o fusnesau a gafodd eu cyfweld yn y ddau leoliad.

Tabl 4.2.1 Lledaeniad yr ymatebwyr i'r cyfweliad yn ôl maint, math a lleoliad

| | | Ymatebwyr Sir Ddinbych | Ymatebwyr Sir Benfro |
|---|---|---|---|
| Maint busnes | 1 – 4 o weithwyr | ✓ | ✓ |
| | 5 – 9 o weithwyr | ✓ | ✓ |
| | 10 – 24 o weithwyr | ✓ | ✓ |
| | 25 – 49 o weithwyr | ✓ | ✓ |
| | 50 – 99 o weithwyr | ✓ | ✓ |
| | | | |
| Math o fusnes | Llety, bwyd a diod (etc) | ✓ | ✓ |
| | Adeiladu | ✓ | ✓ |
| | Cludiant | ✓ | ✓ |
| | Manwerthu | ✓ | ✓ |
| | Elusennol/ Cymdeithasol | ✓ | ✓ |
| | Gwasanaethau | ✓ | ✓ |
| | Gweithgynhyrchu | ✓ | ✓ |
| | Cyfanwerthu | ✓ | ✓ |
| | | | |
| Lleoliad y busnes<br><br>Yn ôl y dref neu'r pentref agosaf | | Corwen | Hwlffordd |
| | | Dinbych | Aberteifi |
| | | Llanelwy | Dinbych-y-pysgod |
| | | Rhyl | Crymych |
| | | Llangollen | Abergwaun |
| | | Prestatyn | Arberth |
| | | | Cilgeti |
| | | | Saundersfoot |
| | | | Penfro |
| | | | Aberdaugleddau |

### *4.2.1 Categoreiddio busnesau yn Sir Ddinbych a Sir Benfro*

Roedd y busnesau a gafodd eu cyfweld yn Sir Ddinbych a Sir Benfro ar gyfer yr adroddiad, felly, yn amrywio o ran maint, o unig fasnachwyr i'r rheiny'n cyflogi hyd at 57 o bobl. Hefyd, cafodd y rhai a gafodd eu cyfweld yn y ddwy ardal eu tynnu o bob sector busnes. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae data Arolwg Busnes AWC a data NOMIS a gafodd ei ddadansoddi a'i drafod yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yn dechrau datgelu strwythur amlinellol y dirwedd fusnes yn Sir Ddinbych a Sir Benfro. I roi cnawd i'r strwythur hwn, mae angen i ni dyllu i mewn i'r data hwn; i gategoreiddio busnesau yn yr ardaloedd hyn, i ddisgrifio'r hyn mae'r busnesau a gafodd eu cyfweld yn ei wneud mewn gwirionedd, a chael rhywfaint o ddealltwriaeth o ba fathau o fusnes sy'n gweithredu yng nghefn gwlad Cymru. Yn gyntaf, mae'n ddefnyddiol edrych ar ddadansoddiad ar ffurf tabl o'r busnesau a gafodd eu cyfweld, a ddangosir ar y dudalen ganlynol.

Tabl 4.2.1.1 Busnesau a gafodd eu cyfweld yn ôl gweithgarwch a nifer y gweithwyr yn yr ardal

| **Gweithgarwch Busnes** | **Sir Ddinbych – Nifer y busnesau a (nifer y gweithwyr). e.e. A(53); B(10)** | **Sir Benfro – Nifer y busnesau a (nifer y gweithwyr). e.e. A(10); B(4)** |
|---|---|---|
| Llawr resin | A(14) | |
| Adeiladwyr | A(9) + Weldio ar gyfer busnesau amaethyddol | A(10)<br>B(4)<br>C(57) – Peirianyddion sifil |
| Contractwyr trydanol | | A(2) |
| Gwaith saer | | A(26) |
| Concrid parod | | A(10) |
| Cyflenwi gwydr | A(4) | |
| Gwaith gwydr | A(5) - – gweithgynhyrchu a manwerthu | |
| Tafarndy | A(2) | |
| Gwesty | A(53)<br>B(10) | A(30) |
| Bwyty | A(6) + llety | A(15) + siop cyfleustra |
| Caffi a bar brechdanau | A(9) | |
| Siop | A(26) – SPAR | A(4 ) – Cyfanfwyd llysieuol<br>B(17) – Pobydd ac archfarchnad<br>C(12) – Fferyllfa a gofal iechyd |
| Cartref gofal preswyl | A(23)<br>B(23) | A(18)<br>B(30) |
| Contractiwr amaethyddol | A(5) | |
| Gwasanaethau coed | | A(3) |
| Peiriannau amaethyddol | | A(16) – manwerthu |
| Cydweithfa ffermwyr | A(17) | |
| Cynhyrchu wyau | | A(3) – cyfanwerthu |
| Bwtsiera organig | | A(35) – cyfanwerthu a manwerthu |
| Maes carafannau | A(2) | |
| Cludiant | A(8) – Contractiwr cludo | A(4) – Gwasanaethau cludiant |
| Arddangosle ceginau ac ystafelloedd ymolchi | A(13) | |
| Offer pysgota a phlu pysgota | A(6) Manwerthu a gweithgynhyrchu | |
| Celfi meddal | A(4) | |
| Gwasanaethu peiriannau gwnïo a gwau | A(4) | |
| Technoleg Gwybodaeth | | A(20) |

Gan droi yn gyntaf at Sir Ddinbych, ymhlith y busnesau a gafodd eu cyfweld oedd y rheiny a oedd yn cael eu cysylltu'n draddodiadol â lleoliadau œfn gwlad fel tafarndai a siopau pentref. Roedd busnesau eraill yn y sector llety, bwyd a diod yn cynnwys caffis a bwyty. Ac er nad oedd yr arolwg gwreiddiol yn cynnwys ffermydd, cafodd y cysylltiad gwledig traddodiadol ag amaethyddiaeth ei gynnal trwy gyfweliadau â chydweithfeydd ffermwyr a chontractiwr amaethyddol. Roedd diddordebau hamdden cefn gwlad yn cael eu cynrychioli gan faes carafannau a siop offer pysgota. Roedd y busnes olaf hwn yn pontio'r gwahaniaeth rhwng y sectorau manwerthu a gweithgynhyrchu yn gymaint â'i fod yn gwneud ac yn gwerthu gwialenni a phlu pysgota. Aethpwyd i mewn i farchnadoedd arbenigol hefyd gan fusnes celfi meddal; gwaith gwydr bach a oedd yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd; arddangosle ceginau ac ystafelloedd ymolchi; a chan fusnes a oedd yn cynnal a chadw ac yn gwasanaethu peiriannu gwnïo a gwau. Mae busnesau bach yn y sectorau adeiladu a chludiant yn tueddu dod o hyd i leoliadau cefn gwlad, ac yma roedd cyflenwyr gwydr, busnes lloriau resin, contractiwr cludo, a chwmni'n darparu gwasanaeth weldio i'r sector amaethyddol a gwaith adeiladu cyffredinol. Y duedd ymhlith y

busnesau a drafodwyd uchod oedd cyflogi dan 20 o bobl, ond y busnesau a gafodd eu cyfweld yn Sir Ddinbych a oedd yn cyflogi'r mwyaf o bobl oedd gwestai a chartrefi gofal preswyl i'r henoed, gyda'r gwesty mwyaf yn cyflogi 53 o bobl, a dros 20 o weithwyr gan y cartrefi gofal.

I ryw raddau roedd y patrwm rhifiadol hwn o gyflogaeth yn ôl sector yn cael ei ailadrodd yn Sir Benfro, gyda gwestai a chartrefi gofal preswyl i'r henoed ymhlith y busnesau mwyaf a gyfwelwyd. Roedd nifer y gweithwyr yn y busnesau hyn yn debyg i Sir Ddinbych. Roedd busnesau cymharol fawr eraill, fodd bynnag, o ran niferoedd y gweithwyr. Roedd y rhain yn cynnwys contractiwr peirianneg sifil ac adeiladu gyda 57 o weithwyr; safle bwtsiera organig cyfanwerthu, a chanddo gangen fanwerthu yn ogystal, yn cyflogi 35 o weithwyr; busnes TG gyda dros 20 o weithwyr; a saer coed â 26 o weithwyr. Roedd busnesau llai yn y sector adeiladu a gyfwelwyd yn cynnwys mân adeiladwyr, contractiwr trydanol a busnes concrid parod. Dywedodd rhai o'r busnesau adeiladu hyn eu bod yn darparu gwasanaethau i ffermwyr, ac roedd y cysylltiad gwledig ag amaethyddiaeth yn bresennol hefyd mewn manwerthwyr peiriannau amaethyddol, cynhyrchwyr wyau cyfanwerthu, ac, yn fwy prin, gan fusnes gwasanaethau coed. Roedd y sector manwerthu'n cael ei gynrychioli gan fathau amrywiol o siopau, fel pobydd bach ac archfarchnad, a siop cyfleustra, tra'r oedd fferyllfa, ag ynddi adran gofal iechyd yn ogystal, a siop cyfanfwyd llysieuol, yn ceisio dal marchnadoedd arbenigol.

## 4.3 Cyflwyno a Dadansoddi'r Arolwg

### *4.3.1 Techneg cyfweld dros y ffôn*

Roedd y dechneg cyfweld dros y ffôn yn effeithiol iawn yng nghyd-destun yr ymchwil hon. A'r rheswm dros gyfran sylweddol y llwyddiant hwn oedd bod gwybodaeth am y busnesau unigol eisoes wedi'i chasglu o Gyfnod 1 yr Arolwg Busnes. Wrth fynd ymlaen ar y sylfaen hon, esgorwyd ar nifer o fuddion:

*Cyfradd ymateb uchel*

Ar y cyfan, roedd perchenogion busnes yn fwy parod o lawer i dderbyn y syniad o gyfweliad byr dros y ffôn. A hynny am fod perthynas eisoes wedi'i hadeiladu gyda'r ymatebwyr o ganlyniad iddynt fod wedi cwblhau'r arolwg blaenorol, a, thrwy wneud hynny, yn dangos eu bod yn hapus i ni ailgysylltu â nhw. Yn wir, dim ond mewn dau achos y gwnaeth ymgeiswyr o'r darpar restr wreiddiol o ymatebwyr wrthod y cais am gyfweliad.

*Casglu data'n effeithlon*

Oherwydd bod set ddechreuol o wybodaeth eisoes wedi'i chasglu ar gyfer pob busnes (er bod y mwyafrif ohoni wedi'i seilio ar gwestiynau 'atebion caeëdig'), golygodd hyn y gellid cynnal cyfweliad â llawer mwy o ganolbwynt, ac i ryw raddau, wedi'i deilwra'n unigol. O gofio'r pwysau amser uchel yr oedd mwyafrif y perchenogion busnes yn eu hwynebu, golygodd y man cychwyn uwch hwn y gellid llunio gwybodaeth gymharol fanwl am heriau'r farchnad lafur yr oedd pob astudiaeth achos yn eu hwynebu, a hynny heb roi mwy o faich nag yr oedd ei angen ar yr ymatebydd. Hefyd, golygodd y raddfa ymddiriedaeth a sefydlwyd trwy drafodion blaenorol, er enghraifft, bod ymatebwyr yn fwy parod i roi manylion personol am eu perthynas weithio â'u staff.

*Penodoldeb*

Cyn cynnal y cyfweliadau ffôn, dadansoddwyd yn unigol yr holl ddata perthnasol a oedd eisoes yn cael ei chadw ar gyfer pob un o'r busnesau. Nid yn unig y bu hyn yn gymorth i greu trosolwg eang o natur heriau'r farchnad lafur yng nghefn gwlad Cymru, ond ar ôl hynny bu'n gyfrwng datblygu rhestr o gwestiynau cyfweliad a oedd yn cynnwys y cyffredinol a'r penodol. I bob pwrpas, golygodd hyn y gellid annog perchenogion busnes i roi ymatebion ar dair set o faterion: yn gyntaf, egluro, newid neu ehangu ar gyfleoedd potensial a / neu fygythiadau yr oeddent wedi'u codi'n gyntaf yn ystod Cyfnod 1 ymchwil AWC; yn ail, rhoi barn wybodus, ar sail eu profiad eu hunain, o'r hyn yr oeddent yn ei weld fel agweddau cadarnhaol a negyddol ar (yn ogystal â chymhelliant ar gyfer) ffynonellu'u llafurlu o gefn gwlad Cymru; ac yn drydydd, awgrymu unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i ansawdd cyffredinol / cydweddoldeb y cyflenwad llafur.

### *4.3.2 Dewis a chyflwyno cwestiynau'r cyfweliad ffôn*

Lluniwyd y cyfweliadau ffôn i bara rhyw ddeng munud. Fe'u cynhaliwyd gan berchennog / rheolwr y busnesau unigol (sef, ym mwyafrif yr achosion, yr un person a oedd wedi llenwi'r holiadur gwreiddiol). Mae Tabl 4.3.2 yn rhoi dadansoddiad o'r math o gwestiynau a ofynnwyd yn ystod y cyfweliadau ffôn. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn flaenorol o Gyfnod 1 nodweddion rhaglen ymchwil AWC yn cynnwys cyfran sylweddol o'r cwestiynau penodol a ofynnwyd a symbylydd ar gyfer ymholiadau mwy cyffredinol ychwanegol.

Tabl 4.3.2 – Detholiad o gwestiynau'r cyfweliad

| Categori | Cwestiynau a ofynnwyd |
|---|---|
| Data dechreuol wedi'i chymhwyso<br>(*Fel y'u cafwyd o gwestiynau 'atebion caeëdig' a ddarparwyd yng Nghyfnod 1 yr Arolwg Busnes)* | Maint y busnes<br>Math o fusnes<br>Lleoliad y busnes<br>Cyfansoddiad staff<br>Pellter teithio i'r gwaith i'r staff<br>Dyheadau ar gyfer twf y busnes<br>Cymhellion am (beidio ag) ystyried adleoli<br>Dyraniad gwariant i hyfforddiant / recriwtio<br>Dulliau recriwtio<br>Rhwystrau rhag hyfforddi / recriwtio<br>Effeithiolrwydd canfyddedig y ffynonellau amrywiol cymorth busnes<br>Manteision o fod yng nghefn gwlad Cymru<br>Anfanteision o fod yng nghefn gwlad Cymru<br>Cynaladwyedd busnes a ragwelir |
| | |
| Gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol, wedi'i theilwra yn ôl natur y busnes unigol | Newid / diweddaru angenrheidiol i unrhyw un o'r uchod<br>Sylfaen ar gyfer ymatebion 'anarferol' (os rhoddir i unrhyw un o'r uchod)<br>Rheswm dros gydbwysedd amser llawn / rhan-amser yng nghyfansoddiad y staff<br>Argaeledd llafurlu o safon fel y dylanwada ar:<br>- ddyheadau ar gyfer twf busnes<br>- dymunoldeb adleoli busnes<br>- manteision / anfanteision o fod yng nghefn gwlad Cymru<br>- cynaladwyedd busnes a ragwelir<br>Effeithiolrwydd dulliau recriwtio<br>Natur yr hyfforddiant staff a gymhwyswyd<br>Effaith unrhyw rwystrau rhag hyfforddi (*fel y nodwyd yn flaenorol*)<br>Cysylltiad â sefydliadau addysg lleol |
| Cwestiynau generig a ofynnwyd i bob ymatebydd | Asesiad o ansawdd cyffredinol y farchnad lafur leol<br>Syniadau ar gyfer gwella ansawdd cyffredinol y farchnad lafur leol<br>Dewisiadau ynghylch argaeledd gwell ymgeiswyr o safon a / neu mwy o gymorth i hyfforddi gweithwyr<br>Effeithiau a ragwelir ar broffidioldeb / cynaladwyedd busnes yn sgil gwelliannau yn y cyflenwad llafur |

### *4.3.3 Themâu'r Dadansoddiad*

Ar y ddealltwriaeth na fyddai unrhyw ymatebion yn cael eu priodoli i fusnesau unigol, cytunodd pob un o'r ymatebwyr y gellid recordio'u cyfweliadau a'u hadysgrifio'n llawn. Gyda'r parodrwydd hwn i dderbyn, law yn llaw â didwylledd eu hymatebion, darparwyd sylfaen gadarn o ddeunydd crai ar gyfer dadansoddi data dilynol.

Mae Tabl 4.3.3 yn rhestru'r themâu y cafodd data'r cyfweliadau ei ddadansoddi yn eu herbyn. Trwy strwythuro'r gwaith dadansoddi yn y modd hwn, roedd modd adnabod unrhyw gonsensws neu wahaniaeth barn rhwng perchenogion busnes, yn ogystal â gwerthfawrogi presenoldeb (neu yn wir, absenoldeb) unrhyw elfennau cysylltiol neu briodweddau generig rhwng y themâu. Ym mhob achos, cafodd y data a gasglwyd gan ymatebwyr unigol ei ddadansoddi o fewn yr haenau cymharol canlynol:

- Awdurdod Unedol
- Maint y busnes (wedi'i bennu yn ôl bandiau maint gweithwyr)
- Math o fusnes (wedi'i gategoreiddio yn ôl sector)

Tabl 4.3.3 – Haenau a Themâu'r Dadansoddiad

| **Haenau a Themâu'r Dadansoddiad** | |
|---|---|
| Strategaethau rheoli | Oriau'n cael eu gweithio gan y perchennog/rheolwr yn adlewyrchu materion staffio |
| | Yr ymresymiad y tu ôl i gyfansoddiad cydbwysedd staff – rhan-amser/amser llawn; merched/dynion; aelodau teulu; siaradwyr Cymraeg |
| | Maint/cyfansoddiad disgwyliedig y staff yn y dyfodol agos, a'r berthynas rhwng dyheadau ar gyfer twf y busnes a materion staffio |
| | |
| Strategaethau recriwtio | Dewisiadau recriwtio'n lleol/pellter gweithwyr o'r adeilad |
| | Dulliau recriwtio |
| | Rhwystrau rhag recriwtio |
| | |
| Strategaethau hyfforddi | Dull/natur hyfforddiant gweithwyr |
| | Rhwystrau rhag hyfforddi gweithwyr |
| | |
| Cymorth allanol | Ansawdd/cymorth diwydiannau gwasanaethau busnes |
| | Rhyngweithio â a/neu rôl colegau, prifysgolion a sefydliadau addysg eraill |
| | |
| Effeithiau cysylltiedig | Y berthynas rhwng dyheadau i adleoli a materion staffio |
| | Manteision/anfanteision o fod yng nghefn gwlad Cymru, fel yr ymwnânt â materion staffio |
| | Cyfyngiadau ar y farchnad lafur fel problem benodol i gefn gwlad |
| | |
| Cydweddu'r galw â'r cyflenwad | Symud safbwynt polisi cyhoeddus |
| | Y berthynas rhwng proffidioldeb/cynaladwyedd busnes a materion yn ymwneud â'r farchnad lafur |

# Adran 5 – Canlyniadau ar gyfer Sir Ddinbych a Sir Benfro

## 5.1 Cyflwyniad

Nodir isod y dadansoddiad o natur perthnasoedd yn y farchnad lafur yn Sir Ddinbych a Sir Benfro, fel y'u canfyddir gan y sampl o berchenogion busnesau cefn gwlad. Mae strwythur y rhan hon o'r adroddiad yn adlewyrchu nid y dull dadansoddi'n unig, ond hefyd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwil empirig. Mae'n bortread o gymhlethdodau nodedig perthnasoedd gweithwyr cyflogedig busnesau cefn gwlad o dan y pum prif ddimensiwn a ganlyn: cyfansoddiad staff, recriwtio, hyfforddi staff, cefnogaeth fusnes allanol, a rhai o effeithiau polisi. Mae'r holl ddata ansoddol wedi'i ddadansoddi, a defnyddir yma ddau ddyfyniad dethol o'r ddau faes astudiaeth i nodi ac enghreifftio'r prif dueddiadau yn y setiau data. Lle mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddau faes astudiaeth achos, nodir y rhain yn y testun.

## 5.2 Canlyniadau – Sir Ddinbych a Sir Benfro

### 5.2.1 *Cyfansoddiad staffio*

Rhoddwyd nifer o resymau dros ddefnyddio naill ai mwyafrif o staff amser llawn neu ran-amser neu, gymysgedd o'r ddau. I lawer, serch hynny, roedd yn gwestiwn o orfod cyflawni cydbwysedd rhwng bodloni anghenion y busnes, ond hefyd, bodloni anghenion y gweithlu. Gan ystyried y cyntaf o'r rhain, ar gyfer y sector llety, bwyd a diod yn benodol, roedd staff rhan-amser yn cael eu ffafrio oherwydd natur dymhorol y busnes:

> "… wrth chwilio am gymorth proffesiynol amser llawn, allwn i ddim cynnal cyflog cyson iddynt gan nad oes gen i ddigon o waith o hyd... mae llawer o waith rhai diwrnodau, ddydd a nos, neu fe allwn i fod yn gweithio tridiau'r wythnos... mae'n dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn."

Fel y dangosir drwy'r sylw canlynol gan un ymatebydd yn y sector manwerthu, serch hynny, nid felly y mae hi yn gyffredinol:

> "Rwy'n credu eu bod [staff amser llawn] yn haws o lawer i'w hamserlennu a bod yn deg, credaf po fwyaf o staff rhan-amser sydd gennych, mwya'n y byd y byddwn yn gorfod eu hamserlennu, a gorfod trefnu rhestrau gweithio, rhywbeth arall eto na allwn fwy na thebyg fforddio'r amser i'w wneud yn ystod fy niwrnod gwaith. Felly, rydym yn ceisio cyflogi pawb ar sail amser llawn parhaol..."

Nid oedd y dasg o gynnal cydbwysedd rhwng anghenion y staff ac anghenion y busnes i weld yn un feichus o angenrheidrwydd ar y naill barti na'r llall o hyd:

> "Y math o waith ydyw'n llwyr yw'r rheswm dros ran-amser, mae'n waith shifft, a dyna mae pobl ei eisiau, ac mae'n cydweddu'n dda hefyd â'r ffordd mae'n [y busnes] rhedeg."

Yn amlwg, serch hynny, er y gall fod yn haws weithiau i ddenu staff rhan-amser ar gyfer rhai mathau o swyddi, nid oedd hyn yn rheswm ddigon da dros wneud hynny o hyd. Oherwydd, fel yr atebodd un ymatebydd o'r sector adeiladu pan ofynnwyd iddo am ei reswm dros gyflogi staff amser llawn yn hytrach na staff rhan-amser:

> “Yn syml am na allwch ymddiried mewn pobl ran-amser i wneud y gwaith, nid oes gennych gymaint o reolaeth drostyn nhw.”

Yn Sir Benfro, yn enwedig yn y sector manwerthu bach, a llety, bwyd a diod, roedd barn bod staff rhan-amser yn haws i’w recriwtio oherwydd y nifer fwy o bobl ganol oed yn y boblogaeth fewnfudol:

> “Ychydig iawn o bobl sy’n gallu gweithio’n amser llawn, mae’r rhan fwyaf o bobl y gwelaf y gallaf eu cyflogi yn dymuno gweithio diwrnod neu ddau yr wythnos yn unig am eu bod yn bobl hyn neu’n bobl â theuluoedd, y math yna o beth, felly mae’n anodd iawn dod o hyd i unrhyw un sydd eisiau gweithio’n amser llawn.”

> “Mae gennym adnodd anferth yn y farchnad sydd wedi lled-ymddeol…mae gennym ganran fawr iawn yn Sir Benfro o bobl eithaf proffesiynol sydd wedi ymddeol yn gynnar. Dim ond tridiau yr wythnos y maent yn dymuno gweithio mewn gwirionedd, ac yn y tridiau hynny maent yn gwneud gwaith rhagorol, ond daw’n broblem o safbwynt yr hyfforddeion sydd yn hoffi cysondeb.”

> “Yr hyn ydyw mewn gwirionedd yw cyfansoddiad y gymuned leol o’r bobl hynny sy’n gallu dod i mewn, mae’n siwr y byddai’n well gen i gael mwy o staff amser llawn, ond yn syml iawn dydyn nhw ddim ar gael.”

Roedd hyn, mewn rhai achosion, yn gysylltiedig hefyd â barnau pesimistaidd ynghylch dyfodol y busnes; roedd un manwerthwr bach yn Sir Benfro yn dadlau:

> “Yn gyffredinol mae’r siopau yn y pentrefi yn y cylch hwn yn dirywio’n bendant, mae eu busnes yn dirywio, a bydd yn dirywio ymhellach, felly mae’n rhywbeth cynyddol, ac mae wedi bod yn dirywio er 2001’……Mae’n dipyn o ymdrech ar hyn o bryd, a gallaf ragweld nawr y bydd mwy yn fwy o ymdrech i mi cyn y bydd yn rhaid i mi werthu’r siop yn y pen draw neu’i chau, a fyddai’n waeth fyth.”

I nifer o fusnesau, aeth y mater cyfansoddiad staffio ymhellach na pha un ai staff amser llawn neu ran-amser oedd yn cael eu ffafrio, i ba un ai staff yn cynnwys aelodau teulu oedd y dewis mwyaf dymunol. Roedd cymhellion dros ddewis felly yn cynnwys ffactorau cost:

> “Wel, chi’n gwybod, mae’n arbed ar gostau yn fwy na dim arall.”

Hefyd, roedd materion ymddiriedaeth:

> “Ni allaf feddwl am ateb syml, mae’n fusnes teuluol... dim ond y ffaith eich bod yn gwybod bod y busnes wastad mewn dwylo da os awn i ffwrdd, mae’n rhywbeth ry’n ni wedi arfer ei wneud erioed.”

Yn Sir Benfro, gwelir llafur teulu fel rhywbeth ‘mwy dibynadwy’, ac mae aelodau teulu’n gallu gweithio’r oriau hir y mae’n ofynnol eu gweithio mewn llawer o fusnesau bach (dros 100 awr yr wythnos weithiau). Mae busnesau yn y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth, cludiant, cyfanwerthu a manwerthu yn gofyn am weithio oriau hir, ac aelodau teulu sy’n gwneud hyn fel arfer; hefyd trwy ddefnyddio rhestrau o weithwyr rhan-amser. Gwelir recriwtio a chadw gweithwyr amser llawn fel elfen fwy anhyblyg a dyrys:

Dywedodd un prosesydd bwyd, sy'n cyflogi tri labrwr tramor:

> " Wel mae'n dipyn o waith a dweud y gwir i gael pobl sydd â diddordeb i weithio o gwbl.... Wn i ddim, fe ffoniodd gwr ifanc unwaith, ryw dair wythnos yn ôl dwi'n credu, ac roedd eisiau swydd; cigydd o Aberteifi oedd e, cafodd gyfweliad gyda ni a dywedodd iawn, dechreuaf ddydd Llun. Gweithiodd ar y dydd Llun, y dydd Mawrth a'r dydd Mercher, a welsom mohono fyth eto!"

Roedd cwmni cludiant bach yn dadlau:

> "Cwmni bach teuluol ydyn ni, a dyna sut ry'n ni am gadw pethau a dweud y gwir – mae'n golygu y gallaf gadw fy mys ar y botwm, ac oes problem mae'r ffôn yn canu, a gallaf fod yno a gwneud fy ngorau i ddatrys pethau. Ond os aiff y busnes yn fawr, mae'n mynd allan o reolaeth.."

Gwelwyd cyfyngu defnydd llafur i lafur teuluoedd fel strategaeth lleihau risg hefyd i rai cwmnïau. Cyfeiriodd un cwmni o Sir Benfro at y 'diwylliant hawlio', a gwelwyd ef fel elfen a oedd yn annog cyflogwyr a chwmnïau i beidio â chyflogi llafur.

> "Rwy'n adnabod llawer o bobl yng Nghymru y mae rhai yn dweud eu bod yn gwneud yr un fath yn y diwydiant adeiladu – mae llawer o bobl sydd â dau bartner efallai, neu berson unigol hyd yn oed, ac nid ydynt yn barod i gyflogi gweithiwr oherwydd y cyfrifoldebau mae'n eu golygu, ac felly maent yn cyfyngu ar eu safle, yn gwrthod gwaith yn hytrach na chyflogi mwy o staff, ac mae hynny wrth gwrs yn golygu nad oes gymaint o gyfleoedd wedyn i bobl ifanc fynd i mewn i'r diwydiant a chael hyfforddiant".

Roedd cyfansoddiad staffio felly yn gysylltiedig iawn â maint a math y busnes, gydag ymdeimlad cryf o ymrwymiad teuluol a defnyddio llafur rhan-amser. Gwelwyd llafur amser llawn fel rhywbeth cyfyngol ac anodd ei recriwtio a'i gadw.

### *5.2.2 Recriwtio*

Daeth canolfannau gwaith drosodd fel y cyfrwng mwyaf problemus ar gyfer recriwtio. Er enghraifft, dim ond dau o'r 20 perchennog busnes a gafodd eu cyfweld yn Sir Ddinbych oedd yn gadarnhaol mewn unrhyw ffordd ynghylch eu profiad o ganolfannau gwaith (gydag, er enghraifft, un o'r ymatebwyr hynny'n rhoi clod i'r ganolfan waith am eu bod wedi dod o hyd i ddynes 'wych' o Latfia drwyddi (Ymatebydd llety, bwyd a diod)). I'r mwyafrif, yn y ddau faes astudiaeth fodd bynnag, gwelwyd bod y dull hwn yn aneffeithiol ac yn aneffeithlon. Yn gyntaf, cafodd y canolfannau gwaith eu beirniadu am eu dewis amhriodol o ymgeiswyr:

> "Ni fyddaf fyth yn defnyddio'r asiantaeth gyflogi eto. A hynny'n syml am i ni bennu... dyma yw'r meini prawf, dyma beth ry'n ni'n chwilio amdano, a chawsom y rwtsh pennaf ganddynt, heb fod yn angharedig, ond dyna'n union oeddent, heb ddim o gwbl i wneud â'r math o fusnes neu'r meini prawf a oedd gennym – gwastraffu hanner diwrnod, dyna wnaethon ni".

Yn ail, trwy ddarparu ymgeiswyr amhriodol roedd y canolfannau gwaith yn cael eu hamau o weithio yn ôl eu hagenda eu hunain, yn hytrach nag agenda'r cleient busnes:

> “Yn anffodus, yr hyn maen nhw’n tueddu’i wneud yw - ‘gyrrwr tractor yn eisiau’, nawr mae unrhyw un sy’n dod i mewn sydd wedi bod *yn ddi-waith am dymor hir*, yn cael y cwestiwn ‘a allwch chi yrru tractor?’ Bydden nhw’n dweud ‘o gallaf, gyrrais un unwaith’, ‘reit, gwnewch gais am y swydd hon’ ac maen nhw’n bobl gwbl anaddas.”

Yn drydydd, teimlwyd bod agendâu cudd yn llawn mor broblemus ymhlith yr ymgeiswyr eu hunain:

> “…y bobl dwi’n eu cael o’r ganolfan waith, efallai eu bod yn ei wneud e’ achos bod y ganolfan waith yn dweud eu bod yn gorfod dangos eu bod yn barod i weithio yn rhywle; maen nhw’n dod unwaith ac yna dydyn ni ddim yn eu gweld fyth eto.”

Yn bedwerydd, ni theimlwyd bod y canolfannau gwaith yn rheoli’r sefyllfa pobl ‘heb unrhyw fwriad’ i gymryd swydd:

> “Dydw i ddim yn teimlo eu bod yn effeithiol iawn; maent yn cyfeirio pobl o’u pen nhw, ond dydy’r bobl hyn ddim yn troi i fyny, ac rwy’n credu mai’r unig beth maent ei eisiau yw’r lwfans ceiswyr gwaith ac maen nhw’n dweud ‘ydw, dwi wedi bod’ pan nad ydyn nhw mewn gwirionedd... Weithiau mae’r ganolfan waith yn ein ffonio ni... yna byddan nhw’n rhoi rhestr o enwau a byddaf i’n dweud nad wyf erioed wedi clywed am y bobl hyn’, mae hynny’n digwydd drwy’r amser.”

Roedd mwyafrif y perchenogion busnes yn amlwg yn ymwybodol o’r anwireddau yr oedd rhaid eu cyd-drafod wrth recriwtio drwy ganolfannau gwaith. Yn wir, fel y nodir gan yr ymateb canlynol, roedd rhai hyd yn oed yn barod i ‘helpu’ i fynd i’r afael â phroblem etheg gwaith negyddol sy’n gysylltiedig â phatrymau gwyriadau’n cael eu dangos gan ymgeiswyr felly. Yn amlwg, serch hynny, nid yw’r ymagwedd hon yn rhywbeth y mae llawer o berchenogion busnes ‘yn gallu’ ei mabwysiadu neu ‘y dylai fod rhaid’ iddynt ei mabwysiadu:

> “Fe sylwch fod cyfran gynyddol o’r rheiny sy’n gwneud cais am y swyddi yn gwneud hynny am fod rhaid iddyn nhw’n unig. Felly mae’r hyn ry’n ni’n gwneud yn eithaf doniol pan welaf o CV bod rhywun yn ymgeisio am swydd am fod rhaid iddyn nhw’n unig, er mwyn cael eu budd-dâl. Byddaf yn eu gwahodd i gyfweliad yn bwrpasol; yn y pen draw rwy’n neilltuo 2 neu 3 diwrnod ar gyfer y cyfweliadau beth bynnag, felly nid yw 20 munud ychwanegol yn mynd i wneud unrhyw wahaniaeth; byddaf yn gwneud iddynt eistedd o ’mlaen i a’u gweld yn gwingo a symud etc. etc., gan y byddaf hefyd yn cael galwadau dilynol gan y Ganolfan Waith neu rywun efallai, yn gofyn sut ddaeth y boi hwn ymlaen, ac yn y gorffennol rwyf wedi ysgrifennu llythyr eithaf cryf i’r perwyl ‘nid oes gan y boi hwn unrhyw fwriad i weithio, doedd e’ ddim eisiau bod yma, rhegodd yn y cyfweliad am nad oedd eisiau... roedd yn gwneud ei orau glas...”

Dull arall ymarferol posibl i recriwtio drwy ganolfannau gwaith yw’r dull hysbysebu trwy bapurau lleol - cyfrwng y datganodd llawer o berchenogion busnes iddynt ddefnyddio yn ystod yr Arolwg Busnes gwreiddiol. Gyda golwg ar y profiad ei hun, fodd bynnag, i rai perchenogion busnes, graddiwyd y cyfraddau ymateb o hysbysebion papur newydd fel rhai ‘gwael’, gan arwain at ychydig o ddisgwyliad y byddid yn canfod canlyniad gwahanol pe bai’r cyfrwng hwn yn cael ei ddefnyddio eto. Yn amlwg, serch hynny, roedd y math o swydd yn cael ei hysbysebu yn cael rhywfaint o ddylanwad ar y gyfradd ymateb yn cael ei chyflawni. Er enghraifft, fel y nodwyd gan un ymatebydd yn y sector manwerthu:

> “…dydyn ni ddim wedi cael gweithiwr eto ac eithrio drwy’r papurau”

I lawer o ymatebwyr, fodd bynnag, roedd y brif broblem o ran llenwi swyddi drwy hysbysebion papur newydd yn fwy cysylltiedig â'r 'math' o ymgeiswyr yr oedd hyn yn eu cyflwyno:

> "…gyda'r papur newydd gallwch gael pob mathau o bobl yn dod i mewn ac mae'n achos o brofi a methu i raddau."

Roedd problemau cyffredin y soniwyd amdanynt yn cynnwys diffyg ymgeiswyr â phrofiad:

> "Rwyf wedi hysbysebu mewn papurau cenedlaethol am swyddi ac rwyf wedi cael peth wmbredd o bobl yn ffonio ond eto... does ganddyn nhw fawr o brofiad – 'ond gallaf ddysgu', dydw i ddim eisiau rhywun sy'n gallu dysgu, dwi eisiau rhywun sy'n gwybod yn barod."

Cododd problemau hefyd os oedd yr ymgeisydd dethol yn dangos ei fod yn amhriodol oherwydd camsyniad o'r hyn yr oedd y swydd yn ei olygu mewn gwirionedd.

Ymddengys bod yr ystod helaeth o broblemau a gafwyd gyda dulliau ffurfiol o recriwtio fel papurau newydd a chanolfannau gwaith, wedi atgyfnerthu ffafriaeth gyffredin ymhlith cyflogwyr cefn gwlad tuag at gyfrwng mwy anffurfiol o recriwtio – sef ar lafar. Fel yr esboniodd un ymatebydd, er enghraifft, wrth wneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng hysbysebion papur newydd a gair ar lafar:

> "O gymharu'r ddau beth yn unig, rydym wedi cael pethau lle'r ydym wedi troi at hysbysebion yn y papur, ac a siarad yn gyffredinol, dydyn ni ddim wedi cael ymateb boddhaol iawn i hynny; mae pobl yn dod yma, yn gweithio diwrnod neu ddau, ac yna dydyn nhw ddim yn hoffi'r gwaith neu rywbeth felly, lle mae'r bobl rydyn ni wedi'u recriwtio ar lafar yn tueddu bod yn llawer mwy llwyddiannus."

Yn y bôn, ymddengys bod strategaeth 'ar lafar' yn esgor ar fanteision penodol i'r gweithiwr a'r cyflogwr nad ydynt ar gael yn aml drwy'r cyfryngau mwy ffurfiol. Ar yr un llaw, mae'r penodiad yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus oherwydd y ffaith y bydd gan y gweithiwr (potensial) wybodaeth yn barod am y math o waith sy'n cael ei gynnig:

> "… rydyn ni'n tueddu dod o hyd i'r bobl rydyn ni'n eu cyflogi ar hyn o bryd, er enghraifft, ar lafar yn bennaf. Fe fyddan nhw'n ffrind i ffrind i rywun sy'n gweithio gyda ni a byddan nhw'n gweld yr hyn ry'n ni'n ei wneud... a dyna sut rydyn ni'n tueddu dod o hyd iddyn nhw."

Ar yr un pryd mae cyflogwyr yn elwa hefyd o wybodaeth flaenorol am addasrwydd yr ymgeiswyr eu hunain:

> "…os yw rhywun sydd gennych yn gweithio i chi yn weithiwr da, rydych yn amlwg yn gwybod beth yw eu safonau yn yr hyn maen nhw'n ei wneud a sut maen nhw'n meddwl. Pan ddywedan nhw fod hwn a hwn yn chwilio am swydd yna mae'n [argymhelliad] eithriadol o dda…"

Yn amlwg, serch hynny, o fewn system felly lle mae gwybodaeth leol wedi'i hymgorffori yn dod yn allweddol, gall y farchnad lafur yn yr un modd fynd yn gaeëdig i bawb ac eithrio'r rheiny sydd y 'tu fewn' i'r system:

> “Mae argymhelliad ar lafar yn golygu eich bod yn dod i wybod pwy yw’r rhai da, a bydd rhywun yn dweud, ‘mae hwn a hwn yn chwilio’...”

> “Os yw un o’r bechgyn, un o’r bobl sy’n gweithio yma yn dweud ’mod i eisiau cefnder neu fy merch-yng-nghyfraith sy’n chwilio am swydd, mae gennych syniad go dda pan fyddwch yn adnabod y teulu; efallai bod rhywun yn ei adnabod ac yn dweud ei fod yn foi da neu beidio, neu ei fod yn hen ddiogyn neu rywbeth felly”.

Yn amlwg, gellir dweud yr un fath hefyd, fodd bynnag, am bwysigrwydd enw da i gyflogwr – os ydynt yn mynd i fod yn llwyddiannus o ran dod o hyd i staff lleol digonol:

> “Wel mae pobl sy’n ein hadnabod ni ac sydd wedi gweithio yma i weld yn ddigon hapus, ac felly maen nhw’n dweud wrth eu ffrindiau ac yn dod yma; plant ysgol neu fyfyrwyr fel arfer ry’n ni’n tueddu eu cyflogi fel gweithwyr achlysurol yn ystod yr haf.”

Yn wir, ar wahân i raddau gwahanol effeithiolrwydd y cyfryngau recriwtio amrywiol, cafwyd problemau ychwanegol hefyd o ganlyniad i naill ai natur/amodau’r gwaith sy’n cael ei gynnig, a/neu sylfaen medrau gyffredinol y marchnadoedd llafur lleol. Mae’n werth edrych ar y ddau ffased hwn yn fanylach.

Gyda golwg ar natur/amodau cyflogaeth, problem nodweddiadol ‘cefn gwlad’ yw’r ffaith mewn llawer o achosion bod rhaid i ymgeiswyr, er mwyn cael eu hystyried o gwbl, fod eisoes yn meddu ar drwydded yrru ddilys:

> “Wel os na allan nhw yrru allan nhw ddim gweithio yma; mae mor syml â hynny, yn un o ffeithiau bywyd… mae ein tref fechan agosaf 3 milltir i ffwrdd, ac nid yw hynny’n bell iawn i bobl sy’n gallu gyrru…”

Fodd bynnag, yn sgil rhai cyfyngiadau cyffredinol mewn cyflenwi, yn enwedig yn Sir Ddinbych, nid yw pob cyflogwr yn gallu cyfyngu (neu yn wir, yn teimlo’r angen i gyfyngu) recriwtio staff ‘priodol’ i’r rheiny sy’n gallu gyrru. Serch hynny, mae’n rhaid ffactoreiddio diffyg cludiant i reolaeth y busnes o ddydd i ddydd, ac yn y pen draw, natur gyfyngedig y farchnad lafur briodol yn lleol. Er enghraifft, fel y nododd un ymatebydd yn y sector llety, bwyd a diodydd pan ofynnwyd iddo am ddaearyddiaeth patrymau recriwtio – er nad yw diffyg cludiant preifat yn eu peri i droi ymgeiswyr ymaith, mae yn cyfyngu ar radiws eu chwilio:

> “…Yn lleol yn bennaf a dweud y gwir, gan fod y grwp oed sy’n dod i mewn, maen nhw i gyd dan 18 oed yn gyffredinol, ac wrth gwrs dydyn nhw ddim yn gyrru felly mae fy ngwr yn mynd â nhw adref ar ddiwedd y diwrnod gwaith.”

Nid ymddengys bod yr anawsterau yr adroddir amdanynt wrth recriwtio pobl yn Sir Ddinbych i’w priodoli’n unig i ddiffyg diddordeb mewn unrhyw un sector (neu radd) cyflogaeth. Er enghraifft, cafwyd problemau llawn gymaint wrth recriwtio ar gyfer y graddau cyflogaeth is hynny y gellid yn rhesymol dybied eu bod yn anneniadol:

> “…Nid yw glanhau a chadw ty yn waith hawdd, ac nid yw llawer o bobl wedi’u paratoi ar gyfer y gwaith; dyma’r prif rwystr; yn amlwg mae cyfraddau cyflog yn wael, ond mae hynny’n weddol safonol ar gyfer yr ardal hon beth bynnag; rydyn ni’n talu ychydig uwchlaw’r cyflog lleiafswm, ond nid llawer yn fwy, ac nid yw’r rhan fwyaf o swyddi sydd ar gael yma yn cynnig llawer mwy beth bynnag; ond credaf mai’r hyn nad yw pobl yn ei hoffi yw’r gwaith caled yn anad dim.”

Ar yr un pryd, mae'n anodd yn ôl y sôn hefyd i lenwi swyddi hyd yn oed os nad natur y gyflogaeth ei hun yw'r ffactor anghalonogol o bosib:

> "Fel mae'n digwydd rydyn ni wedi bod yn ceisio hysbysebu am ysgrifenyddion/ysgrifenyddesau dros y ddwy flynedd diwethaf, ond mae wedi mynd yn anodd cael staff… Ddeng mlynedd yn ôl byddwn ni'n cael dros ugain yn ymgeisio am swydd. Nawr, ry'n ni'n ei chael hi'n anodd cael dau neu dri i ymgeisio am swydd… … Dydy'r dewis ddim yno i ni. Bellach ry'ch chi'n teimlo eich bod yn gorfod cymryd pwy bynnag sydd ar gael bron. Ac efallai wrth gwrs bod y ffaith nad y ni yw'r cyflogwr sy'n talu orau yn yr ardal yn gwneud gwahaniaeth"

Mae problemau yr un mor amlwg, fodd bynnag, lle chwilir am weithwyr arbenigol:

> "Yr anhawster sydd gennym yn y bôn yw ei fod yn fusnes arbenigol iawn… ac yng Nghymru ymddengys mai ychydig iawn iawn o bobl sydd â diddordeb ynddo. Nifer fach iawn o fasnachau sy'n ei wneud mewn gwirionedd, ac nid oes unrhyw gymwysterau masnachol ar ei gyfer, felly mae'n anodd iawn i ni geisio dod o hyd i bobl addas; yr hyn ry'n ni wedi'i wneud yn y rhan fwyaf o achosion yw cyflogi pobl a'u hyfforddi'n fewnol."

Un o'r amodau cyflogaeth yr ymddengys ei fod yn dylanwadu'n benodol ar allu busnesau i gadw staff 'da' yw tymoroldeb y fasnach. Fel y dywedodd un ymatebydd:

> "Pwy sy'n mynd i adael swydd £250 yr wythnos i ddod i weithio am £450, pan gallan nhw fod mewn sefyllfa ar ddiwedd yr haf lle nad ydyn nhw'n ennill dim punnoedd yr wythnos oherwydd bod y gwaith wedi dod i ben?"

Law yn llaw â'r cyfyngiad hwn, mae canfyddiad ymhlith rhai perchenogion busnes mai bach iawn y mae'r system budd-daliadau yn ei wneud i hyrwyddo etheg gwaith briodol:

> "Y problemau ry'n ni'n eu gweld yw nad ydy pobl eisiau gweithio; mae'r math o bobl sydd eisiau gweithio yn anelu'n uwch na gweithio mewn siop. Ac yn gyffredinol, mae'r safon o bobl ry'n ni'n eu targedu, maen nhw'n cael gymaint o fudd-daliadau'r dyddiau hyn, dydyn nhw ddim eisiau gweithio."

Un o'r dulliau y mae rhai cyflogwyr wedi'u defnyddio i reoli problemau diffyg yn y cyflenwad yw cydnabod y cyfraddau cyflog isel nodweddiadol sy'n gyffredin i gyflogaeth yng nghefn gwlad, ac felly, edrych i ddylanwadu'n weithredol ar benderfyniad ymgeiswyr. Er enghraifft:

> "Y tro diwethaf y cyfwelais rywun, a gweld ei bod yn eithaf da, cynigiais fwy o arian iddi i gychwyn gan 'mod i'n gwybod bod gwaith arall ar gael [yn lleol]… ro'n i'n gwybod eu bod yn talu £4.85, felly gwneuthum yn siwr 'mod i'n cynnig yn agosach i £6 er mwyn cael rhywun da. Rwy'n gobeithio y bydd hynny'n gweithio ac y bydd hi'n aros gyda ni."

Yn amlwg, serch hynny, nid oes ateb ar gael i bob perchennog busnes. I'r rheiny nad ydynt yn gallu codi'r arian ychwanegol 'angenrheidiol', cânt eu gadael i wneud y gorau o sefyllfa a allai gyfyngu ar broffidioldeb yr holl weithrediad o bosib:

> "Yn amlwg mae'n tynnu llawer o'r elw gan ein bod yn gorfod treulio gymaint o amser yn dod o hyd i – neu'n ceisio dod o hyd i bobl foddhaol, sy'n amhosibl… … ry'n ni'n

tueddu dod o hyd i'r bobl nad oes neb arall eu heisiau gan nad oes ganddyn nhw grefft".

Heblaw hynny, ymddengys mai profiad rhai busnesau yw, hyd yn oed gydag atyniad cyflog uwch na'r cyfartaledd a/neu 'gilfanteision' ychwanegol, nad yw hyn yn ddigon bob tro hyd yn oed i annog ymgeiswyr 'priodol' i ystyried ymgeisio am swydd yn y lle cyntaf. Er enghraifft, fel y nododd un ymatebydd yn y sector manwerthu:

"Rwyf wedi cael dau achos yn y 12 mis diwethaf lle na chawsom unrhyw ymgeiswyr am swydd… ry'n ni'n talu'n gymharol dda yma am swydd cynorthwy-ydd siop i bob pwrpas … Nawr mae hyn yn anghyffredin iawn mewn siop o'r maint sydd gennym, ac rydym yn hyblyg iawn, iawn gyda'n harferion gweithio a'n horiau; eto, fe'i cawsom yn anodd iawn, iawn y llynedd i ddod o hyd i'r bobl briodol i ymgymryd â'r swydd, felly roedd rhaid i ni ail-hysbysebu'r swydd ryw 3 neu 4 gwaith."

Roedd tueddiadau tebyg yn Sir Benfro. Roedd busnesau'n dibynnu'n gryf ar bapurau newydd lleol a dulliau recriwtio 'ar lafar', ac yn ymddiried fwy ynddynt. Roedd rhai'n dadlau mai 'ychydig iawn o ddefnydd' oedd i'r canolfannau gwaith ar ôl cael profiad o'r math hwn o recriwtio, ac aethant yn ôl i ddulliau mwy traddodiadol. Er enghraifft, dyma oedd dadl un cwmni adeiladu:

"Ar lafar fel arfer. Byddaf fel arfer yn gofyn i un neu ddau o bobl leol i lawr yn y clwb rygbi, ac os na chaf ymateb yno, yna byddaf yn hysbysebu'n lleol wedyn… Wel mae pawb yn fy adnabod i lawr yn y clwb – mae fy mab yn chwarae i'r tîm rygbi, ac felly rwy'n cael ymateb gwell yn lleol fel arfer na thrwy'r wasg."

Dyma oedd dadl un busnes llety:

"Ry'n ni'n defnyddio dulliau llafar ac yn mynd mor lleol â phosibl i ddechrau; byddwn ni'n gosod cerdyn yn y siop leol. Cefais fod y ganolfan waith bron yn waeth na diwerth; does dim system didoli yno."

Roedd busnes cyfanwerthu'n dadlau:

"Yn anffodus ry'n ni'n tueddu cael y grawn a'r us gyda'r ganolfan waith – maen nhw'n ceisio rhoi pobl mewn lleoliadau gwaith – ond pan fyddaf yn cyfweld pobl yma, rhan o'r meini prawf yw eu bod yn barod i gael eu hyfforddi i wneud dyletswyddau eraill hefyd."

Gwelwyd bod cwestiwn medrau yn bwysig hefyd yn y broses recriwtio yn Sir Benfro. Dadleuwyd bod yr ardal 'yn daer eisiau pobl':

"Dydych chi ddim yn grefftwr da os ydych chi ar y dôl; gallwch gerdded o un swydd fan hyn; pe bai pedwar dyn yn ein gadael ni heddiw, maen nhw'n gweithio yn rhywle arall ddydd Llun, fyddan nhw ddim ar y dôl am dair wythnos yn chwilio."(Cwmni adeiladu).

Fodd bynnag, dyma oedd dadl perchennog busnes cyfanwerthu:

"Canolig yw ansawdd cyffredinol y farchnad lafur. Mae llawer o bobl ifanc yn ddi-waith yn yr ardal hon, ac maen nhw'n anghyflogadwy a dweud y gwir gan nad oes ganddyn nhw brofiad, a'r cyfan maen nhw eisiau ei wneud ar ddiwedd yr wythnos yw ennill pecyn cyflog ac nid chwilio am yrfa o angenrheidrwydd neu sefyllfa lle gallan nhw wella'u hunain dros gyfnod o amser; maen nhw'n disgwyl cael y cyfan ar unwaith yn y bôn."

Mynegodd perchennog busnes llety ei safbwynt yn gryfach:

> "Rwy'n credu mai'r prif reswm yw bod llawer o'r gweithlu math llafur cyffredinol wedi ymgyfarwyddo gymaint â bod yn ddi-waith, dydyn nhw ddim eisiau gweithio mewn gwirionedd.....
> Dydyn nhw ddim o angenrheidrwydd eisiau gweithio tri neu bedwar diwrnod yr wythnos i gael yr hyn maen nhw fwy neu lai'n ei gael fel budd-dâl. Dydw i ddim yn siwr y gallwch ffitio hynny mewn blwch cyfrifiadur."

Hefyd, nid oedd asiantaethau cymorth yn cael eu gweld fel cyfrwng helpu o angenrheidrwydd:

> "Beth maen nhw yno i'w wneud, pam ry'n ni'n gwario gymaint o arian ar yr holl gyrff gwahanol hyn, heb anghofio'r holl nawdd maen nhw'n ei gael gan Amcan 1, a'r holl bethau hyn yn codi, ond dydw i ddim yn cael yr holl bobl o safon yma'n cerdded drwy'r drws yn dweud, hei, prif gogydd ydw i, dwi eisiau helpu. Fe dalwn beth bynnag y mae angen i ni ei dalu, ond ble maen nhw? Iawn, ry'n ni'n teimlo ychydig yn rhwystredig o ran beth mae'r holl gyrff hyn i fod i'w wneud, ac mae nifer go fawr ohonyn nhw yno i'n helpu ni; a'r cyfan ry'n ni eisiau ei weld yw diwedd y gân'... Anfonwch nhw i mewn, gadewch i ni weld y trwygyrch o bobl, ymgeiswyr o safon eisiau gwneud hyn; does neb eisiau mynd i mewn i'r diwydiant lletygarwch mwyach."

Yn y ddau faes astudiaeth, felly, roedd stigma'n gysylltiedig â gweithio mewn llawer o fusnesau math gwledig, yn enwedig yn y sectorau llety, bwyd a diod, manwerthu a thir. Roedd y sectorau hyn yn ei chael hi'n anodd recriwtio llafur, naill ai pobl wedi'u hyfforddi, neu y gellid eu hyfforddi fel rhan o'r gyflogaeth. Ar yr un pryd, roedd canfyddiad o orniferoedd lleol o lafur potensial anfedrus, ac roedd yr etheg gwaith a gyrfa yn absennol yn ôl pob golwg. I rai busnesau gweithgynhyrchu, priodolwyd y prinderau cyflenwi hyn i broblemau penodol yr ardal.

> "Credaf fod Sir Benfro wedi cael ei hesgeuluso; mae wedi'i hesgeuluso fel ardal 'cogyddion a phrif gogyddion', neu beth bynnag yr hoffech ei galw; ond dydi'r bobl fedrus ddim yn dod yma gan nad yw'r ardal erioed wedi'i hyrwyddo yn y modd hwnnw. Credaf fod angen prif gogyddion ar Sir Benfro, bod angen cogyddion a gyrwyr bws neu yrwyr bws mini arni, ond mae angen gosodwyr nwy a thrydanwyr a phlymwyr arni hefyd. Mae angen dylifiad ar Sir Benfro – roeddwn i'n arfer cyflogi prentisiaid – ond mae prentisiaethau wedi mynd i'r gwellt, ac mae angen i rywun fynd i'r afael â'r achos."

Roedd busnes fferyllfa yn dadlau hefyd bod y broblem hon yn fwy difrifol yn Sir Benfro:

> "Rwyf wedi gwneud llawer o waith i lawr yng Nghernyw, ym Mryste ac yng Nghaerfaddon, a doeddwn i ddim i weld yn cael problem yno; roedd yn ymddangos bod nifer llawer fwy o bobl ifanc yno, pobl a oedd wedi'u haddysgu'n dda yn chwilio am waith."

### *5.2.3 Hyfforddiant*

Yr ymagwedd a fabwysiedir gan nifer o gyflogwyr, gyda golwg ar adeiladu sylfaen staff 'briodol', yw peidio â disgwyl y bydd ymgeiswyr â chymwysterau llawn ar gael i'w recriwtio o'r cychwyn. Dywedir bod yr agwedd hon yn arbennig o realistig o ran llenwi'r swyddi mwy arbenigol – fel y dywedodd un cyflogwr felly:

> "… A bod yn deg, ni fyddwn yn disgwyl gallu mynd allan a chael hyd i rywun â chymwysterau llawn".

Serch hynny, mae safon ddymunol sylfaenol yn bodoli o hyd, nad ymddengys, yn anffodus, ei bod ar gael bob tro:

> "… Rwy'n cael fy arswydo a bod yn onest, pan fyddaf o dro i dro yn gwneud y ceisiadau am swyddi, rwy'n chwilfrydig i weld beth a ddaw drwodd, yr hyn sydd wedi'i nodi mewn llawysgrifen, a'r camgymeriadau sillafu; ac maen nhw'n credu, mai'r hyn sy'n fy ngwneud i chwerthin fwy fyth yw'r ffaith nad ydyn nhw'n ei weld fel problem, hynny yw y ffaith nad ydyn nhw'n gallu sillafu neu'r ffaith, ocê, dim ond siop i lawr y ffordd ydw i, neu fusnes i lawr y ffordd gyda throsiant cymharol fach, ond mae gen i safonau o hyd ar gyfer gweithwyr rwyf am eu cyflogi, ac os na allant drafferthu, pam ddylwn i drafferthu i'w cyfweld nhw yn y lle cyntaf."

I lawer o ymatebwyr, serch hynny - wrth edrych y tu hwnt i'r medrau llythrennedd craidd sylfaenol – nid dod o hyd i bobl â'r cymwysterau 'papur' priodol yw eu pryder o angenrheidrwydd, ond yn hytrach, dod o hyd i bobl â phrofiad dilys a/neu berthnasol. Yn wir, tybir yn gyson mai'r ffactor profiad yw'r un mwyaf gwerthfawr wrth chwilio am recriwtiaid newydd:

> "… Ry'n ni'n parhau i gynhyrchu'r academyddion hyn; oes, mae eu hangen arnom, ond mae angen cydbwysedd arnom... ac mewn llawer iawn o achosion, 'does dim angen yr academyddion hyn arnom ni mewn gwirionedd, bendith Duw arnyn nhw; maen nhw'n mynd i mewn i swyddi, a dydyn nhw ddim wedi cael [profiad] uniongyrchol mewn gwirionedd, ydyn nhw?"

Un dull o wella medrau gweithwyr yn sylweddol yw drwy gael hyfforddiant. Yn amlwg, serch hynny, er mwyn bod yn effeithiol mae'n dibynnu ar agwedd gadarnhaol gan y gweithiwr a'r cyflogwr. Ar y cyfan, roedd y perchenogion busnes yn Sir Ddinbych a Sir Benfro i weld yn barod iawn yn gyffredinol i hyfforddi eu staff. Un rhwystr parhaus, er hynny (er ei fod yn bryder i rai yn fwy nag eraill), oedd mater cost:

> "Credaf mai'r broblem fwyaf sydd gennym yw dod o hyd i hyfforddiant y gallwn ei fforddio i'n gweithwyr. Rydyn ni yn talu, mae gennym ystod mor eang o hyfforddiant i ymgymryd ag ef gydag unigolion, fel ein bod yn cael rhywfaint o hyfforddiant cymorthdaledig, ac mae'n rhaid i ni dalu cryn dipyn am fathau eraill o hyfforddiant, ac mewn gwirionedd y mynediad i hyfforddiant yw ein problem fwyaf…"

Un effaith negyddol y gall 'cost' ei chael ar y graddau y mae hyfforddiant ar gael i staff, yw cyflwyno proses ddethol yn anffurfiol. I rai cyflogwyr, gellir cyfiawnhau hyfforddiant yn unig naill ai os disgwylir i'r gweithwyr aros gyda'r busnes hyd y gellir rhagweld a/neu, tybir eu bod yn deilwng i'w hyfforddi yn y lle cyntaf:

> "… y tro diwethaf [*Cwrs Iechyd a Hylendid*] fe gostiodd £25 yr un i ni. Ond nid anfonais bawb. Anfonais y 3 sy'n coginio i mi ar hyn o bryd… ac yna byddaf yn anfon y gweddill tua dechrau'r flwyddyn os gwelaf eu bod wedi ymgartrefu ac yn mynd i aros..."

Yn amlwg, serch hynny, mae'r dewis hwn o strategaeth yn gwrthwynebu'n uniongyrchol credoau lleiafrif o berchenogion busnes, sef, pe bai pawb yn cael eu hyfforddi, yna bydd y farchnad lafur gyfan yn dod yn gryfach yn y pen draw o ganlyniad i hynny:

> "Bydd pawb ohonom yn gwneud yr un peth ac yn mynd i'r un cyfeiriad, felly bydd y gweithlu'n datblygu'n weithlu mwy hyfforddedig."

Fodd bynnag, mae'n digwydd weithiau, hyd yn oed pe bai'r athroniaeth hon yn cael ei chymhwyso gan gyfran uwch o berchenogion busnes, byddai'n dal yn anodd codi lefel medrau gweithluoedd oherwydd problemau ychwanegol seiliedig ar 'gefn gwlad', sef hygyrchedd yr hyfforddiant:

> "… mae'r lleoliad yn anodd iawn i unrhyw un sydd eisiau hyfforddi; os nad ydyn nhw'n lleol, yna mae'n anodd, yn enwedig lle nad oes cludiant cyhoeddus."

Un o'r ffyrdd a ddefnyddir gan gyflogwyr i lwyddo i ddatrys problemau hygyrchedd, tra'n cadw cost yr hyfforddiant mor isel â phosibl ar yr un pryd, yw mabwysiadu strategaeth i hyfforddi'n fewnol. Fel yr esboniodd un ymatebydd, fodd bynnag, mae'r llwyddiant y strategaeth hon yn y pen draw yn dibynnu llawn gymaint ar ddawn y staff:

> "Y peth anoddaf o ran cael pobl i weithio yw'r hyfforddiant – nid hyfforddiant mawr neu anodd, ond hyfforddiant sylfaenol – dweud wrthyn nhw beth i wneud. Mae pobl ifanc yn dod i mewn ac yn gwneud yr hyfforddiant am wythnos neu ddwy; maen nhw'n ei gael yn rhy anodd ac yn gadael. Felly, ar ôl mynd drwy'r holl dasg o'u cael nhw ar y gyflogres ac ati, maen nhw'n gadael. Ond gyda phobl hyn, ry'n ni wedi bod yn eithaf lwcus yn gymaint â'u bod yn dechrau ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl ar unwaith."

### *5.2.4 Cefnogaeth fusnes allanol*

Nid yw'r problemau a wynebir gan berchenogion busnes yn Sir Ddinbych a Sir Benfro yn rai cwbl 'wledig' o bell ffordd o ran eu cyfeiriadedd. Serch hynny, ymddengys yn aml fod yr amodau gwledig yn ymestyn effaith yr anawsterau recriwtio mwy generig hynny sy'n effeithio ar fusnesau beth bynnag yw eu lleoliad. Enghreifftiau da o heriau felly (a nodwyd pob un ohonynt gan ymatebwyr Sir Ddinbych a Sir Benfro) yw effeithiau potensial cyfarwyddebau amserau gweithio Ewropeaidd, cyfnod mamolaeth a'r angen cynyddol i dalu am wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar weithwyr potensial. Mae pob un o'r materion hyn, ynghyd â chostau tanwydd, yn effeithio ar fusnesau ledled y DU - er i raddau amrywiol gan ddibynnu ar y sector busnes unigol. O'u cyfuno, fodd bynnag, â materion gwledig penodol fel hygyrchedd, bylchau yn y cyflenwad llafur a nifer llai o ymwelwyr, mae'r angen i deilwra cymorth busnes yn dod yn hunanamlwg.

> "Rwy'n credu bod pobl sy'n chwilio am gyflog da ac yn y math hwn o broffesiwn yn chwilio am rywbeth o bosibl sy'n rhoi ychydig o statws iddyn nhw, ac ni fyddan nhw'n aros yn y fan hon yn hir iawn."

Y canfyddiad ymhlith nifer o berchenogion busnes oedd bod problemau recriwtio yn deillio'n aml o natur medrau isel cyffredinol cyfleoedd cyflogaeth yn y Gymru wledig. Cydnabuwyd bod hyn yn rhannol yn sgil stigma negyddol yn hanesyddol sydd ynghlwm wrth gyflogaeth yng nghefn gwlad, ac nid oedd hwnnw o angenrheidrwydd mor gywir â hynny bellach:

> "…mae ychydig o stigma yn gysylltiedig â swyddi yng nghefn gwlad a gwaith fferm – y boi yn gwisgo smoc ac yn dal gwelltyn rhwng ei fysedd – gall unrhyw hurtyn wneud hynny."

Yn gyfochrog â hyn, serch hynny, roedd canfyddiad bod y portread negyddol o leoliadau gwledig yn rhwystr sylweddol rhag denu gweithlu symudol i fyny. Roedd achos y Rhyl yn enghraifft a gafodd ei dyfynnu'n aml yn Sir Ddinbych:

> "…mae gennym stigma'n gysylltiedig â'r Rhyl a dweud y gwir, o ran bod yn ardal sydd ar ôl yr oes sydd ohoni, ac ardal nad yw'n datblygu dim."

Gellir dadlau mai'r broblem go iawn, wrth wasgaru'r delweddau hyn, oedd bod cred wirioneddol yn Sir Ddinbych bod cryn dipyn o wirionedd yn y syniad:

> "nad oes llawer o waith medrus ar gael yn yr ardal."

Roedd y lleoliad gwledig yn annog ymagwedd 'methu â gwneud' a oedd yn atgyfnerthu'r diffyg cyflogaeth fedrus:

> "Credaf ein bod yn blwyfol iawn, yn gweithredu mewn ardal fechan iawn. Mae ein cleientiaid yn dod o'r ardal leol, yn lleol iawn, ac mae ein gweithlu yn lleol iawn hefyd..."

Yn amlwg, mewn cyd-destun felly, mae rôl ganolog hyfforddiant yn dod i'r blaen – o ran gwella'r cyflenwad llafur, ac yn ei dro, proffidioldeb y busnes. At hynny, fel y nodwyd yn barod, nododd lleiafrif yr angen am newid cyfeiriad meddwl o ran y ffordd yr oedd hyfforddiant yn cael ei gynnig. Pe bai busnesau'n cael eu cefnogi mewn modd a fyddai'n annog hwyluso mynediad di-dâl i hyfforddiant i bawb (yn hytrach, yn syml, na'r staff hynny y mae disgwyl iddynt aros), yna byddai'n llai a llai posibl cymhwyso ffafriaeth wledig-trefol gyda golwg ar argaeledd gweithlu medrus:

> "Ie, mater yn ymwneud â bod yn wledig ydyw… Pe baem ni mewn cytref fwy, byddai gennym garfan fwy a byddwn yn gallu tynnu ar bobl well."

Hefyd, roedd tystiolaeth o'r hyn y gellid ei alw'n 'wastraff hyfforddi', lle bydd busnesau cefn gwlad yn hyfforddi staff i'w colli'n unig drwy ymfudiad llafur a 'photsian o'r marchnadoedd llafur trefol mwy'. Dyma oedd dadl cwmni adeiladu yn Sir Benfro:

> "Mae pob agwedd ar adeiladu yn newid yn gyson, mae'n broses ailhyfforddi barhaus... mae'n llawer anoddach i fusnesau gwledig gan ein bod yn gorfod teithio i gyrraedd yno, mae'r colegau hyfforddi yng Nghaerdydd…. Rydyn ni'n mynd i fynd yn ôl i gymryd y risg ein bod yn hyfforddi'r bechgyn hyn ac yn gobeithio y byddwn yn cael 10 neu 15 mlynedd allan ohonyn nhw ... os ydyn ni eisiau hyfforddi un o'n bois i fod yn gymwys i drin sgaffaldiau, mae'n rhaid iddo fynd i Gaerdydd; mae'n rhaid i ni dalu ei lety yno am wythnos... Pe bai llong ofod yn glanio'n sydyn nos yfory ag ynddi ddwywaith y gweithlu llafur medrus yn Sir Benfro, byddai ein diwydiant, a'n bywydau, yn nefoedd'... Yn yr un modd mae Caerdydd yn gallu fforddio cyflogi a diswyddo; ni allwn ni wneud hynny; mae rhyw 200 o fricwyr yng Nghaerdydd, ac mae 80 union yn Sir Benfro, felly mae'n broblem barhaus oherwydd yr ardal wledig."

Roedd un prosesydd dofednod o Sir Benfro yn gweld cyswllt ychydig yn wahanol yn y costau teithio a hyfforddi. Dyma oedd ei ddadl:

> "Y peth oedd, fel y dywedais, pe bawn i'n gallu cael pobl ifanc allan o'r ysgol yma, a phe bydden nhw wedi gallu dod yma, fe allwn i fod wedi'u hyfforddi nhw, ac fe allwn i fod wedi talu am dacsi i ddod â nhw yma bob bore. Grêt, byddwn i wedi gallu'u hyfforddi nhw. Ond gan ei fod wedi digwydd nifer o weithiau, roedd gennym ni nifer o weithwyr ac ro'n i'n gorfod gyrru 5 milltir i'r dref, 5 milltir yn ôl yn y bore, yr un peth gyda'r nos, a byddech chi wedi teithio 20 milltir, ac yn wir, byddai cystal eich bod chi'n gwneud y gwaith eich hun yn hytrach na chludo pobl o gwmpas."

Byddai ymagwedd felly, fodd bynnag, yn gorfod cael ei hwyluso yn y lle cyntaf gan gryn gynnydd yn lefelau presennol a ffocws cefnogaeth busnes.

Yn Sir Benfro roedd cefnogaeth busnes allanol yn cael ei gweld fel rhywbeth da ac yn gwella weithiau, nid gyda'r WDA o angenrheidrwydd ond gyda (Amcan 1 ac asiantaethau'n cael eu hariannu gan LEADER fel) PLANED, yn enwedig yn y maes manwerthu bwyd. Ond roedd colegau hyfforddi lleol yn cael eu gweld fel rhai a oedd yn cael eu cyfyngu'n gynyddol o ran eu darpariaeth hyfforddi a'u cymorth busnes. Roedd un cwmni adeiladu yn dadlau:

> "Mae'r Coleg yn cynnig hyfforddiant i fricwyr a seiri yn unig erbyn hyn, mae wedi cael gwared ar yr holl grefftau eraill, eu trydanwyr a'u plymwyr. Maen nhw i gyd wedi mynd gan nad ydyn nhw'n ennill dim yn ôl; maen nhw'n cael eu rhedeg fel mentrau preifat bellach ac felly maen nhw'n cael mwy o grantiau ac mae'r Cynulliad yn eu hariannu â grantiau mwy i gael myfyrwyr tramor i mewn – yna hyfforddwch eich gweithlu lleol eich hun."

### *5.2.5 Effeithiau newid polisi: adnoddau i hyfforddi 'o fewn y cwmni'?*

Pwynt pwysig a ddaeth i'r amlwg o'r cyfweliadau oedd yr angen am strategaeth fwy cydgysylltiedig ar gyfer gwella medrau rhwng darparwyr addysgol a busnesau lleol:

> "Credaf fod angen i ni weithio'n llawer agosach â cholegau, er mwyn i ni gyd fod yn siarad yr un iaith yn y bôn, felly dylai'r safonau yn y diwydiant yng Nghymru fod yr un fath gan ein bod yn gweithio tuag at yr un peth; felly dylai gychwyn mewn gwirionedd â gofal cwsmeriaid mewn ysgolion, ac yna symud ymlaen i'r colegau, ac yna daw'n fater i'r gweithlu."

Trwy wella'r lefelau / cymhwysedd medrau ymhlith y gweithlu, roedd disgwyl y byddai hyn yn cael tair effaith gadarnhaol ar unwaith. Yn gyntaf, efallai y gall lefelau cyflog adlewyrchu'r gwelliant mewn medrau yn sgil (yn rhannol) arbedion a ddeilliodd drwy'r angen am hyfforddiant 'ychwanegol' cyson wedi i rywun gael ei gyflogi:

> "Pe bai gennym rywun wedi'i hyfforddi, a'i fod yn dod atom, a'i fod yn fater o ninnau'n marchnata'r gwasanaethau yn unig, yna byddem yn cynnig llawer mwy – cyflog gwell... yr hyn fyddai'r farchnad yn ei ddisgwyl. Byddem yn gallu cyfiawnhau hynny, ond gan ein bod yn hyfforddi rhywun o'r cychwyn ac ni allwn gyfiawnhau'r gost, yna mae hynny'n broblem."

Yn ail, trwy wella'r ddarpariaeth hyfforddiant ar draws y farchnad lafur gyfan, byddai hyn yn ei dro yn gweithio tuag at leihau'r anghydraddoldebau presennol y mae staff yn eu hwynebu, lle'r oedd mynediad i hyfforddiant i weld yn ddibynnol ar adegau ar faint y cwmni yr oedd y gweithwyr yn seiliedig ynddo. Er enghraifft, fel y dywedodd un perchennog busnes pan ofynnwyd iddo a oedd yn gwybod am unrhyw welliannau y gellid eu gwneud o ran targedu cymorth busnes:

> "Hyfforddiant yw'r peth mwyaf i fusnes bach fel ein busnes ni. Gall cwmnïau mawr fforddio gwneud mwy o hyfforddiant a chael y cymwysterau i'r staff."

Yn drydydd, gallai cydraddoldeb felly mewn mynediad i hyfforddiant wella atyniad rhai mathau o swyddi yn ei dro, sef swyddi yr oedd yn anodd dod o hyd i ymgeiswyr iddynt ar hyn o bryd:

> "Pe bai gennym gyllid a allai ein helpu ni hyfforddi pobl a rhoi crefft go iawn iddynt fel plymwr neu saer, yn amlwg byddai gan bobl fwy o ddiddordeb i ymuno â ni."

Yn olaf, mantais uniongyrchol arall a nodwyd gan ymatebwyr oedd y cyfle a fyddai'n cael ei greu i berchenogion busnes yn sgil sylfaen medrau well o fewn y farchnad lafur cefn gwlad, a hefyd mwy o gymorth i fusnes i hyfforddi gweithwyr presennol; cyfleoedd i allu neilltuo mwy o amser i ehangu/gwella proffidioldeb eu busnes:

> "… Ni allaf helpu ond meddwl 'mod i byth a hefyd yn gwneud y gwaith fy hun a dylwn fod yn datblygu fy musnes yn hytrach na cheisio gweithio ynddo; mae angen i chi gamu'n ôl ychydig a threulio ychydig o amser ar y busnes, yn hytrach nag yn y busnes, ac yn anffodus rwy'n fy nghael fy hun 99% o'r amser yn y busnes, a dydw i ddim yn gallu datblygu pethau..."

Yn gysylltiedig â'r syniad hwn o 'ryddhau amser' i berchenogion busnes i ganolbwyntio ar strategaeth, oedd ffafriaeth ymhlith nifer o ymatebwyr i fwy o gymorth busnes gael ei ganolbwyntio'n bennaf ar leihau'r rhwystrau sy'n rhwystro hyfforddiant staff presennol ar hyn o bryd. Roedd y ffactor 'ymddiriedaeth' yn berthnasol yn uniongyrchol. Cyfaddefodd nifer o berchenogion busnes, yn ystod y cyfweliadau, i'r ffaith bod rhan o'r rheswm am eu horiau hir eu hunain i'w briodoli i ddiffyg awydd i adael i unrhyw un gymryd eu lle:

> "Mae'n siwr y gallech chi ddweud mai problem staffio ydyw; nid wyf yn gwybod a fyddwn i'n ymddiried yn rhywun arall i wneud yr hyn dwi'n ei wneud beth bynnag..."

Yn gyfatebol, er yn cydnabod buddion gwella medrau ymhlith gweithwyr potensial a gwella'r cymorth i hyfforddi gweithwyr presennol, roedd mwyafrif y perchenogion busnes yn gogwyddo tuag at yr olaf o'r ddau yma, fel elfen â'r gwerth potensial mwyaf. Yn y bôn, y teimlad oedd, trwy gael mwy o gymorth i hyfforddi gweithwyr, gallai perchenogion busnes wedyn wneud yn siwr eu bod yn cael eu hyfforddi'n union er budd penodol y busnes unigol. Hefyd, ni fyddai hyfforddiant fyth yn cael ei weld fel nwydd statig, ond yn hytrach, cyrchnod symudol cyson sy'n gofyn am ddiweddaru medrau gweithwyr yn barhaus.

I gloi, er nad oedd yr holl ymatebwyr yn disgwyl gweld unrhyw welliannau yn eu busnes fel effaith uniongyrchol naill ai sylfaen lafur fwy medrus neu lai o rwystrau i hyfforddi gweithwyr (yn enwedig, er enghraifft, busnesau teulu), felly'r oedd hi i'r mwyafrif. Yn ddiddorol, serch hynny, yn achos y chwe ymatebydd a gafodd eu cyfweld o'r sector llety, bwyd a diod yn Sir Ddinbych, dim ond un ohonynt oedd yn disgwyl gwelliannau uniongyrchol i ddeillio o ganlyniad i fwy o hyfforddiant i staff yn gyffredinol:

> "Yn sicr, mae'n gyfraniad anferthol. Yn seiliedig ar y ffaith bod pobl wedi'u hyfforddi a bod pobl yn mynd i ddod i Gymru – fe fydd fel safon oddi mewn – os dônt i Langollen, er enghraifft, a bod y safon lleiafswm gan bawb, mae pawb yn mynd i elwa o safbwynt refeniw..."

Mae busnesau cefn gwlad dan anfantais o ran hyfforddi gweithwyr o ganlyniad i agweddau ar fàs critigol isel, lefel isel o ddarpariaeth hyfforddiant, a chyfraddau cyflog llai deniadol o gymharu â'r marchnadoedd llafur trefol mawr.

### 5.3 Crynodeb - Cynnal twf busnesau drwy farchnadoedd llafur Sir Ddinbych a Sir Benfro

"Ardal wledig ydym ni, ac nid oes system gludiant dda iawn, ac felly os nad oes eu cludiant eu hunain gan bobl sy'n gweithio shifftiau, mae hynny'n creu problem; hefyd, rydych chi'n tueddu gweld nawr, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, eu bod yn tueddu mynd ymlaen i addysg bellach… … ac o ran pobl hefyd, mae mamau sy'n gweithio eisiau gweithio, ond dim ond hyn a hyn o oriau maen nhw'n dymuno'u gweithio wrth gwrs oherwydd y credydau treth. Ac yna fe gewch y grwp oed hyn sydd eisiau gwneud y math hwn o waith, ond dydyn nhw ddim eisiau gwneud y cyrsiau… Rwy'n credu weithiau nad yw ein pobl ein hunain eisiau gweithio a bod yn hollol onest â chi" (Sir Ddinbych)

"Mae'n rhaid eich bod chi eisiau byw yng nghefn gwlad, mae fel gwlad y cowboi; mae'n ansawdd bywyd a dyna pam mae pobl yn byw i lawr yma. Pe bawn yn symud y busnes cyfan i gyrion Llundain, byddwn werth miliynau, ond dim ond un aelod o'm staff fyddai'n symud gyda mi." (Sir Benfro)

Mae'r ymatebion a roddwyd gan berchenogion busnes yn Sir Ddinbych a Sir Benfro yn awgrymu nad 'anghydweddu' yn unig rhwng galw a chyflenwad yn y farchnad lafur a wynebir, ond anhawster cyffredinol hefyd o ran gwella lefelau medrau gweithwyr oherwydd strwythur cymorth amhriodol – nid lleiaf, yn cael ei yrru gan set o broblemau 'gwledig' penodol. Mae dadansoddi'r dystiolaeth yma wedi datgelu'r cymhlethdodau materion sy'n gysylltiedig â'r syniad o 'anghydweddu'. Mae'n golygu amrywiaeth o ddatgysylltiadau rhwng dyheadau mathau gwahanol amlwg o 'geiswyr gwaith' (amser llawn medrus, rhan-amser, ifanc, heb eu hyfforddi etc), a'r amrywiaeth o gyflogwyr (o'r rheiny sy'n cyflogi rhwng 20 a 50, i'r busnesau teulu hynny sydd yn aml yn cyfyngu'u gofynion llafur cyflogedig i leiafswm (rhan-amser)). Dim ond yn rhannol y mae gofynion y cwmnïau'n cael eu bodloni gan y 'marchnadoedd' lleol yn y ddau faes astudiaeth – yn enwedig mewn perthynas â recriwtio llafur amser llawn 'o safon'.

Ar yr un pryd, ymddengys bod 'carfannau' gweddilliol o'r hyn y gallwn eu galw'n 'bobl anghyflogadwy'. Yn nwy ardal yr astudiaeth achos, ond yn enwedig yn Sir Benfro, mae lefelau cymharol uchel o anactifedd economaidd ochr yn ochr â phrinderau llafur canfyddedig. Mae'r dadansoddiad hwn wedi dechrau datgelu cymhlethdodau yn ogystal â dimensiynau gwledig penodol wledig yr anghymesureddau hyn. O dan amodau 'normal' y farchnad fe allwn ddisgwyl i rai o'r prinderau llafur hyn a nodwyd yn y dadansoddiad hwn i arwain at leihad yng nghymeriad yr economi wledig a ddiffinnir yn draddodiadol fel un 'cyflog isel' a pharchus. Fodd bynnag, rydym wedi gweld, yn nhermau recriwtio, cadw a hyfforddi, bod llawer o fusnesau bach cefn gwlad yn dal i ddibynnu ar rwydweithiau anffurfiol perthnasau a heb fod yn berthnasau wrth gynnal eu gofynion llafur. At hynny, i lawer o fusnesau, nid yw recriwtio a hyfforddiant ffurfiol wedi'u teilwra'n ddigonol i fodloni'u gofynion micro-busnes nac wedi'u cydweddu i'w diwylliant penodol

o waith a rheolaeth. Mae llawer o ddrwgdybiaeth felly mewn systemau allanol felly a systemau seiliedig ar asiantaethau, ac ymddengys eu bod wedyn yn atgyfnerthu dibyniaeth ar yr anffurfiol. Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r mecanweithiau anffurfiol hyn yn niwtral yn gymdeithasol. Fe allent weithredu fel dulliau o gynnal trefniadau gweithio medrau isel a pharchus. Ar y llaw arall, gellid adeiladu'n sensitif arnynt gan fentrau polisi mwy hyrwyddol sy'n fwy sensitif i fusnes penodol ac anghenion cyflogaeth busnesau lleol cefn gwlad, sydd wedi'u nodi'n glir yn y dadansoddiad hwn.

Os yw'r sefyllfa hon i'w gwella, yna mae angen cyflawni newidiadau polisi mwy sensitif sy'n gallu mynd i'r afael a'r cymhlethdod hwn a'r amrywiaeth problemau (ar ochr y galw a chyflenwad) ar y cyd.

## Adran 6 - Casgliadau


Nodir isod y casgliadau y daethpwyd iddynt o'r ymchwil hon i farchnadoedd llafur yng nghefn gwlad Cymru.

1. Mae'r dadansoddiad wedi archwilio'n o fanwl natur benodol a nodedig braidd marchnadoedd llafur cefn gwlad drwy archwilio safbwyntiau cyflogwyr a busnesau gwledig (SME). Roedd rhan gyntaf yr adroddiad yn adolygu'r llenyddiaeth bresennol ar farchnadoedd llafur cefn gwlad a lleol yn y DU yn bennaf, ac yna roedd yn gwneud arolwg o'r dystiolaeth ystadegol eilaidd fel yr oedd ymwneud â chefn gwlad Cymru. Aeth ymlaen i ystyried astudiaethau achos manylach o'r modd y mae marchnadoedd llafur cefn gwlad yn gweithio mewn dwy ardal leol, ac roedd yn tynnu ar gyfres o gyfweliadau â chynrychiolwyr busnesau yn y ddwy ardal wledig hon.

2. Mae'r llenyddiaeth ar farchnadoedd llafur cefn gwlad yn anghyson iawn. Mae'n pwysleisio amrywiaeth marchnadoedd llafur cefn gwlad, pa mor ddibynnol y maent ar berthnasoedd 'ymddiriedaeth' a'r potensial am 'droell dirywiad' o ganlyniad i brinder cymharol gwerth uchel - cwmnïau ychwanegol, gormod o gyflogau isel, medrau isel a diffyg buddsoddiadau. Nodweddir y llenyddiaeth gan dermau cyffredinol a llednais braidd fel 'achosion o anghydweddu', 'cydbwysedd sgiliau isel' a 'hyblygrwydd swyddogaethol'. Er mai cyffredinol yw'r llenyddiaeth hon a bod diffyg dilysrwydd empirig sylweddol ynddi, mae'n rhoi model cyffredinol i ni o farchnadoedd llafur cefn gwlad. Rhoddir crynodeb o hyn yn y diagram ar dudalen 19 (Ffigwr 2.1 ) yr adroddiad, ac mae'n nodi ac yn cynosod set o amodau sy'n arwain at barhad y 'droell dirywiad' a disgwyliadau cyffredinol ised.

3. Mae'r dadansoddiad dilynol, drwy archwilio'r ffynonellau data ystadegol ac eilaidd a oedd ar gael am gefn gwlad Cymru (gan gynnwys arolygon AWC cynharach), ac yna drwy ymchwil ansoddol fanwl â 40 o gwmnïau cefn gwlad yn Sir Ddinbych a Sir Benfro, yn archwilio'r tueddiadau hyn yn fanylach, ac mae'n dechrau datgelu cymhlethdodau ac amrywiaethau perthnasoedd rhwng cwmnïau a'r farchnad lafur yng nghefn gwlad. Mae'r dadansoddiad hwn yn ein galluogi i fynd y tu hwn i'r cysyniadau cyffredinol sy'n cael eu portreadu yn y llenyddiaeth gyfredol, ac i lunio'n sylweddol model cysyniadol cadarnach ar gyfer gwaith ac arferion marchnadoedd llafur cefn gwlad.

Ffigwr 6.1 Model diwygiedig a mwy penodol o farchnadoedd llafur cefn gwlad Cymru



4. Gan ystyried yn gyntaf y dystiolaeth arolwg ystadegol ac eilaidd, amlygir sawl tuedd barhaus. Mae yna raddiant cyffredinol o'r dwyrain i'r gorllewin yn y lefelau actifedd economaidd, p'un a fesurir hyn drwy ddiweithdra cofrestredig, neu drwy ffigurau mwy manwl y rhai sy'n economaidd anactif. Yn Sir Benfro, er enghraifft, roedd ymron i 20% o ddynion o oed gweithio yn economaidd anactif (cyfanswm absoliwt o 7,000), ac roedd 5,000 o'r rhain wedi'u cofrestru fel 'ddim eisiau swydd' a 2,000 fel 'eisiau swydd'. Ni ddylai nodi'r graddiant o'r dwyrain i'r gorllewin, fodd bynnag, gelu tuedd fwy cyffredinol yng nghefn gwlad Cymru. Hyd yn oed yn Sir Ddinbych (sydd o fod yn y dwyrain yn sgorio'n uwch yn gyffredinol o ran actifedd economaidd) roedd 5,000 o ddynion wedi'u cofrestru'n economaidd anactif (18.4% o ddynion o oed gweithio), ac roedd 4,000 o'r rhain 'ddim eisiau swydd'. Os ychwanegwn at hyn y nifer cynyddol o gartrefi wedi ymddeol, mae hyn yn awgrymu bod colled sylweddol o adnoddau llafur ac, o'i gymharu â llawer o ranbarthau eraill y DU, bod 'swmp' cynyddol a pharhaus o actifedd economaidd isel. Mae Tabl 6.1 yn dangos bod cyfraddau actifedd economaidd NOMIS yn wir gryn dipyn yn uwch mewn ardaloedd gwledig dethol eraill yn Lloegr o gymharu â dwy ardal ein hastudiaeth achos yng Nghymru, gydag ardaloedd gwledig fel gogledd Norfolk (75.2) a gogledd Cernyw (77.2) uwchlaw hynny ar gyfer Cymru gyfan (74.2) a Sir Benfro (74.4).

**Tabl 6.1 Cyfraddau canran Actifedd Economaidd ar gyfer ardaloedd gwledig dethol**
**Ffynhonnell: NOMIS**

| | |
|---|---|
| Gogledd Norfolk | 75.2% |
| De Gwlad yr Haf | 87.2% |
| Purbeck | 83.4% |
| Gorllewin Wiltshire | 79.0% |
| Canol Dyfnaint | 87.5% |
| Gogledd Cernyw | 77.2% |
| Chichester | 79.3% |
| Alnwick | 79.1% |
| East Riding | 81.1% |
| Sir Benfro | 74.4% |
| Sir Ddinbych | 78.1% |
| Cefn Gwlad Cymru | 74.2% |

Mae mapiau (7,8 a 9) gan ddefnyddio data cyfrifiad, yn dangos daearyddiaeth gyson ar lefel ward o anactifedd economaidd, gyda'r graddiant confensiynol ac ymgorfforedig o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws Cymru, sy'n amlwg o ystadegau eraill, a chynnydd amlwg (mewn cyfraddau anactifedd dynion a merched) mewn wardiau arfordirol o amgylch perimedr deheuol, gogleddol a gorllewinol Cymru.

5. Yn yr un modd, mae'r dosbarthiad incwm blynyddol ar lefel ward yn dangos bod incwm blynyddol cartrefi ym mwyafrif wardiau cefn gwlad Cymru yn is na chymedr Cymru gyfan. Roedd hyn yn fwy amlwg yng ngorllewin, gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru. Mae'r data incwm yn dangos graddiant sylweddol tuag i lawr o'r dwyrain i'r gorllewin, a dangosir hyn ar Fap 10.

6. Dangosodd busnesau a gynhwyswyd yn yr arolwg busnes cyntaf fod tair problem gysylltiedig yng nghefn gwlad. Yn gyntaf, gwelwyd bod hygyrchedd cwsmeriaid a chyflenwyr yn broblem oherwydd bod gan fusnesau gysylltiadau cludiant gwael (36%). Yn ail, dywedodd 36% o fusnesau fod ganddynt sylfaen gul o gwsmeriaid. Yn drydydd, roedd problemau sylweddol o ran recriwtio a chadw llafur. Ar y cyfan, mae'r data eilaidd a'r dadansoddiad yn yr adroddiad yn ategu casgliadau'r llenyddiaeth sydd ar gael a'r model amodau marchnadoedd llafur cefn gwlad a gyflwynir ar d.19. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod gwahaniaethau cynyddol yn yr amodau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn awgrymu bod y setiau hyn o amodau dynamig - bodolaeth cylchred o gwmnïau sy'n dod â gwerth isel, disgwyliadau isel gan gyflogwyr o ran hyfforddiant a sgiliau, cyflogau isel a sylfaen o sgiliau isel - yn gweithredu ar lefel fwy dwfn a difrifol yn yr ardaloedd gwledig yn y gorllewin. Felly, fe all yr un broses fod yn digwydd ym mhob ardal wledig, ond mae'n llawer mwy parhaus a difrifol yn bellach i'r gorllewin yng nghefn gwlad Cymru. Mae ail ran yr adroddiad yn canolbwyntio'n fanylach gan ddefnyddio dulliau a data ymchwil sylfaenol, gan gymryd Sir Ddinbych a Sir Benfro fel ardaloedd yr astudiaeth achos.

7. Cafodd y newid pwyslais mewn cyflogaeth yng nghefn gwlad, sef symud oddi wrth amaethyddiaeth a chyflogaeth yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth tuag at sylfaen fwy amrywiol o wasanaeth a gweithgynhyrchu, ei ddangos yn amrywiaeth y sampl o 40 o fusnesau cefn gwlad y gwnaethpwyd arolwg ohonynt yn y ddwy ardal. Roedd rhai yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth neu fwyd, gyda nifer fawr o gwmnïau amrywiol mewn manwerthu, llety, cludiant a chwmnïau gweithgynhyrchu bychain. Gwelwyd bod y rhain yn cynrychioli'r ardaloedd cyfan, a'r prif sampl o 1,100 a ddadansoddwyd yn Arolwg Busnes ehangach 2004 (AWC, 2005). Roed canlyniadau'r ail arolwg ansoddol yn canolbwyntio'n fwy penodol ar y perthnasoedd rhwng y cwmnïau hyn a'u sylfaen gyflogaeth. Roeddent yn ychwanegu'n sylweddol at y dadansoddiad ystadegol blaenorol wrth ddatgelu amrywioldeb a'r prif broblemau a oedd ynghlwm wrth y perthnasoedd rhwng galw a chyflenwad llafur.

8. Mae mwyafrif y busnesau yng nghategori cefn gwlad Cymru yn SME. Er yn unigol y gall eu cyfraniad at gyflogaeth yn y farchnad lafur fod yn gymharol fach, gyda'i gilydd mae eu rôl fel cyflogwr yn gwneud cynaladwyedd yn ganolog i iechyd cyffredinol economi cefn gwlad. Er bod mentrau gwledig mwy yn bwysig o ran faint o gyflogaeth y gallant ei chynnig mewn unrhyw un lleoliad, mae SMEau yn rhagori o ran y modd y cynigiant gyflogaeth yn y lleoliadau hynny lle mae busnesau mwy yn annhebygol o fynd. Er mwyn i SMEau lenwi economi cefn gwlad yn llwyddiannus, serch hynny, rhaid o leiaf sefydlogi'r cyflenwad llafur ar gyfer busnesau bach, canolig a mawr fel ei gilydd. Y darlun sy'n dod i'r golwg o'r arolwg o'r farchnad lafur yw bod argaeledd gweithwyr dymunol ar bremiwm, beth bynnag yw maint y busnes. Nid yw 'dymunoldeb' ei hun, fodd bynnag, ynghlwm â theilyngdod academaidd yn unig. Yn wir, i lawer o berchenogion busnes, ymddengys nad y pwyslais a roddir ar gymhwyster academaidd yw'r unig ofyniad na'r gofyniad mwyaf pwysig mewn ymgeisydd. Yn lle hynny, chwilir yn gyson am gymysgedd mwy cymhleth o lawer o fedrau ymarferol, profiad ac etheg gwaith. Y math hwn o angen, a'r canfyddiad cysylltiedig yn aml fod hyfforddiant yn y gwaith wedi'i deilwra o werth llawer mwy wrth fuddsoddi mewn gweithwyr yn hytrach na hyfforddiant allanol generig, y mae angen eu cydnabod yn llawnach mewn rhaglenni cymorth busnes presennol.

9. Daeth pedair prif thema i'r golwg: cyfansoddiad staffio cwmnïau, anawsterau a phroblemau recriwtio, materion yn ymwneud â hyfforddiant a medrau, a chefnogaeth fusnes allanol. Datgelodd archwilio a dadansoddi'r themâu hyn addasiadau sylweddol a nodi'n fanylach y model a ddatblygwyd ar d. 15. Mae'r prif themâu sy'n dod allan o'r

dadansoddiad hwn wedi'u crynhoi a'u hesbonio yn y fanyleb bellach o'r model 'dirywiad' a amlinellir yn Ffigwr 6.1 uchod. Datgelodd y dadansoddiad gydrannau manylach y model, ac aeth rywfaint o'r ffordd i ddatgelu pam y mae'n parhau mor ddyfal.

10. Er enghraifft, o ran staffio a recriwtio, rhoddwyd premiwm i lafur rhan-amser a llafur teulu dros gyflogaeth amser llawn, a rhagdybiaeth o leiaf ar ran cyflogwyr bod systemau recriwtio ffurfiol a dirywiad mewn chwilio am swyddi go iawn, yn lleihau'r garfan wirioneddol o ymgeiswyr amser llawn addas. Hefyd, roedd canfyddiad bod llawer o fathau o gyflogaeth yng nghefn gwlad yn anneniadol i bobl ifanc yn chwilio am swyddi (a hyd yn oed cyflogwyr), ac roeddent yn dioddef yn sgil cyflogau cymharol isel ac oriau hir potensial. Roedd cryn amrywiad, fodd bynnag, mewn perthynas â'r materion hyn o ran maint a math y busnes dan sylw. Ond mae'r sector llai mewn llety, manwerthu, bwyd a'r sector busnes yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth i weld yn llai deniadol i'r rheiny sy'n chwilio am swyddi. Hefyd, er gwaetha'r pellteroedd cymharol fach, roedd effeithiau negyddol ynghlwm wrth leoliad gwledig o hyd o ran recriwtio, posibiliadau hyfforddi a chostau cymharol teithio i'r gwaith. Mae diffyg gofal plant, law yn llaw â diffyg cludiant hyblyg yn parhau i waethygu problemau swyddi yng nghefn gwlad. Ac mae'r trefi a'r dinasoedd, a Chaerdydd yn arbennig, yn cael eu gweld yn gynyddol fel canolfannau economaidd a chymdeithasol gweithgarwch, gyda darpariaeth hyfforddiant gwell ac ehangach ar yr un llaw, a chrynoadau uwch o gyfleoedd am swyddi ar y llaw arall. Dyma oedd y canfyddiad yn arbennig a roddwyd gan y cyflogwyr hynny yn y diwydiant adeiladu a diwydiannau cysylltiedig. Mae proffwydoliaeth 'ar ôl yr oes' hunangyflawnol o hyd, sy'n ensynio marchnadoedd llafur a chyflogaeth cefn gwlad.

11. Os arosodwn y dadansoddiad ansoddol hwn felly ar y model presennol o'r marchnadoedd llafur cefn gwlad sy'n cael eu portreadu yn yr adroddiad hwn (gweler ffigwr 6.1) mae hyn yn galluogi nodi'n llawer manylach y model cyffredinol sy'n treiddio drwy'r llenyddiaeth. Hefyd, mae'n cymhwyso hyn yn benodol i broblemau cefn gwlad Cymru, ac yn cynnig cyfleoedd i ddechrau *nodi ffyrdd y gellid gwyrdroi yn rhannol neu'n gyfan gwbl y 'droell dirywiad' ddynamig a nodir yn y llenyddiaeth ac yn rhywfaint o'r dystiolaeth yma.* Felly pa fath o ystyriaethau sy'n dod i'r golwg os mabwysiadwn safbwynt normadol felly yn hytrach na safbwynt beirniadol yn unig?

12. Un elfen allweddol yw ystyried pob un o'r rhwystrau ar alw a chyflenwi a nodwyd yn eu tro, er mwyn archwilio p'un a all y prif ran-ddeiliaid nodi ffyrdd o liniaru'r problemau penodol. Er enghraifft, a yw cyfleusterau hyfforddiant mwy unigol ac 'mewn swydd' yn opsiwn ymarferol i ddarparwyr hyfforddiant presennol? A ellir adeiladu ar natur anffurfiol y recriwtio mewn ffyrdd sy'n annog mwy o gyfranogaeth yn y farchnad lafur? Sut gellir codi'r beichiau rheoleiddiol canfyddedig ar fusnesau bach er mwyn eu hannog i gyflogi llafur amser lawn? Sut gellir bodloni'r dyheadau ar gyfer twf busnes a welir mewn rhywfaint o'r data trwy ddarparu medrau gwell?

13. Fe allai'r mathau hyn o ystyriaethau penodol gynorthwyo â hwyluso set o berthnasoedd sy'n cydweddu'n fwy priodol yn hytrach na'n anghydweddu rhwng y galw a chyflenwad llafur yng nghefn gwlad.

14. Fodd bynnag, mae mwy o ffactorau strwythurol a chyd-destunol y mae angen eu hystyried os yw'r prosesau a nodwyd am gael eu lleddfu. Yn gyntaf, mae'r astudiaeth wedi canolbwyntio'n benodol ar fusnesau anamaethyddol; ond mae'n amlwg bod cyfran fawr ohonynt yn dal i fod, mewn gwahanol ffyrdd, yn ddibynnol ar eu cyd-destun amgylcheddol, un ai fel adnodd ar gyfer gweithgynhyrchu, neu'n wasanaeth, fel llawer o

fusnesau manwerthu a llety i dwristiaid. Mae bodolaeth lefelau isel o ychwanegu gwerth, mewn diwydiannau cynradd mewn gweithgynhyrchu ac mewn gwasanaethau, yn rhwystr allweddol o ran galw. Ac mae'n debygol y bydd hyn yn parhau i atal twf busnesau ac, yn ei dro, cyflogaeth a gweithgarwch economaidd, waeth pa mor anffurfiol neu hyblyg y daw marchnadoedd llafur cefn gwlad, neu waeth faint o ymddiriedaeth sydd ynddynt. Gall gweithio ar sail sectorau (megis drwy ddatblygu cyfleoedd twristiaeth mwy atyniadol, neu ddatblygu 'gweoedd bwyd' lleol) fod yn un ffordd ddefnyddiol ymlaen. Fodd bynnag, mae angen, yn enwedig yng nghyd-destun y cynllun gofodol newydd (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004), *i asesu potensial mewndarddol ardaloedd gwledig yn fwy systematig*. Un ffordd o weithio yw denu datblygiadau twristaidd mewnol, ond yn fwy sylfaenol, bydd angen ystyried dichonoldeb yr *eco-economi wledig leol*. Hynny yw, y gwahanol ffyrdd o wireddu llawer o'r dyheadau a'r gweledigaethau a gynhwysir yn natganiadau is-ardaloedd y cynllun gofodol newydd, drwy harneisio gwerth ychwanegol amgylcheddol a chreu mwy o gwmnïau nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. Er enghraifft, gweledigaethau Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer yr is-ardaloedd sy'n cynnwys ardaloedd ein hastudiaeth achos, Sir Ddinbych a Sir Benfro yw:

"Ardal sy'n harneisio'r symbylwyr economaidd ar ddwy ochr y ffin, gan leihau anghydraddoldebau a gwella ansawdd ei phriodoleddau naturiol a ffisegol." (Sir Ddinbych)

"Cymunedau cryf yn cael eu cynnal gan economi gynaliadwy sy'n seiliedig ar amgylchedd, mynediad arforol a chyfleoedd twristiaeth yr ardal." (Sir Benfro)

I ddechrau gwireddu'r weledigaeth hon, bydd angen mynd i'r afael â'r problemau systemig sy'n wynebu busnesau bach a'r gweithwyr potensial hynny sy'n economaidd anactif. Bydd hyn yn gofyn am roi sylw i agweddau ar yr eco-economi potensial fel rhan o'n dadansoddiad o farchnadoedd llafur cefn gwlad.

Hyd yn hyn, nid yw'r llenyddiaeth academaidd na pholisi wedi gwneud yr eco-economi yn rhan o'r drafodaeth o sut y gellid gwyrdroi 'troell dirywiad' cefn gwlad. Drwy sôn am eco-economi yr hyn a olygwn yw'r busnesau hyfyw hynny a gweithgareddau economaidd sy'n defnyddio ffurfiau amrywiol a gwahanol o adnoddau amgylcheddol cefn gwlad Cymru mewn ffyrdd cynaliadwy nad ydynt yn arwain at ddisbyddu adnoddau'n gyfan gwbl ond yn hytrach yn darparu buddion net a gwerth ychwanegol i'r amgylchedd. Mae'n eironig braidd, ac efallai y byddai rhai o'r farn ei fod yn barodi difrifol, mai'r rhannau prydferthaf hynny a'r rhannau (gorllewinol ac Atlantigaidd) mwyaf deniadol yn esthetig o a chyfoethog yn ecolegol o bosib o gefn gwlad Cymru yw'r rhannau hefyd sy'n dioddef yn sgil y ffurfiau ar anactifedd economaidd sydd wedi ymwreiddio mwy ar yr un llaw, a'r anghydweddu rhwng cyflogwyr a gweithwyr ar y llaw arall.

Mae hyn yn adlewyrchu anallu hirdymor ym mholisi'r DU i gysylltu gwerth amgylcheddol yn greadigol â gwerth ychwanegol economaidd: hynny yw, i greu ac arloesi datblygiad economaidd cynaliadwy.

Gallai dyfodiad cynllunio gofodol i Gymru, a allai agor cil y drws i feddwl mwy arloesol am yr eco-economi, gynnig sylfaen i atal y rhwyg traddodiadol ac economaidd llesteiriol rhwng yr amgylchedd a chyflogaeth ar yr un llaw, a gwrth-droi, fel yr ydym wedi ei weld yma, dyfalbarhad achosion cymhleth o anghydweddu o ran busnes a llafur, ar y llaw arall. Bydd trydedd rhan y rhaglen marchnadoedd llafur cefn gwlad a busnesau cefn gwlad, gan ystyried yr eco-economi, yn rhoi sylw i'r materion hyn yn fwy manwl.

## ATODIAD 1

## DIFFINIADAU NOMIS

At ddibenion ystadegol mae'r boblogaeth o oed gweithio wedi'i rhannu yn ddau gategori craidd - economaidd actif ac economaidd anactif – sydd wedyn yn cael eu his-rannu i adlewyrchu agweddau amrywiol ar fywyd yr economi a bywyd gwaith.

*Economaidd actif* – y bobl hynny o oed gweithio sydd naill ai mewn swydd neu'n ddi-waith.

*Oed Gweithio* – 16 -64 i ddynion a 16 – 59 i ferched.

*Mewn swyddi* – pobl 16 oed a hŷn mewn swydd sy'n talu cyflog; ar raglenni hyfforddiant a chyflogaeth cynaledig y Llywodraeth; a'r rheiny sy'n gwneud gwaith teulu heb eu talu.

*Di-waith* – pobl sydd heb swydd a oedd ar gael i ddechrau gweithio; a oedd yn chwilio am waith; neu a oedd yn aros i ddechrau swydd.

*Cyfradd Diweithdra* – nifer y bobl ddi-waith o oed gweithio wedi'i fynegi fel canran o'r boblogaeth economaidd actif.

*Lwfans Ceisio Gwaith* – mae'n rhaid i bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a chredydau Yswiriant Gwladol ddatgan eu bod yn ddi-waith, yn gallu gweithio, ar gael i weithio, neu wrthi'n chwilio am waith yn ystod yr wythnos y gwneir yr hawliad ynddi.

*Economaidd anactif* - pobl nad ydynt mewn swyddi nac yn ddi-waith; e.e. pobl wedi ymddeol a'r rheiny sy'n gofalu am gartrefi teulu. Mae pobl economaidd anactif yng Nghymru naill ai *Eisiau swydd* (term NOMIS) ond nid ydynt wedi'u dosbarthu fel pobl ddi-waith gan nad ydynt wedi chwilio am waith am bedair wythnos neu nad ydynt ar gael i weithio, neu eu bod *Ddim eisiau swydd* (term NOMIS).

## GWALLAU A BYLCHAU YN NATA NOMIS DATA

Mae rhai gwallau a bylchau yn nata NOMIS. Yn gyffredinol maent yn ganlyniad 'talgrynnu' canrannau. Hefyd, mae NOMIS yn darparu cyfrifau cyfanswm poblogaeth a chyfrifau poblogaeth o oed gweithio wedi'u cyfrif i'r 100 agosaf (e.e. Poblogaeth Sir Benfro o oed gweithio – 66,500) ond mae'n rhoi cyfrifau am yr Economaidd actif, y Di-waith etc wedi'u talgrynnu i'r 1,000 agosaf. Mae rhai gwallau rhifyddeg hefyd. Mae'r cyfrifau yn Nhablau 4.1.2.1 a 4.1.2.2 wedi'u hailgalibradu, ac mae'r canrannau wedi'u cywiro i ddau bwynt degol at ddibenion cymharu.

## Cyfeiriadau


Campbell, M. (1992) A strategic approach to the local labour market. In Campbell, M a Duffy, K (golygyddion) Local Labour Markets: Problems and Policies. Longman: Harlow.

Green, A. E. (2003) Rural labour markets, skills and training. Adroddiad i seminar DEFRA, 15 Ebrill 2003. Institute for Employment Research, Prifysgol Warwick.

Hasluck. C., Duffy, K. (1992) Explaining the operation of local labour markets. In Campbell, M a Duffy, K (golygyddion.) Local Labour Markets: Problems and Policies. Longman: Harlow.

Haughton, G. (1992) Analysing the local labour market – theory and practice. In Campbell, M a Duffy, K (golygyddion.) Local Labour Markets: Problems and Policies. Longman: Harlow.

Haughton, G. (1999) Urban environmental management and welfare regimes: some speculations. European urban and regional studies, Cyfrol. 6 (3), 275-280.

Huggins, R. (2001) The Skills Economi and its Development: Examples and Lessons from a Rural Region. Astudiaethau Polisi, Cyfrol 22 (1), 19-34.

Lowe, P., Talbot, H. (2000) Policy for Small Business Support in Rural Areas: A Critical Assessment of the Proposals for the Small Business Service. Astudiaethau Rhanbarthol, Cyfrol 34 (5), 479-487.

Milbourne, P., Edwards, W., Orford, S., a Hughes, R. (ar ddod) Rôl y System Tai yng Nghefn Gwlad Cymru: Adroddiad i Adran Cyfiawnder ac Adfywiad Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

North, D., Smallbone, D. (2000a) Innovative Activity in SMEs and Rural Economic Development: Some Evidence from England. European Planning Studies, Cyfrol 8 (1), 87-106.

North, D., Smallbone, D. (2000b) The Innovativeness and Growth of Rural SMEs During the 1990s. Astudiaethau Rhanbarthol, Cyfrol 34 (2), 145-157.

Porter, M.E. (1990) The Competitive Advantage of Nations. Free Press: Efrog Newydd.

Raley, M., Moxey, A. (2000) Rural Microbusinesses in North East England: Final Survey Results. Centre for Rural Economy Research Report. Prifysgol Newcastle.

Segal Quince Wicksteed (1998) Larger Firms and the Rural Economi. Rural Research Report. Rural Development Commission, Salisbury.

Shaw, E. (1997) The real networks of small firms. In Deakins, D., Jennings, P., Mason, C. (golygyddion) Small Firms: Entrepreneurship in the Nineties. Paul Chapman: Llundain.

Arsyllfa Wledig Cymru (2004a) Arolwg Busnes Cefn Gwlad.

Arsyllfa Wledig Cymru (2004b) Adroddiad ar Fyw a Gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru.

Woolcock, M. (1998) Social capital and economic development: towards a theoretical synthesis and policy framework. Theory and Society, Cyfrol 27, 151-208.